MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

England & Wales · Charity number 1021901

Details

Other names	MENTER CWM GWENDRAETH CYFYNGEDIG
Status	Registered
Legal form	Charitable company
Company number	02815717
Registered	1993-05-27
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	11-15 Coalbrook Road Pontyberem Llanelli Dyfed SA15 5HU
Phone	01269871600
Email	Alaw@mcge.org.uk
Website	www.facebook.com/MenterCwmGwendraethElli/

Activities

Objects: A) TO ADVANCE THE EDUCATION OF THE INHABITANTS OF CWM GWENDRAETH AND OTHER REGIONS IN WALES IN THE WELSH LANGUAGE AND ITS ASSOCIATED CULTURE. B) TO PROVIDE FACILITIES IN THE INTERESTS OF RECREATION AND OTHER LEISURE TIME OCCUPATION WITH THE OBJECT OF IMPROVING THE CONDITIONS OF LIFE OF SUCH PERSONS BEING IN NEED OF SUCH FACILITIES BY REASON OF THEIR AGE, YOUTH, DISABLEMENT, POVERTY AND SOCIAL AND ECONOMIC CIRCUMSTANCES.

Activities: Support any existing Welsh community activities and promote projects that regenerate the rural community, working with existing organisations where possible.

Downloaded from opencharities.uk/ew/1021901

Classification

- **How:** Provides Services, Other Charitable Activities
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, The Advancement Of Health Or Saving Of Lives, Disability, The Prevention Or Relief Of Poverty, Overseas Aid/famine Relief, Accommodation/housing, Religious Activities, Arts/culture/heritage/science, Amateur Sport, Environment/conservation/heritage, Economic/community Development/employment
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, Other Defined Groups, The General Public/mankind

Geography

- **Area of benefit:** CWM GWENDRAETH AND OTHER REGIONS IN WALES
- Throughout Wales

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£435,565	£595,833	-	-
2024-03-31	£357,511	£360,920	-	-
2023-03-31	£493,744	£376,642	-	-
2022-03-31	£362,481	£359,352	-	-
2021-03-31	£585,912	£418,918	£-1,379,544	25

Downloaded from opencharities.uk/ew/1021901

Trustees

Name	Role	Appointed
DR IAN WYN REES	Chair	2020-07-10
Alana Enoch		2021-04-21
Anwen Mair Evans		2021-04-21
Catrin Mair Rees		2021-04-21
DAVID WILLIAM HUGH RICHARDS		
ELEN DAVIES		
Euros Elis Jones		2023-01-24
GETHIN TOBIAS THOMAS		
Gareth Williams		2023-04-27
Helen Angharad Humphreys		2023-01-24
Jeni Olwen Price		2020-07-08
KENNETH DENVER REES		2016-03-09
Kathryn Devonald-Davies		2020-07-10
LINDA WILLIAMS		
Wendy Edwards		2025-04-29

Downloaded from opencharities.uk/ew/1021901

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

England & Wales - Charity number 1021901

Accounts

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR A DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2025

RHIF Y CWMNI: 2815717

ELUSEN GOFRESTREDIG: RHIF 1021901

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2025

CYNNWYS **TUDALEN**

Rhestr o Wybodaeth	1
Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr	2
Adroddiad Arolygwr Annibynnol	15
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	16
Mantolen	17
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	18

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

RHESTR O WYBODAETH

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Swyddfa Menter Cwm Gwendraeth Elli
11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

BANCWYR

Banc HSBC ccc
4A Stryd Vaughan
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3TY

Banc Lloyds TSB ccc
Stryd Stepney

Sir Gaerfyrddin
SA15 3YD

CYFREITHWYR

Darwin Gray
9, Cathedral Rd
Pontcanna
Caerdydd
CF11 9HA

CYFRIFWYR AC AROLYGWR ANNIBYNNOL

Llŷr James Cyf
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

CYFARWYDDWYR Y CWMNI / WASANAETHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dr Ian Wyn Rees
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Miss Elen Davies
Mrs Wendy Edwards – Apwyntiwyd 29/04/2025
Ms Anwen Mair Evans
Mrs Alana Enoch
Mrs Helen Humphries
Mr Euros Jones
Mrs Jeni Olwen Price
Ms Catrin Mair Rees
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Hugh Richards
Mr Gethin Thomas
Miss Marged Lowri Walters Thomas -Ymddiswyddodd 26/09/2024
Mrs Linda Williams
Mr Gareth Williams

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni i bwrpas rheolau cyfreithiol cwmnïau) yn cyflwyno'r adroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

ENW SWYDDOGOL

Enw swyddogol yr elusen yw Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig.

CYFANSODDIAD

Mae'r elusen wedi ei sefydlu fel Cwmni Cyfyngedig, rhif 2815717, ac fel elusen gofrestredig, rhif 1021901. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol ag elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfrannau.

PRIF WEITHGARWCH

Disgrifir prif weithgarwch y cwmni dan restr o amcanion y Fenter.

AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI

1. Cefnogi unrhyw weithgaredd Cymunedol Cymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

2. Hyrwyddo prosiectau er lles adfywio cymunedol, lle mae bylchau'n bodoli.

3. Cydweithio â Mudiadau sydd eisoes yn weithgar yn gymunedol, er mwyn osgoi gwrthdaro, ac er mwyn dyblygu adnoddau.

4. Hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes a masnach drwy: -

    a) Greu cysylltiadau rhwng cymdeithasau gwirfoddol a'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn hybu gweithgareddau Cymraeg cymunedol.

    b) Hybu'r defnydd o'r iaith yng ngweinyddiaeth a chyhoeddusrwydd y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

5. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd neu gynadleddau cyhoeddus drwy ddefnyddio offer cyfieithu.

6. Sefydlu prosiectau ymchwil cymunedol fydd yn sbardun i drafodaethau ac yn sail i gynllunio cymunedol.

7. Ystyried anghenion trigolion yr ardal ac adeiladu pontydd er lles adfywio cymunedol.

8. Sicrhau rhwydwaith o bwyllgorau lleol, a phaneli a gweithgorau fydd yn bwydo syniadau, yn creu bwrlwm ac yn llywio strategaeth.

9. Cyfrannu i'r wasg yn gyson ar bwyntiau yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol, gwaith y Fenter, a natur y cymunedau diwydiannol hyn sydd yn dibynnu ar waith a bywoliaeth er mwyn cadw'r Cymry ifanc yn agos at eu gwreiddiau.

10. Cadw'r weledigaeth yn glir bod rhaid creu delwedd newydd sbon i'r Gymraeg yn gymunedol a fydd yn adlewyrchu natur ein cymdeithas a thueddiadau byd eang yn y byd cyfoes - iaith ffasiynol, fodern a bywiog sy'n berthnasol i'n cyfnod ni heddiw.

FFYNONELLAU A DEFNYDD ARIAN

Mae'r Fenter yn cael ei chyllido yn bennaf, gan gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Gaerfyrddin, Llywodraeth Cymru, Moondance, Energy Saving Trust, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Community Matters Fund, er mwyn ariannu prosiectau penodol ym maes datblygu cymunedol.

Am y flwyddyn roedd diffyg o £159,833 cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

AROLWG O DDATBLYGIADAU A'R ARGOELION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r canlyniadau am y cyfnod yn dangos gostyngiad yn y cronfeydd cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

Bu 2024-2025 yn flwyddyn o brosiectau a gweithgarwch di-ri o safbwynt y Gymraeg ar draws ardal Cwm Gwendraeth, Llanelli a'r cyffiniau ac yn flwyddyn o wella a chryfhau gweithgareddau a chreu perthnasau a phartneriaethau newydd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn deall pwysigrwydd llif arian i'r Fenter ar adeg pan mae'r disgwyliadau yn uchel ond mae'r adnoddau yn cael eu cwtogi.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried pwysigrwydd cyfraniad y cwmnïau llai i ddyfodol y Fenter ac wedi ystyried sefyllfa ariannol a rhagolygon incwm y cwmnïoedd yma hefyd.

Mae'r pwyllgor wedi asesu ymrwymiadau ariannol y Fenter am y flwyddyn nesaf ac yn obeithiol o dderbyn arian digonol i'w galluogi i barhau a'r gweithgareddau.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Bu 2024–25 yn flwyddyn o dwf, ehangu a datblygiad parhaus i'r Fenter, wrth i ni barhau i hyrwyddo ac i gryfhau defnydd o'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli. Roedd yn bleser croesawu aelodau staff newydd i'r tîm, sydd eisoes yn datblygu ac yn cynnal gwaith rhagorol ar draws yr ardal, gan ddod â syniadau ffres ac egni newydd i waith y Fenter.

Uchafbwynt y flwyddyn, heb os nag oni bai, oedd agor trydydd canolfan y Fenter, sef Canolfan Plant a Phobl Ifanc Tabor. Roedd hwn yn gam pwysig ymlaen yn natblygiad y Fenter, ac rydym yn ddiolchgar iawn i brosiect Pum Mil am ein dewis a'u cefnogaeth, a wnaeth y fenter hon yn bosibl.
Drwy'r flwyddyn, llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol i ategu a chryfhau gwaith iaith y Fenter yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli. Hoffwn estyn diolch diffuant i'r cyllidwyr hynny a gefnogodd y prosiectau hyn, sef Energy Saving Trust, Cronfa 10 Tref Sir Gar a Sefydliad Moondance, am eu hyder yn ein gwaith a'u cefnogaeth parhaus.

Roedd 2024–25 hefyd yn flwyddyn o ehangu nifer o brosiectau llwyddiannus. Datblygwyd prosiectau megis y gwasanaeth Pryd a'r Glud, gan gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, a bu sioe'r theatr ieuenctid yn mynd ar daith, gan arddangos creadigrwydd a hyder pobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y flwyddyn - i'r staff am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd di-baid, i aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu harweiniad a'u cefnogaeth, ac i'n partneriaid, ein cyllidwyr a'r cymunedau lleol am eu cydweithrediad a'u hymrwymiad parhaus.
Gyda sylfaen gadarn bellach wedi'i gosod, edrychwn ymlaen yn hyderus at y flwyddyn sydd i ddod ac at barhau i ddatblygu gwaith y Fenter er budd ein cymunedau.

Dr I W Rees

NODAU AC AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI YW:

- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

- Adfer hyder a lles yr unigolyn a chymunedau Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

- Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'n treftadaeth ddiwylliannol ymhlith trigolion Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG

Dyma gyfle i gyflwyno Adroddiad Menter Cwm Gwendraeth Elli ar gyfer 2024–25. Bu hon yn flwyddyn lawn o weithgarwch ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli, gan gynnig ystod eang o brosiectau a gweithgareddau addas i bob oedran ac i bobl â diddordebau amrywiol. Roedd y flwyddyn hon yn nodweddiadol o dwf, arloesi a datblygiad, wrth i'r Fenter barhau i ymateb i anghenion ein cymunedau.

Bu 2024–25 yn gyfnod o ehangu a chryfhau'r tîm, gyda staff newydd yn ymuno â'r Fenter ac yn datblygu ac yn cynnal gwaith rhagorol ar lawr gwlad. Mae'r model o weithio mewn ardaloedd penodol wedi parhau i fod yn llwyddiannus, gan feithrin ymdeimlad cryf o berchnogaeth yn y cymunedau lleol a galluogi'r swyddogion i adeiladu perthnasoedd cadarn a chynaliadwy.

Uchafbwynt y flwyddyn, heb os, oedd agor trydydd canolfan y Fenter, sef Canolfan Plant a Phobl Ifanc Tabor. Mae'r ganolfan hon eisoes wedi sefydlu ei hun fel canolbwynt bywiog i weithgarwch Cymraeg i blant, pobl ifanc a theuluoedd, ac yn gam strategol pwysig yn natblygiad y Fenter. Hoffwn ategu at ddiolch y Cadeirydd i brosiect Pum Mil am ein dewis a'u cefnogaeth wrth wireddu'r datblygiad arwyddocaol hwn.

Roedd hi'n galonogol iawn gweld nifer o brosiectau newydd yn cael eu peilota yn ystod y flwyddyn, gyda sawl un ohonynt yn profi'n hynod lwyddiannus. Un enghraifft yw lansio Mwncis Menter, prosiect a ddatblygwyd i annog arferion iaith cadarnhaol ymysg rhieni a phlant dan dair oed. Mae'r fenter hon wedi mynd o nerth i nerth, gyda thua 30 o deuluoedd bellach yn galw'n rheolaidd yn ein canolfan newydd i ymgynnull, cymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch cefnogol a naturiol.

Yn ogystal, lansiwyd **Gŵyl y Gwendraeth** sy'n benwythnos o weithgareddau amrywiol a chynhwysol i unigolion o bob oedran a phob gallu ieithyddol. Roedd yr ŵyl yn ddathliad o'r Gymraeg a'r gymuned leol, gan ddod â phobl ynghyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chreadigol mewn awyrgylch croesawgar.

Llwyddwyd hefyd i sicrhau cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ategu ac ehangu gwaith iaith y Fenter yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r gefnogaeth gan Energy Saving Trust, Cronfa 10 Tref Sir Gar a Sefydliad Moondance wedi galluogi'r Fenter i ddatblygu prosiectau newydd, peilota syniadau arloesol a chryfhau mentrau presennol.

Mae'r Fenter yn ffodus iawn o gael rhwydwaith cryf o gefnogwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid gweithredol. Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gar, Mentrau Iaith Cymru, ac i'n partneriaid ar draws y Sir am eu cefnogaeth barhaus.

Diolch hefyd i'r Bwrdd Rheoli am eu harweiniad, eu cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus. Yn olaf, hoffwn fynegi fy niolch diffuant i'r tîm o staff brwdfrydig ac ymroddedig sy'n gweithio'n ddiwyd o ddydd i ddydd er llwyddiant y Fenter. Mae cyfraniad pob unigolyn yn werthfawr ac yn allweddol i ddatblygiad parhaus y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli.
Alaw Davies

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

EIN CENHADAETH NI YW:

'Bod yn Gwmni creadigol, blaengar ac ymatebol, sy'n benderfynol o ddarparu'r gwasanaeth gorau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ac yn gwella potensial yr unigolyn a'r gymuned gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael'

Menter Cwm Gwendraeth Elli, 11-17 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.
Rhif ffôn 01269 871600
E-bost: alaw@mcge.co.uk

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant Cofrestredig yng Nghymru: 2815717 Elusen Gofrestredig: 1021901

STAFF CRAIDD YN YSTOD Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2025

Alaw Davies	Prif Swyddog
Derek Rees	Swyddog Datblygu Llanelli
Julie Nicholas	Swyddog Cyllid
Paul Thomas	Arweinydd Prosiect Adfer
Emma Roberts	Swyddog Datblygu Gwendraeth Uchaf
Steffan Crocker	Swyddog Datblygu Gendraeth Isaf
Catrin Evans	Swyddog Plant Bach (0-3 oed)
Duncan Morgan	Swyddog Prosiect Adfer

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

LLYWYDD
Nigel Owens MBE

IS -LLYWYDD
Deris Williams MBE

PWYLLGOR RHEOLI

Dr Ian Wyn Rees
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Miss Elen Davies
Mrs Wendy Edwards – Apwyntiwyd 29/04/2025
Ms Anwen Mair Evans
Mrs Alana Enoch
Mrs Helen Humphries
Mr Euros Jones
Mrs Jeni Olwen Price
Ms Catrin Mair Rees
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Hugh Richards
Mr Gethin Thomas
Miss Marged Lowri Walters Thomas -Ymddiswyddodd 26/09/2024
Mrs Linda Williams
Mr Gareth Williams

Y CWTSH

Louise Hardy
Wendy Snook
Annie Bullen
Ellie Jones
Val John
Leanna Price
Nicola Jones

Clybiau ar ôl ysgol – 55 o staff

PAFILIWN PENYGROES

Leila Jones
Sioned Rees

CANOLFAN TABOR
Annie Bullen

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

PLANT A PHOBL IFANC

Clybiau Gofal

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydlynu a rheoli Clybiau Gofal cofrestredig sy'n cwrdd o 3:00 hyd 6:00 o'r gloch yr hwyr ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r clybiau yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac wedi derbyn adroddiadau anrhydeddus iawn.

Clybiau Joio a Hwyl

Mae cyfres o 17 o Glybiau Joio a Hwyl yn y Gymraeg yn cael eu darparu ar ôl ysgol ar draws ardaloedd Cwm Gwendraeth a Chylch Llanelli. Mae'r Clybiau hyn yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol ar ôl ysgol gan ehangu'r cyfleoedd i blant 4 - 11 oed gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl ysgol.

Theatr Iau ac Ieuenctid

Mae'r theatr yn cynnig gwasanaeth i blant 7 - 18 oed, gan gwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ysgol. Mae'r tîm o gyfarwyddwyr profiadol yn cynnig profiadau niferus ym maes theatr a pherfformio. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflwyno ffrwyth llafur y gweithdai wythnosol mewn perfformiadau theatrig. Bu'r criw yn brysur yn paratoi ar gyfer sioe gerdd Anni.

Ymwybyddiaeth Iaith

Gan fod natur ein gwaith wedi gorfod newid dros y flwyddyn hon, mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith rhithiol yn cael eu cynnig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cwm Gwendraeth a Llanelli, a hefyd i Gampws Y Graig Coleg Sir Gâr. Nod y sesiynau hyn yw i godi ymwybyddiaeth am hanes yr iaith, digwyddiadau pwysig sydd wedi effeithio ar y Gymraeg a sut mae'r iaith wedi ysbrydoli unigolion yn eu gyrfa e.e., Nigel Owens ac Alex Jones. Y neges holl bwysig yw bod angen i bobl ddefnyddio'r iaith, pa bynnag fath o Gymraeg maent yn ei siarad.

Cwis Dim Clem

Mae Cwis Dim Clem yn brosiect i blant blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r cwis yn cynnwys sawl gwahanol rownd sy'n codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg. Mae sawl rownd gwahanol sy'n arwain at rownd derfynol. Yn dilyn llwyddiant y Cwis, mae bellach yn brosiect rhanbarthol ac yna wedi tyfu i fod yn genedlaethol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Swn Sir Gâr
Mewn partneriaeth â Thim Datblygu Athrawon Sir Gâr, y syniad oedd i gynnal cystadleuaeth i fandiau oedran uwchradd ar draws y sir, gyda tri o'r bandiau yn mynd ymlaen i gael gweithdy perfformio, cyn chwarae yn y rownd derfynol. Cafwyd ymateb arbennig iawn gyda pump act yn ymgeisio trwy ddanfon fideo o'i grwp yn canu *cover* o unrhyw gân Gymraeg. Fe gafon ni geisiadau gan Ysgolion Sant Ioan Llwyd, Y Strade, Bryngwyn, Maes y Gwendraeth a Bro Myrddin a phob un yn ymgais campus!

Y tri band a gafodd gweithdy gyda Mei Gwynedd (Big Leaves, Sibrydion, Hei Mistar Urdd) oedd Merched Beca, Y Tri Gwr Noeth ac Itwopia. Roedd y gweithdai yn arbenig, gyda Mei yn defnyddio ei gallu cerddorol a pherfformio i drawsnewid y bandiau o fod yn bandiau ysgol digon 'rough around the edges' i fod yn berfformwyr sydd yn gallu gweithio llwyfan.

Profwyd hynny ar y noson pan daeth 150 o bobl i Neuadd y Gwendraeth i wylio'r rownd derfynol. Y band Dros Dro oedd y beiriniaid gan hefyd perfformio set anhygoel o dda cyn cyhoeddi yr ennillwyr. Y Tri Gwr Noeth (Maes) oedd yn gyntaf, Iwtopia (Bro Myrddin a Maes) yn ail a Merched Beca (Bryngwyn) yn drydydd. Braf oedd gweld y tri band a'i ffrindiau yn dawnsio yn frwdfrydig i set Dros Dro, sydd hefyd yn gyn-ddisgyblion Maes a Bro Myrddin. Roedd y noson yn *showcase* Sir Gâr go iawn.

Mwncis Menter
Lansiwyd Mwncis Menter yn ystod y flwyddyn fel prosiect peilot gyda'r nod o annog arferion iaith cadarnhaol ymysg rhieni a phlant dan dair oed. Mae'r prosiect yn darparu amgylchedd croesawgar a chefnogol lle gall teuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol drwy chwarae, canu a chymdeithasu. Ers ei lansio, mae Mwncis Menter wedi profi'n hynod lwyddiannus ac yn parhau i dyfu, gyda thua 30 o deuluoedd bellach yn mynychu'n rheolaidd ac yn galw yn ein canolfan newydd i ymgynnull. Mae'r prosiect yn gwneud cyfraniad pwysig at normalu'r Gymraeg o oedran cynnar a chefnogi rhieni wrth fagu hyder yn eu defnydd o'r iaith gyda'u plant.

Gwyl y Gwendraeth

Lansiwyd Gŵyl y Gwendraeth yn ystod y flwyddyn fel penwythnos o weithgareddau amrywiol a chynhwysol, gyda'r nod o ddathlu'r Gymraeg a bywyd cymunedol ar draws Cwm Gwendraeth. Cynigiwyd rhaglen eang o weithgareddau i unigolion o bob oedran a phob gallu ieithyddol, gan greu awyrgylch croesawgar a hygyrch i bawb. Roedd yr ŵyl yn llwyddiant sylweddol, gan ddod â phobl leol ynghyd i gymryd rhan mewn profiadau diwylliannol, creadigol a chymdeithasol, ac yn atgyfnerthu rôl y Fenter fel hwylusydd cyfleoedd Cymraeg o safon o fewn y gymuned.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

ADDYSG GYDOL OES

Dysgwyr. Dysgu'r Gymraeg yn y Gymuned

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru "Miliwn o Siaradwyr" yn ddibynnol ar greu siaradwyr newydd a'u hannog i ddefnyddio'r iaith ar lawr gwlad er lles pawb. Mae gweithio gyda dysgwyr yn allweddol ar gyfer parhad yr iaith ac fel Menter Iaith, rydym wedi blaenoriaethu ymdrechion i helpu y dysgwyr hyn i 'bontio', hynny yw i fynd o fod yn ddysgwyr pur i fod yn siaradwyr naturiol. I wneud hyn, rydym wedi sefydlu sesiynau amrywiol i gynorthwyo dysgwyr i ddeall ac i ddod i siarad Cymraeg sy'n debyg iawn i'r iaith a ddefnyddir gan bobl leol.

Rhedir sesiynau Paned a Sgwrs (Pontyberem a Cydweli), Clwb Clonc (Penygroes) a Cwrw a Chlonc (Llanelli) ar gyfer pobl sydd yn newydd i'r ardal ac i'r Gymraeg, ac sydd eisiau dysgu siarad rhywfaint o'r Gymraeg er mwyn deall fwy o'r hyn sydd yn mynd ymlaen o'u cwmpas.

Mae'r sesiynau hyn yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfle i gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg a ddefnyddir yn lleol. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae dysgwyr yn mynd ymlaen i fynychu nifer fawr o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol a rhedir gan y Fenter, ond hefyd gan grwpiau cymunedol eraill.

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydweithio'n agos gyda dysgwyr ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau trafod a chydweithio gyda'r dysgwyr.

Pryd ar Glud

Mae gwasanaeth Pryd ar Glud yn cael ei gynnig i drigolion Cwm Gwendraeth unwaith yr wythnos. Mae'r trigolion hyn yn cael pryd twym, dau gwrs wedi ei ddarparu yn y cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn holl bwysig i'r bobl sydd yn gaeth i'w cartrefi. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth i ddosbarthu'r pecynnau bwyd. Hefyd, mae'r unigolion hyn yn gwerthfawrogi gweld gwyneb adnabyddus yn wythnosol.

Clwb Darllen

Mae'r Clwb Darllen yn cwrdd yn fisol a 10 unigolyn yn rhan o'r grŵp ac yn cael trafodaethau diddorol am lyfrau cyfredol. Mae'r unigolion yn cwrdd yn wythnosol yn darllen nofelau, straeon byrion, hunangofiant ac yn cael trafodaethau yn sgil y themâu sy'n codi. Mae hyn yn ffordd wych o gymdeithasu a chael tipyn o hwyl. Nod y grŵp yw cwrdd wyneb yn wyneb yn rheolaidd pan fydd canllawiau yn caniatáu.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

MENTRAU CYMDEITHASOL

Plant y Cwm-Yn gwella bywyd plant Cymru
Mae Plant y Cwm yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel cwmni ymroddedig, sy'n hyrwyddo a chefnogi gofal a chymorth i deuluoedd, plant ac oedolion ifanc ar draws Sir Gaerfyrddin. Genir dyfeisgarwch mewn chwarae creadigol. Mae gan blant ffordd arbennig o ddod a llawenydd i bob dydd. Wrth edrych i mewn i'w llygaid gwelwn y gallant wneud beth bynnag mae nhw'n ei ddychmygu. Gallwn ninnau ond eu helpu i ddychmygu au hysbrydoli i wireddu.

Pwy ydym ni?
Rydym yn gwmni preifat sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion ifanc yng nghymunedau Cwm Gwendraeth, ardal Llanelli a thu hwnt.

Beth i ni'n gwneud?
Mae Plant y Cwm yn ddarparwr blaengar a dibynadwy sy'n cyflawni gofal a chefnogaeth i fywydau plant ac oedolion ifanc.

Dysgu'n ddi-dor
Mae plant yn dysgu mewn nifer fawr a ffyrdd boed ai'n ffurfiol neu beidio. Mae 'r clybiau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd mewn amgylchedd creadigol a diogel sy'n ychwanegu at ei haddysg trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau.

Canolfan Cymunedol Y Cwtsh a Pafiliwn Penygroes
Canolfan Adnoddau yw'r Cwtsh ar gyfer Cwm Gwendraeth ac mae'n cyfuno siop lyfrau a chaffi. Yn ogystal, mae'r Cwtsh yn ofod cymunedol gwerthfawr, sy'n cael ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, yn enwedig trigolion lleol sy'n defnyddio'r cyfleuster fel lle diogel a chroesawgar i gwrdd â ffrindiau a hefyd i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Cwtsh yn darparu prydau poeth, ac mae brecwast wedi eu coginio bob dydd ac yn awr mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos. Yn dilyn llwyddiant model y Cwtsh, mae'r Pafiliwn yn darparu gwasanaeth tebyg gyda siop goffi a neuadd gymunedol. Mae'r gweithgareddau wythnosol yn cynnwys Clwb Crefft, Gwersi Iwcaleli yn ogystal a sesiynau dawnsio sedd.

Cwtshffest
Mae Cwtshffest wedi mynd o nerth i nerth ers y lansiad gyda band Pwdin Reis. Rydym wedi gweld sawl artist yn dod i'r Cwtsh a sawl band neu unigolyn lleol yn cefnogi a sawl un o rheini'n perfformio am y tro cyntaf. Mae pob noson yn cynnwys o leiaf dau artist a pryd o fwyd gyda'r bar yn gwerthu diodydd o bob math. Mae'r Cwtshffest wedi dod yn noson gymdeithasol gyda cymuned o bobl sydd yn dod yn ôl tro ar ôl tro.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

DATBLYGU CYMUNEDOL

Bywyd Cyflawn, Bywyd Hapus
Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydnabod bod y perygl o unigedd ac ynysu cymdeithasol yn fwy o ofid nawr nag erioed. Mae pobl yn fwy symudol nawr nag erioed gyda nifer fawr o'n cymunedau wedi gweld dirywiad mewn cyfranogaeth ar lawr gwlad ac mae'r cyfleusterau, sydd ar gynnig yn lleihau diolch i doriadau ariannol a newidiadau mewn patrymau bywyd. Felly, mae'r Fenter yn trefnu calendr o weithgareddau rheolaidd a digwyddiadau achlysurol gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd, i wneud cysylltiadau, i ddysgu rhywbeth newydd ac i fwynhau. A hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys sesiynau gemau traddodiadol, gweithdai coginio, cwisus a ciniawau, grŵp drama, ioga, a theithiau i weld rhai o'r mannau diddorol a braf sydd ar drothwy ein drysau.

Cryfhau Cymunedau
Ers cenhedlaeth bellach, bu Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu gydag unigolion a grwpiau cymunedol o bob math er mwyn deall sut y mae ein cymunedau yn esblygu, ac anghenion eu trigolion yn newid. Nid yw pwyllgora at ddant pawb, ond yn sicr, mae yna nifer fawr o ffyrdd y gall pobl leol roi o'u hamser er mwyn gwneud gwahaniaeth go-iawn i fywydau pobl Cwm Gwendraeth a Llanelli a'r cylch.

Partneriaethau
Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o bartneriaethau ac mae'n cydweithio gyda nifer o grwpiau, mudiadau a sefydliadau gan gynnwys:

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Mudiad Meithrin; Cymraeg i Blant
Urdd
Papurau Bro
Ysgolion Cynradd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Cynghorau Tref a Chymuned
Mentrau Iaith
CAVS
CgGC
Canolfan S4C Yr Egin
Llyfrgelloedd Sir Gâr
Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith Cymru
Busnesau Lleol
Ysgolion Uwchradd
Merched y Wawr
Y Loteri Genedlaethol
Clybiau Gwawr
Canolfan Cymraeg i Oedolion
National Grid
Moondance Foundation
Dechrau'n Deg
Clybiau Chwaraeon

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR
Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion Deddf Cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl cyfraith cwmnïau mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen a gwarged neu ddiffyg yr elusen yn ystod y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol: -

1) Dewis polisïau cyfrif addas a'u gweithredu'n gyson;

2) Dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Cymeradwy: Cyfrifo a Chofnodi gan Elusennau;

3) Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifol a darbodus;

4) Datgan a ydy'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion cymeradwy wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw eithriadau sydd wedi eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;

5) Paratoi datganiadau ariannol ar sail y dybiaeth bod yr elusen yn hyfyw oni fernir mai priodol fyddai credu bod yr elusen ar fin dod i ben.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a Deddf Gwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

ASESIAD RISG
Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr Elusennau y dylai pob elusen baratoi asesiad risg fel mater o arfer da, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ac adolygu'r peryglon y gallai'r cwmni eu hwynebu. Roedd yr adolygiad nid yn unig yn cynnwys risgiau sydd yn gysylltiedig â hwyluso prosiectau neu faterion iechyd a diogelwch ond hefyd risgiau ariannol mewn perthynas â dirwyn y cwmni i ben, diswyddiadau, salwch hirdymor neu geisiadau am iawndal gan staff.

Cytunwyd i neilltuo arian o gyllideb gyfredol y cwmni er mwyn ymateb i achosion risg. Yn sgil hynny, mae cyfanswm o £33,177 wedi ei drosglwyddo i gronfeydd penodol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Wrth baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr, manteisiwyd ar yr eithriadau arbennig yn unol â rhan 15 o Ddeddf Gwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychan.

TRWY ORCHYMYN Y BWRDD

11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

……
Dr Ian Wyn Rees

YMDDIRIEDOLWR

…….
DYDDIAD

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

ffôn/tel 01267 247754
ffacs/fax 01267 248418
ebost/email post@llyrjames.co.uk
gwefan/website www.llyrjames.co.uk
trydar/twitter @LlyrJamesCyf

25 Bridge Street
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3JS

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)

ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR AROLYGWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR

Dyma adroddiad yr arolygwr annibynnol i'r aelodau ar gyfrifon anarchwiliedig Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf.

Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy arolwg annibynnol o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr arolwg annibynnol trwy fod yn aelod cymwysedig o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r arolwg annibynnol y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

…….
BETHAN VAUGHAN
CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG DYDDIEDIG……..

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

	Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd Penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£	£
INCWM A GWARIANT					
ADNODDAU I MEWN					
Rheoli Prosiectau	-	-	232,023	232,023	129,485
Cymhorthdal - Eraill	140,082	-	-	140,082	142,185
Gweithgareddau	63,460	-	-	63,460	72,511
Rhoddion	-	-	-	-	13,330
Adnoddau i mewn - cyfanswm	203,542	-	232,023	435,565	357,511
ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD					
Dibrisiant	5,343	-	-	5,343	6,443
	5,343	-	-	5,343	6,443
Costau Eraill					
Costau Proffesiynol	16,387	-	-	16,387	11,372
Costau Gweithgareddau (4a)	48,498	-	-	48,498	34,670
Costau Cynnal (4b)	155,017	-	370,153	525,170	308,435
	219,902	-	370,153	590,055	354,477
Adnoddau a ddefnyddiwyd – cyfanswm	225,245	-	370,153	595,398	360,920
Adnoddau net a ddefnyddiwyd	(21,703)	-	(138,130)	(159,833)	(3,409)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-	-
Elw gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	-	-	-	-	147,000
Symudiad net mewn cronfeydd	(21,703)	-	(138,130)	(159,833)	143,591
CRONFEYDD - DYGWYD YMLAEN	135,471	33,177	150,630	319,278	175,687
CRONFEYDD - CARIWYD YMLAEN	113,768	33,177	12,500	159,445	319,278

Dangosir y symudiadau ar yr arian wrth gefn yn nodiadau 9, 10 ac 11 i'r datganiadau ariannol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG (RHIF Y CWMNI: 2815717)
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2025

	NODYN	2025		2024	
		£	£	£	£
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Sylweddol	2 a 5		49,088		47,002
ASEDION CYFREDOL					
Dyledwyr	6	41,224		64,839	
Arian yn y banc ac mewn llaw		133,068		239,576	
		174,292		304,415	
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	54,389		29,322	
ASEDION CYFREDOL NET			119,903		275,093
CYFANSWM ASEDION LLAI (RHWYMEDIGAETHAU) CYFREDOL			168,991		322,095
Darpariaeth am ymrwymiadau	8		(9,546)		(2,817)
ASEDION NET			£ 159,445		£ 319,278
CYFALAF AC ARIAN WRTH GEFN					
Cronfeydd – heb gyfyngiadau	9		113,768		135,471
Cronfeydd – penodol	10		33,177		33,177
Cronfeydd – a chyfyngiadau	11		12,500		150,630
CYFANSWM CRONFEYDD			£ 159,445		£ 319,278

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw roedd gan y cwmni'r hawl i gael ei eithrio o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud a chwmnïau bach. Nid yw unrhyw aelodau wedi mynnu i'r cwmni gael archwiliad ariannol o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio a gofynion y Ddeddf mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg ac am baratoi cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 30 gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

…… YMDDIRIEDOLWR
Mrs Kathryn Devonald-Davies

…… DYDDIAD

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig yn elusen gofrestredig ac yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 11-15 Coalbrook Road, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling (£).

2. POLISÏAU CYFRIFO

Sail y Cyfrif

Mae'r cwmni'n paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail cyfrifo cost hanesyddol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau o Adran 1A "Cwmnïau Bychain" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006.

Paratoi cyfrifon ar sail hyfywedd

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen, ar sail yma, yn fusnes gweithredol a hyfyw.

Costau Pensiwn

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Ar ôl mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2015, dangosir unrhyw ddiffyg yn llawn ar y Fantolen.

Trosiant

Mae'r trosiant yn cynrychioli gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Asedion Sefydlog A Dibrisiant

Nodir gwerth asedion sefydlog ar y fantolen yn ôl eu cost lai dibrisiant. Diddymir cost asedion sefydlog fesul rhandaliad blynyddol cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig fel a ganlyn: -

Celfi ac Offer - 15%

Ystyrir asedion a brynir trwy gytundeb les fel asedion cyfalaf ac fe'u dibrisir yn ôl y cyfraddau uchod.

Grantiau

Mae grantiau yn cael eu credydu i incwm yn unol â'r cyfnodau y maent yn perthyn iddynt.

Asesiad Risg

Mae'r cwmni wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r cwmni elusennol yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Offerynnau Ariannol

Mae'r offerynnau ariannol nad ydynt ynghlwm wrth symudiadau'r farchnad yn cynnwys dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.

Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae gwerthoedd asedion ac ymrwymiadau ariannol y cwmni yn amcangyfrifon teg.

Defnyddio Elw

Defnyddir elw'r cwmni i greu cronfa gyffredinol wrth gefn er sicrhau parhad a datblygiad y cwmni ar sail y cyfrannau ac yn ôl y dulliau a argymhellir gan y Pwyllgor Rheoli a'u cymeradwyo gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gwarant

Mae atebolrwydd pob aelod yn gyfyngedig i uchafswm o £1. Diddymir yr atebolrwydd hwn flwyddyn ar ôl i'r aelodaeth ddarfod.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y polisi arian wrth gefn i sicrhau bod gan y cwmni elusennol gyllid digonol i ddelio a'r elfen o risg sydd ynghlwm a rhedeg cwmni sydd yn ddibynnol ar dderbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. (Gweler nodyn 11)

3. CYFARWYDDWYR A STAFF

Ar gyfartaledd rhif y staff yn fisol yn ystod y flwyddyn oedd: 25 (2024 – 25).

Roedd costau cronnus cyflogau'r personau hyn fel a ganlyn:-

	2025	**2024**
	£	**£**
Cyflogau a chostau teithio	189,491	144,208
Costau Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau	43,295	44,065
	232,786	188,273

Ni dalwyd cyflog i unrhyw un o'r ymddiriedolwyr.

4. DADANSODDIAD O GOSTAU

		Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
		£	£	£	£	£
4a	COSTAU GWEITHGAREDDAU					
(i)	Eraill	16,815	-	-	16,815	16,143
(ii)	Costau uniongyrchol	31,683	-	-	31,683	18,527
		48,498	-	-	48,498	34,670
4b	COSTAU CYNNAL					
(ii)	Costau Swyddfa	20,886	-	-	20,886	13,639
(iii)	Costau Cyflogau a chostau teithio	79,521	-	153,265	232,786	188,273
(iv)	Prosiectau	54,610	-	216,888	271,498	106,523
		155,017	-	370,153	525,170	308,435

5. ASEDION SEFYDLOG SYLWEDDOL

	Adeilad	Adeilad ar Les £	Celfi ac Offer £	Cyfanswm £
COST				
Ar 1.4.24	46,815	17,000	177,912	241,727
Ychwanegiadau	-	-	8,621	8,621
Ar 31.3.25	46,815	17,000	186,533	250,348
DIBRISIANT				
Ar 1.4.24	19,091	1,700	173,934	194,725
Tal am y cyfnod	3,080	1,700	1,755	6,535
Ar 31.3.25	22,171	3,400	175,689	201,260
GWERTH LLYFR NET				
Ar 31.3.25	£24,644	£13,600	£10,844	£49,088
Ar 31.3.24	£27,724	£15,300	£ 3,978	£47,002

6. DYLEDWYR

	2025	2024
	£	£
Dyledwyr Masnachol	12,243	31,025
Menter Min Nos Cyf (6i)	158	158
Cwtsh Glöyn Cyf (6i)	4,268	-
Menter Plant Y Cwm Cyf (6i)	-	11,982
Caffi Cynnes Cyf (6i)	24,555	21,674
	£ 41,224	£ 64,839

Nodyn (i)
Ar 31 Mawrth 2025 roedd asedion / (ymrwymiadau) y cwmnïoedd fel a ganlyn:-

	2025
	£
Cwtsh Glöyn Cyf	£ 5,099
Menter Plant y Cwm Cyf	£ 134,908
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£ 17,999
Menter Min Nos Cyf	£ 331
Caffi Cynnes Cyf	£ (2,299)

Er nad yw'r rhain yn is-gwmnïau, fe'u sefydlwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf mwyn iddynt weinyddu gweithgareddau penodol. Maent i gyd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf sydd hefyd yn gwarantu eu holl ymrwymiadau ariannol.

7. CREDYDWYR

	2025	2024
	£	£
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn: -		
Credydwyr Masnachol	36,480	10,240
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf (6i)	8,963	10,832
WCVA	4,956	8,250
Menter Plant y Cwm Cyf (6i)	3,990	-
	£ 54,389	£ 29,322

8. DARPARIAETH AM YMRWYMIADAU

		2025 £	2024 £
a)	**REDRESS**		
	Balans ar 1 Ebrill 2024	2,817	3,493
	Arian a dderbyniwyd	-	-
	Grant a hawliwyd	(676)	(676)
	Balans ar 31 Mawrth 2025	2,141	2,817
b)	**CYMORTH BWYD**		
	Balans ar 1 Ebrill 2024	-	-
	Arian a dderbyniwyd	4,736	-
	Grant a hawliwyd	(118)	-
	Balans ar 31 Mawrth 2025	4,618	-
c)	**CYMORTH BWYD**		
	Balans ar 1 Ebrill 2024	-	-
	Arian a dderbyniwyd	3,185	-
	Grant a hawliwyd	(398)	-
	Balans ar 31 Mawrth 2025	2,787	-
	CYFANSWM	£9,546	£ 2,817

9. CRONFEYDD - HEB GYFYNGIADAU

	2025 £	2024 £
Balans a ddygwyd ymlaen	135,471	6,852
(Diffyg) Gwarged am y cyfnod	(21,703)	128,619
	£ 113,768	£ 135,471

10. CRONFEYDD PENODOL

	Balans 1.4.24	Trosglwyddiadau i Gronfeydd Eraill	Trosglwyddiadau i mewn	Balans 31.3.25
	£	£	£	£
Costau Swyddfa (i)	33,177	-	-	33,177
	33,177	-	-	33,177

Yn dilyn asesiad o risg, mae'r Fenter wedi sefydlu cronfa benodol: -

i) Darpariaeth am gostau ychwanegol a fyddai'n deillio o adleoli swyddfeydd

		£
-	Costau Cynnal y Swyddfa	23,177
-	Costau Cyfreithiol	5,000
-	Adleoli Swyddfeydd	5,000
		£33,177

11. CRONFEYDD - A CHYFYNGIADAU

		Symudiad mewn Cronfeydd		
	Balans 1.4.24	**Adnoddau i mewn**	**Gwariant**	**Balans 31.3.25**
	£	**£**	**£**	**£**
Cyngor (i)	-	5,000	5,000	-
Prosiect Llwynhendy (ii)	142,922	111,818	254,740	-
Redress (iii)	-	51,805	51,805	-
Annog (iv)	-	8,400	8,400	-
Grant 10 (v)	-	20,000	20,000	-
Cyngor Sir(vi)	-	20,000	20,000	-
Moondance (vii)	7,708	15,000	10,208	12,500
	150,630	232,023	370,153	12,500

Cronfeydd a Chyfyngiadau

(i) Cyngor – Cyllid penodol i hyrwyddo'r Gymraeg yn Ysgol Maes y Gwendraeth a Strade.

(ii) Prosiect Llwynhendy -. Nod Cyllid Invest Local yw i ddarparu buddsoddiad ar gyfer y prosiect ac adnabyddwyd yng Nghynllun Gyrru Newid Llwynhendy, sy'n gyfredol ar yr adeg pan gyflwynir y cynnig cyllido.

Mae Menter yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn union yn unol â'r termau ac amodau ar nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r prosiect a gymeradwywyd gan Bwyllgor Llywio'r Llwynhendy Invest Local (y Pwyllgor Llywio) fel y crybwyllwyd yn y Llythyr Cynnig cyllid.

(iii) Redress - Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yng nghymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresog cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawr gyda'r cynnydd cost ynni presennol.

(iv) **Annog Cyf** /Arfor - Cefnogaeth i sefydlu a datblygu metrau cymdeithasol i warchod adnoddau allweddol o fewn gymunedau yng nghadarnleoedd y Gymraeg.

(v) **Grant 10 Tref -** Diben ein menter Deg Tref yw cefnogi adferiad economaidd a thwf trefi gwledig ledled y Sir.

(vi) **Cyngor Sir Garefyrddin –**.Cynnal adloniant Gymraeg mewn amryw o leoliadau ar draws Cwm Gwendraeth a Llanelli, a'r ail cynnal prosiect Gymusi mewn ardal benodol.

(vii) **Moondance -** Grant i gefnogi costau staff er mwyn cynnal gweithgarwch yng Nhanolfan Tabor.

12. DADANSODDIAD O ASEDION NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedion / Sylweddol	Asedion Net	Cyfanswm
	£	£	£
Grantiau	9,546	(9,546)	-
Cronfeydd Penodol	-	33,177	33,177
Cronfeydd heb gyfyngiadau	39,542	74,226	113,768
Cronfeydd a chyfyngiadau	-	12,500	12,500
	49,088	110,357	159,445

13. TRAFODION A CHWMNÏAU PERTHNASOL

Nid oes run o'r pum cwmni perthnasol wedi cyfrannu tuag at gostau Menter Cwm Gwendraeth Elli eleni,

Menter Min Nos Cyf	£0	(2024 - £0)
Cwtsh Glöyn Cyf	£0	(2024 - £0)
Caffi Cynnes Cyf	£0	(2024 - £0)
Menter Plant y Cwm Cyf	£0	(2024 - £0)
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£0	(2024 - £0)

14. CYNLLUN PENSIWN

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig
Dyddiad y Prisiad Actiwarïaid llawn ddiwethaf 31.03.2022

TYBIAETHAU ACTIWARÏAID

Tybiaethau Ariannol	**Dechrau'r Flwyddyn**	**Diwedd y Flwyddyn**
Graddfa chwyddiant	2.6%	2.6%
Graddfa cynnydd cyflogau	4.1%	4.1%
Graddfa cynnydd pensiynau	2.7%	2.7%
Cyfradd disgownt	4.9%	5.9%

Rhaniad yr asedau rhwng y categorïau buddsoddi

Soddgyfrannau	72.8%	72.5%
Bondiau'r Llywodraeth	0.0%	0.0%
Bondiau eraill	9.4%	9.2%
Eiddo	12.3%	10.4%
Arian parod	0.5%	0.9%
Arall	5.0%	7.0%

Mae'r ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a'r rhaniad asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer ddechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2024.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2025

	£,000
Gwerth yr Asedau ar y farchnad	2,565
Dyledion	(2,067)
Gwarged	498
Symudiadau'r Gweddill yn ystod 2024/25	
Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	109
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(18)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	27
Cost y Gwasanaeth Gynt	-
Llog Net / Budd ar Asedau	7
Gwarged Actiwarïaid	373
Gwarged ar ddiwedd y flwyddyn	498

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Datgeliadau Ychwanegol

	Asedau ar 31.03.25		**Asedau ar 31.03.24**	
	£ 000	**%**	**£ 000**	**%**
Soddgyfrannau	1,859	72.5	1,831	72.8
Bondiau'r Llywodraeth	-	0.0	-	0.0
Bondiau eraill	236	9.2	237	9.4
Eiddo	267	10.4	309	12.3
Arian	23	0.9	13	0.5
Arall	180	7.0	126	5.0
Cyfanswm	2,565		2,516	
Dyledion ar 31.03.2025	2,067			

Caiff y Cynllun Pensiwn ei drin fel cynllun a'r cyfraniadau wedi'u diffinio gan fod cytundeb rhwng Menter Cwm Gwendraeth a'r Cynllun Pensiwn Aml-gyflogwr ynglŷn â'r modd yr ariennir unrhyw ddiffyg.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

England & Wales - Charity number 1021901

Accounts

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR A DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2024

RHIF Y CWMNI: 2815717

ELUSEN GOFRESTREDIG: RHIF 1021901

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2024

CYNNWYS **TUDALEN**

Rhestr o Wybodaeth	1
Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr	2
Adroddiad Arolygwr Annibynnol	15
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	16
Mantolen	17
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	18

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

RHESTR O WYBODAETH

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Swyddfa Menter Cwm Gwendraeth Elli
11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

BANCWYR

Banc HSBC ccc
4A Stryd Vaughan
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3TY

Banc Lloyds TSB ccc
Stryd Stepney

Sir Gaerfyrddin
SA15 3YD

CYFREITHWYR

Darwin Gray
9, Cathedral Rd
Pontcanna
Caerdydd
CF11 9HA

CYFRIFWYR AC AROLYGWR ANNIBYNNOL

Llŷr James Cyf
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

CYFARWYDDWYR Y CWMNI / WASANAETHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dr Ian Wyn Rees
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Mr Liam Morgan-Bowen -Ymddiswyddodd 24/11/2023
Miss Elen Davies
Ms Anwen Mair Evans
Mrs Alana Enoch
Mrs Medwen Hewitt Ymddiswyddodd 31/12/2023
Mrs Helen Humphries
Mr Euros Jones – Apwyntiwyd 24/01/2024
Mrs Jeni Olwen Price
Ms Catrin Mair Rees
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Hugh Richards
Mr Gethin Thomas
Miss Marged Lowri Walters Thomas -Ymddiswyddodd 26/09/2024
Mrs Linda Williams
Mr John Evan Jones Ymddiswyddodd 10/05/2023
Mr Gareth Williams – Apwyntiwyd 24/01/2024

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni i bwrpas rheolau cyfreithiol cwmnïau) yn cyflwyno'r adroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024.

ENW SWYDDOGOL

Enw swyddogol yr elusen yw Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig.

CYFANSODDIAD

Mae'r elusen wedi ei sefydlu fel Cwmni Cyfyngedig, rhif 2815717, ac fel elusen gofrestredig, rhif 1021901. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol ag elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfrannau.

PRIF WEITHGARWCH

Disgrifir prif weithgarwch y cwmni dan restr o amcanion y Fenter.

AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI

1. Cefnogi unrhyw weithgaredd Cymunedol Cymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

2. Hyrwyddo prosiectau er lles adfywio cymunedol, lle mae bylchau'n bodoli.

3. Cydweithio â Mudiadau sydd eisoes yn weithgar yn gymunedol, er mwyn osgoi gwrthdaro, ac er mwyn dyblygu adnoddau.

4. Hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes a masnach drwy: -

    a) Greu cysylltiadau rhwng cymdeithasau gwirfoddol a'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn hybu gweithgareddau Cymraeg cymunedol.

    b) Hybu'r defnydd o'r iaith yng ngweinyddiaeth a chyhoeddusrwydd y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

5. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd neu gynadleddau cyhoeddus drwy ddefnyddio offer cyfieithu.

6. Sefydlu prosiectau ymchwil cymunedol fydd yn sbardun i drafodaethau ac yn sail i gynllunio cymunedol.

7. Ystyried anghenion trigolion yr ardal ac adeiladu pontydd er lles adfywio cymunedol.

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

8. Sicrhau rhwydwaith o bwyllgorau lleol, a phaneli a gweithgorau fydd yn bwydo syniadau, yn creu bwrlwm ac yn llywio strategaeth.

9. Cyfrannu i'r wasg yn gyson ar bwyntiau yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol, gwaith y Fenter, a natur y cymunedau diwydiannol hyn sydd yn dibynnu ar waith a bywoliaeth er mwyn cadw'r Cymry ifanc yn agos at eu gwreiddiau.

10. Cadw'r weledigaeth yn glir bod rhaid creu delwedd newydd sbon i'r Gymraeg yn gymunedol a fydd yn adlewyrchu natur ein cymdeithas a thueddiadau byd eang yn y byd cyfoes - iaith ffasiynol, fodern a bywiog sy'n berthnasol i'n cyfnod ni heddiw.

FFYNONELLAU A DEFNYDD ARIAN

Mae'r Fenter yn cael ei chyllido yn bennaf, gan gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Gaerfyrddin, Llywodraeth Cymru, Moondance, CAVS, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Community Matters Fund, er mwyn ariannu prosiectau penodol ym maes datblygu cymunedol.

Am y flwyddyn roedd diffyg o £3,409 cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

AROLWG O DDATBLYGIADAU A'R ARGOELION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r canlyniadau am y cyfnod yn dangos gostyngiad yn y cronfeydd cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

Bu 2023-2024 yn flwyddyn o brosiectau a gweithgarwch di-ri o safbwynt y Gymraeg ar draws ardal Cwm Gwendraeth, Llanelli a'r cyffiniau ac yn flwyddyn o wella a chryfhau gweithgareddau a chreu perthnasau a phartneriaethau newydd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn deall pwysigrwydd llif arian i'r Fenter ar adeg pan mae'r disgwyliadau yn uchel ond mae'r adnoddau yn cael eu cwtogi.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried pwysigrwydd cyfraniad y cwmnïau llai i ddyfodol y Fenter ac wedi ystyried sefyllfa ariannol a rhagolygon incwm y cwmnïoedd yma hefyd.

Mae'r pwyllgor wedi asesu ymrwymiadau ariannol y Fenter am y flwyddyn nesaf ac yn obeithiol o dderbyn arian digonol i'w galluogi i barhau a'r gweithgareddau.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Bu'n flwyddyn brysur unwaith eto, wrth i'r Fenter gynnal gweithgareddau lu er mwyn hyrwyddo ac ehangu defnydd o'r Gymraeg o'r iaith Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r plant wrth eu boddau a sesiynau fel Amser Stori yn y Llyfrgell ac mae'r cynlluniau gofal plant yn tyfu wrth gynnig cyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol. Mae'r diddordeb mewn gweithgarwch cymunedol wedi tyfu boed hynny'n sesiwn ymarfer y Gymraeg neu gig gyda'r nos. Mae'n ymddangos bod chwilio am gyllid wedi tynhau, ond mae'r staff yn cadw'n effro i unrhyw gyfeloedd newydd sydd ar gael.

Mae'r adroddiad yn dangos holl ystod eang a bwrlwm gweithgareddau'r Fenter yn ystod blwyddyn arall. Hefyd y modd mae ein gweithgareddau yn cyfoethogi ac yn ychwanegu gwerth i waith eraill.

Croesawyd staff newydd â syniadau ffres, cyffrous, yn ogystal a chroesawu aelodau newydd i ymuno â'r Bwrdd Rheoli. Bu'r flwyddyn yma'n gyfle i adeiladu ar gyfer y dyfodol a gosod sylfaen gadarn i'r Fenter a'r is-gwmniau.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn – i bawb ddaeth i weithgareddau, ein arianwyr, noddwyr a'n partneriaid hael am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad, i aelodau'r bwrdd, ac yn bennaf oll, I'r swyddogion hynny o fewn y Fenter am eu gwaith diflino tu ôl y lleni.

Ond diolch yn bennaf i staff y Fenter am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd ar bob achlysur.

Ymlaen i 2024-25!

Dr I W Rees

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODAU AC AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI YW:

- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

- Adfer hyder a lles yr unigolyn a chymunedau Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

- Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'n treftadaeth ddiwylliannol ymhlith trigolion Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG

Dyma gyfle i gyflwyno Adroddiad Menter Cwm Gwendraeth Elli ar gyfer 2023-24. Bu'n flwyddyn llawn gweithgareddau ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli yn cynnig ystod eang o weithgareddau addas at bob oed ac at bobl gyda gwahanol ddiddordebau. Bu'n gyfnod o newid mewn staff a hynny'n cynnig gweithgarwch newydd a chyffrous yn yr ardal.

Bu'n gyfnod cyffrous i ni gyda swyddogion yn gweithio mewn ardaloedd penodol, sy'n creu ymdeimlad o berchogaeth yn yr ardaloedd hynny. Croesawyd staff newydd sydd wedi setlo'n wych ac yn creu argraff yn eu cymunedau. Croesawyd aelodau newydd i'r Bwrdd Rheoli hefyd a diolch iddynt am eu cyfraniad.

Mae'r Fenter yn ffodus o gael cyfeillion a ffrindiau da ynghyd â chriw o wirfoddolwyr a phartneriaid gweithredol. Diolch i Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gar a Mentrau Iaith Cymru ac i'n amrywiol bartneriaid ar draws y Sir am bob cefnogaeth.

Rhaid diolch i'r Bwrdd Rheoli o dan arweiniad y swyddogion am bob cefnogaeth. Mae fy niolch yn mynd i'r tîm o staff brwdfrydig sydd yn gweithio'n ddiwyd bob amser er llwyddiant y Fenter. Mae cyfraniad bob un ohonynt yn werthfawr ac yn gyfraniad sylweddol at weld datblygu'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli.

Gobeithio bod yr Adroddiad yn rhoi blas i chi ar waith y Fenter, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n ein hwynebu o ddydd i ddydd.

Alaw Davies

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

EIN CENHADAETH NI YW:

'Bod yn Gwmni creadigol, blaengar ac ymatebol, sy'n benderfynol o ddarparu'r gwasanaeth gorau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ac yn gwella potensial yr unigolyn a'r gymuned gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael'

Menter Cwm Gwendraeth Elli, 11-17 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.
Rhif ffôn 01269 871600
Ffacs 01269 870599
E-bost: alaw@mcge.co.uk
Gwefan: www.mentercg.org

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant Cofrestredig yng Nghymru: 2815717 Elusen Gofrestredig: 1021901

STAFF CRAIDD YN YSTOD Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2024

Alaw Davies	Prif Swyddog
Derek Rees	Swyddog Datblygu Llanelli
Julie Nicholas	Swyddog Cyllid
Paul Thomas	Swyddog Datblygu Gwendraeth Uchaf
Elen Davies	Swyddog Datblygu Gwendraeth Isaf
Steffan Crocker	Swyddog Datblygu Gendraeth Isaf
Catrin Evans	Swyddog Plant Bach (0-3 oed)

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

LLYWYDD
Nigel Owens MBE

IS -LLYWYDD
Deris Williams MBE

PWYLLGOR RHEOLI

Mrs Kathryn Devonald-Davies
Mrs Jeni Olwen Price
Dr Ian Wyn Rees
Ms Anwen Mair Evans
Mrs Alana Enoch
Miss Catrin Mair Rees
Mr Hugh Richards
Miss Elen Davies
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Gethin Thomas
Miss Marged Lowri Walters Thomas
Mrs Linda Williams
Mrs Helen Humphries
Mr Euros Lewis
Mr Gareth Williams

Y CWTSH

Louise Hardy
Wendy Snook
Annie Bullen
Ellie Jones
Val John
Denise Evans

Clybiau ar ôl ysgol – 54 o staff

PAFILIWN PENYGROES

Leila Jones

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

PLANT A PHOBL IFANC

Clybiau Gofal

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydlynu a rheoli Clybiau Gofal cofrestredig sy'n cwrdd o 3:00 hyd 6:00 o'r gloch yr hwyr ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r clybiau yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac wedi derbyn adroddiadau anrhydeddus iawn.

Clybiau Joio a Hwyl

Mae cyfres o 14 o Glybiau Joio a Hwyl yn y Gymraeg yn cael eu darparu ar ôl ysgol ar draws ardaloedd Cwm Gwendraeth a Chylch Llanelli. Mae'r Clybiau hyn yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol ar ôl ysgol gan ehangu'r cyfleoedd i blant 4 - 11 oed gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl ysgol.

Theatr Iau ac Ieuenctid

Mae'r theatr yn cynnig gwasanaeth i blant 4 - 11 oed a 11 - 18 oed, gan gwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ysgol. Mae'r tîm o gyfarwyddwyr profiadol yn cynnig profiadau niferus ym maes theatr a pherfformio. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflwyno ffrwyth llafur y gweithdai wythnosol mewn perfformiadau theatrig. Bu'r criw yn brysur yn paratoi ar gyfer sioe gerdd Anni.

Ymwybyddiaeth Iaith

Gan fod natur ein gwaith wedi gorfod newid dros y flwyddyn hon, mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith rhithiol yn cael eu cynnig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cwm Gwendraeth a Llanelli, a hefyd i Gampws Y Graig Coleg Sir Gâr. Nod y sesiynau hyn yw i godi ymwybyddiaeth am hanes yr iaith, digwyddiadau pwysig sydd wedi effeithio ar y Gymraeg a sut mae'r iaith wedi ysbrydoli unigolion yn eu gyrfa e.e., Nigel Owens ac Alex Jones. Y neges holl bwysig yw bod angen i bobl ddefnyddio'r iaith, pa bynnag fath o Gymraeg maent yn ei siarad.

Ownzone

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn rheoli cynllun Ownzone yn Ysgol Dyffryn Aman. Nod Ownzone yw cynnig cyfle i ddisgyblion dreulio amser tu allan i'r ysgol mewn man diogel, lle mae modd iddyn nhw gael cefnogaeth bersonol a nifer o weithgareddau cyffrous. Un o brif amcanion y prosiect yw codi hunan hyder y disgyblion a chynyddu eu cyfranogiad. Rôl bwysig sydd gan Ownzone yw creu partneriaethau effeithiol sydd yn medru helpu plant a phobl ifanc rhwng deg a phedair ar ddeg mlwydd oed. Ynghyd â chydweithio'n agos iawn gyda'r Ysgol, rydym wedi bod yn creu partneriaethau allanol i'r prosiect.

Mae Ownzone yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfrannu at gynllunio gweithgareddau, a'u trefnu, a chael perchnogaeth dros yr hyn sy'n digwydd. Bydd y bobl ifanc yn cael y canlynol:

- Man diogel i fynd iddo ar ôl ysgol, lle gallant gael hwyl
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a datblygu sgiliau newydd
- Ymfalchïo mewn amrywiaeth newydd o gyraeddiadau personol
- Cyfle i ddatblygu sgiliau allweddol a sgiliau meddwl trwy gael dweud eu dweud ar yr hyn sy'n digwydd

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

- Datblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch
- Teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol, a chael eu symbylu i ddysgu

Cwis Dim Clem
Mae Cwis Dim Clem yn brosiect i blant blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r cwis yn cynnwys sawl gwahanol rownd sy'n codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg. Mae sawl rownd gwahanol sy'n arwain at rownd derfynol. Yn dilyn llwyddiant y Cwis, mae bellach yn brosiect rhanbarthol ac yna wedi tyfu i fod yn genedlaethol.

Côr Ieuenctid Cwm Gwendraeth
Sefydlwyd Cor Ieuenctid i blant blwyddyn 5-10; plant sy'n gwynebu cyfnod pontio o ysgol gynradd i uwchradd. Arweinydd y Côr yw Christopher Davies, a bu'r criw yn cwrdd yn wythnosol yn Neuadd y Gwendraeth, Drefach. Wedi wythnosau o ymarfer, bu'r côr yn barod i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni, a bu'n Steddfod bwysig a hithau wedi ei lleoli o fewn y Sir. Braf cyhoeddi bod y Côr wedi cyrraedd y llwyfan yn yr Eisteddfod a wedi derbyn yr ail wobr. Tipyn o lwyddiant am y flwyddyn gyntaf.

Yn ogystal, bu'r Fenter yn cydlynu cystadleuaeth yn ymwneud a'r Steddfod. Cystadleuaeth harddu'r ardal, ac enillydd mewn 4 categori gwahanol – pentref, stryd, cartref ac ysgol. Roedd hi'n fendigedig gweld yr ardal wedi ei addurno mewn coch, gwyn a gwyrdd.

Swn Sir Gâr
Mewn partneriaeth â Thim Datblygu Athrawon Sir Gâr, y syniad oedd i gynnal cystadleuaeth i fandiau oedran uwchradd ar draws y sir, gyda tri o'r bandiau yn mynd ymlaen i gael gweithdy perfformio, cyn chwarae yn y rownd derfynol. Cafwyd ymateb arbennig iawn gyda pump act yn ymgeisio trwy ddanfon fideo o'i grwp yn canu *cover* o unrhyw gân Gymraeg. Fe gafon ni geisiadau gan Ysgolion Sant Ioan Llwyd, Y Strade, Bryngwyn, Maes y Gwendraeth a Bro Myrddin a phob un yn ymgais campus!

Y tri band a gafodd gweithdy gyda Mei Gwynedd (Big Leaves, Sibrydion, Hei Mistar Urdd) oedd Merched Beca, Y Tri Gwr Noeth ac Itwopia. Roedd y gweithdai yn arbenig, gyda Mei yn defnyddio ei gallu cerddorol a pherfformio i drawsnewid y bandiau o fod yn bandiau ysgol digon 'rough around the edges' i fod yn berfformwyr sydd yn gallu gweithio llwyfan.

Profwyd hynny ar y noson pan daeth 150 o bobl i Neuadd y Gwendraeth i wylio'r rownd derfynol. Y band Dros Dro oedd y beiriniaid gan hefyd perfformio set anhygoel o dda cyn cyhoeddi yr ennillwyr. Y Tri Gwr Noeth (Maes) oedd yn gyntaf, Iwtopia (Bro Myrddin a Maes) yn ail a Merched Beca (Bryngwyn) yn drydydd. Braf oedd gweld y tri band a'i ffrindiau yn dawnsio yn frwdfrydig i set Dros Dro, sydd hefyd yn gyn-ddisgyblion Maes a Bro Myrddin. Roedd y noson yn *showcase* Sir Gâr go iawn.

Llysgenhadon Brynwgyn

Mae Llysgenhadon y Gymraeg Ysgol Bryngwyn yn cwrdd bob Dydd Llun dros ginio er mwyn trafod, cynllunio a gweithredu prosiectau Cymraeg o fewn yr ysgol. Gwaith pennaf y llysgenhadon yw i godi lefel y Gymraeg sydd i'w gweld a'i chlywed ar hyd y coridorau ac o fewn digwyddiadau. Mae'r criw wedi gweithio'n galed ar Ddiwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru, Swn Sir Gâr, yr Eisteddfod a sawl digwyddiad arall.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

ADDYSG GYDOL OES

Dysgwyr. Dysgu'r Gymraeg yn y Gymuned

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru "Miliwn o Siaradwyr" yn ddibynnol ar greu siaradwyr newydd a'u hannog i ddefnyddio'r iaith ar lawr gwlad er lles pawb. Mae gweithio gyda dysgwyr yn allweddol ar gyfer parhad yr iaith ac fel Menter Iaith, rydym wedi blaenoriaethu ymdrechion i helpu y dysgwyr hyn i 'bontio', hynny yw i fynd o fod yn ddysgwyr pur i fod yn siaradwyr naturiol. I wneud hyn, rydym wedi sefydlu sesiynau amrywiol i gynorthwyo dysgwyr i ddeall ac i ddod i siarad Cymraeg sy'n debyg iawn i'r iaith a ddefnyddir gan bobl leol.

Rhedir sesiynau Paned a Sgwrs (Pontyberem a Cydweli), Clwb Clonc (Penygroes) a Cwrw a Chlonc (Llanelli) ar gyfer pobl sydd yn newydd i'r ardal ac i'r Gymraeg, ac sydd eisiau dysgu siarad rhywfaint o'r Gymraeg er mwyn deall fwy o'r hyn sydd yn mynd ymlaen o'u cwmpas.

Mae'r sesiynau hyn yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfle i gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg a ddefnyddir yn lleol. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae dysgwyr yn mynd ymlaen i fynychu nifer fawr o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol a rhedir gan y Fenter, ond hefyd gan grwpiau cymunedol eraill.

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydweithio'n agos gyda dysgwyr ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau trafod a chydweithio gyda'r dysgwyr.

Pryd ar Glud

Mae gwasanaeth Pryd ar Glud yn cael ei gynnig i drigolion Cwm Gwendraeth unwaith yr wythnos. Mae'r trigolion hyn yn cael pryd twym, dau gwrs wedi ei ddarparu yn y cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn holl bwysig i'r bobl sydd yn gaeth i'w cartrefi. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth i ddosbarthu'r pecynnau bwyd. Hefyd, mae'r unigolion hyn yn gwerthfawrogi gweld gwyneb adnabyddus yn wythnosol.

Clwb Darllen

Mae'r Clwb Darllen yn cwrdd yn fisol a 10 unigolyn yn rhan o'r grŵp ac yn cael trafodaethau diddorol am lyfrau cyfredol. Mae'r unigolion yn cwrdd yn wythnosol yn darllen nofelau, straeon byrion, hunangofiant ac yn cael trafodaethau yn sgil y themâu sy'n codi. Mae hyn yn ffordd wych o gymdeithasu a chael tipyn o hwyl. Nod y grŵp yw cwrdd wyneb yn wyneb yn rheolaidd pan fydd canllawiau yn caniatáu.

Ymgyrch y Beasleys
Mae'r Fenter yn credu'n gryf mewn creu gofodau i unigolion allu fod yn Gymro neu'n Gymraes. Rydym ni ym Menter Cwm Gwendraeth Elli yn bwriadu prynu'r tŷ, ei adnewyddu a chreu canolfan treftadaeth ar y safle, a fydd o fudd i'r gymuned leol a hefyd i'r genedl gyfan. Mae'r staff wrthi yn chwilio am nawdd er mwyn gwireedu'r freuddwyd I brynu'r adnodd holl bwysig.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

MENTRAU CYMDEITHASOL

Plant y Cwm-Yn gwella bywyd plant Cymru
Mae Plant y Cwm yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel cwmni ymroddedig, sy'n hyrwyddo a chefnogi gofal a chymorth i deuluoedd, plant ac oedolion ifanc ar draws Sir Gaerfyrddin. Genir dyfeisgarwch mewn chwarae creadigol. Mae gan blant ffordd arbennig o ddod a llawenydd i bob dydd. Wrth edrych i mewn i'w llygaid gwelwn y gallant wneud beth bynnag mae nhw'n ei ddychmygu. Gallwn ninnau ond eu helpu i ddychmygu au hysbrydoli i wireddu.

Pwy ydym ni?
Rydym yn gwmni preifat sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion ifanc yng nghymunedau Cwm Gwendraeth, ardal Llanelli a thu hwnt.

Beth i ni'n gwneud?
Mae Plant y Cwm yn ddarparwr blaengar a dibynadwy sy'n cyflawni gofal a chefnogaeth i fywydau plant ac oedolion ifanc.

Dysgu'n ddi-dor
Mae plant yn dysgu mewn nifer fawr a ffyrdd boed ai'n ffurfiol neu beidio. Mae 'r clybiau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd mewn amgylchedd creadigol a diogel sy'n ychwanegu at ei haddysg trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau.

Canolfan Cymunedol Y Cwtsh a Pafiliwn Penygroes
Canolfan Adnoddau yw'r Cwtsh ar gyfer Cwm Gwendraeth ac mae'n cyfuno siop lyfrau a chaffi. Yn ogystal, mae'r Cwtsh yn ofod cymunedol gwerthfawr, sy'n cael ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, yn enwedig trigolion lleol sy'n defnyddio'r cyfleuster fel lle diogel a chroesawgar i gwrdd â ffrindiau a hefyd i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Cwtsh yn darparu prydau poeth, ac mae brecwast wedi eu coginio bob dydd ac yn awr mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos. Yn dilyn llwyddiant model y Cwtsh, mae'r Pafiliwn yn darparu gwasanaeth tebyg gyda siop goffi a neuadd gymunedol. Mae'r gweithgareddau wythnosol yn cynnwys Clwb Crefft, Gwersi Iwcaleli yn ogystal a sesiynau dawnsio sedd.

Cwtshffest
Mae Cwtshffest wedi mynd o nerth i nerth ers y lansiad gyda band Pwdin Reis. Rydym wedi gweld sawl artist yn dod i'r Cwtsh a sawl band neu unigolyn lleol yn cefnogi a sawl un o rheini'n perfformio am y tro cyntaf. Mae pob noson yn cynnwys o leiaf dau artist a pryd o fwyd gyda'r bar yn gwerthu diodydd o bob math. Mae'r Cwtshffest wedi dod yn noson gymdeithasol gyda cymuned o bobl sydd yn dod yn ôl tro ar ôl tro.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

DATBLYGU CYMUNEDOL

Bywyd Cyflawn, Bywyd Hapus
Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydnabod bod y perygl o unigedd ac ynysu cymdeithasol yn fwy o ofid nawr nag erioed. Mae pobl yn fwy symudol nawr nag erioed gyda nifer fawr o'n cymunedau wedi gweld dirywiad mewn cyfranogaeth ar lawr gwlad ac mae'r cyfleusterau, sydd ar gynnig yn lleihau diolch i doriadau ariannol a newidiadau mewn patrymau bywyd. Felly, mae'r Fenter yn trefnu calendr o weithgareddau rheolaidd a digwyddiadau achlysurol gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd, i wneud cysylltiadau, i ddysgu rhywbeth newydd ac i fwynhau. A hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys sesiynau gemau traddodiadol, gweithdai coginio, cwisus a ciniawau, grŵp drama, ioga, a theithiau i weld rhai o'r mannau diddorol a braf sydd ar drothwy ein drysau.

Cryfhau Cymunedau
Ers cenhedlaeth bellach, bu Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu gydag unigolion a grwpiau cymunedol o bob math er mwyn deall sut y mae ein cymunedau yn esblygu, ac anghenion eu trigolion yn newid. Nid yw pwyllgora at ddant pawb, ond yn sicr, mae yna nifer fawr o ffyrdd y gall pobl leol roi o'u hamser er mwyn gwneud gwahaniaeth go-iawn i fywydau pobl Cwm Gwendraeth a Llanelli a'r cylch.

Partneriaethau
Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o bartneriaethau ac mae'n cydweithio gyda nifer o grwpiau, mudiadau a sefydliadau gan gynnwys:

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Mudiad Meithrin; Cymraeg i Blant
Urdd
Papurau Bro
Ysgolion Cynradd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Cynghorau Tref a Chymuned
Mentrau Iaith
CAVS
CgGC
Canolfan S4C Yr Egin
Llyfrgelloedd Sir Gâr
Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith Cymru
Busnesau Lleol
Ysgolion Uwchradd
Merched y Wawr
Y Loteri Genedlaethol
Clybiau Gwawr
Canolfan Cymraeg i Oedolion
National Grid
Moondance Foundation
Dechrau'n Deg
Clybiau Chwaraeon

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion Deddf Cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl cyfraith cwmnïau mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen a gwarged neu ddiffyg yr elusen yn ystod y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol: -

1) Dewis polisïau cyfrif addas a'u gweithredu'n gyson;

2) Dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Cymeradwy: Cyfrifo a Chofnodi gan Elusennau;

3) Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifol a darbodus;

4) Datgan a ydy'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion cymeradwy wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw eithriadau sydd wedi eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;

5) Paratoi datganiadau ariannol ar sail y dybiaeth bod yr elusen yn hyfyw oni fernir mai priodol fyddai credu bod yr elusen ar fin dod i ben.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a Deddf Gwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

ASESIAD RISG

Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr Elusennau y dylai pob elusen baratoi asesiad risg fel mater o arfer da, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ac adolygu'r peryglon y gallai'r cwmni eu hwynebu. Roedd yr adolygiad nid yn unig yn cynnwys risgiau sydd yn gysylltiedig â hwyluso prosiectau neu faterion iechyd a diogelwch ond hefyd risgiau ariannol mewn perthynas â dirwyn y cwmni i ben, diswyddiadau, salwch hirdymor neu geisiadau am iawndal gan staff.

Cytunwyd i neilltuo arian o gyllideb gyfredol y cwmni er mwyn ymateb i achosion risg. Yn sgil hynny, mae cyfanswm o £33,177 wedi ei drosglwyddo i gronfeydd penodol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Wrth baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr, manteisiwyd ar yr eithriadau arbennig yn unol â rhan 15 o Ddeddf Gwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychan.

TRWY ORCHYMYN Y BWRDD

11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

……
Dr Ian Wyn Rees

YMDDIRIEDOLWR

…….
DYDDIAD

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

ffôn/tel 01267 247754
ffacs/fax 01267 248418
ebost/email post@llyrjames.co.uk
gwefan/website www.llyrjames.co.uk
trydar/twitter @LlyrJamesCyf

25 Bridge Street
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3JS

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)

ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR AROLYGWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR

Dyma adroddiad yr arolygwr annibynnol i'r aelodau ar gyfrifon anarchwiliedig Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf.

Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy arolwg annibynnol o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024.

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr arolwg annibynnol trwy fod yn aelod cymwysedig o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r arolwg annibynnol y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

…….
BETHAN VAUGHAN
CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG DYDDIEDIG……..

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

	Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd Penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£	£
INCWM A GWARIANT					
ADNODDAU I MEWN					
Rheoli Prosiectau	-	-	129,485	129,485	288,113
Cymhorthdal - Eraill	142,185	-	-	142,185	139,927
Gweithgareddau	72,511	-	-	72,511	65,704
Rhoddion	13,330	-	-	13,330	-
Adnoddau i mewn - cyfanswm	228,026	-	129,485	357,511	493,744
ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD					
Dibrisiant	6,443	-	-	6,443	1,564
	6,443	-	-	6,443	1,564
Costau Eraill					
Costau Proffesiynol	11,372	-	-	11,372	13,757
Costau Gweithgareddau (4a)	34,670	-	-	34,670	44,390
Costau Cynnal (4b)	193,922	-	114,513	308,435	316,931
	239,964	-	114,513	354,477	375,078
Adnoddau a ddefnyddiwyd – cyfanswm	246,407	-	114,513	360,920	376,642
Adnoddau net a ddefnyddiwyd	(18,381)	-	14,972	(3,409)	117,102
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-	-
Elw gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	147,000	-	-	147,000	1,293,000
Symudiad net mewn cronfeydd	128,619	-	14,972	143,591	1,410,102
CRONFEYDD - DYGWYD YMLAEN	6,852	33,177	135,658	175,687	(1,234,415)
CRONFEYDD - CARIWYD YMLAEN	135,471	33,177	150,630	319,278	175,687

Dangosir y symudiadau ar yr arian wrth gefn yn nodiadau 9, 10 ac 11 i'r datganiadau ariannol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG (RHIF Y CWMNI: 2815717)
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2024

	NODYN	2024		2023	
		£	£	£	£
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Sylweddol	2 a 5		47,002		54,721
ASEDION CYFREDOL					
Dyledwyr	6	64,839		51,502	
Arian yn y banc ac mewn llaw		239,576		251,963	
		304,415		303,465	
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	29,322		32,006	
ASEDION CYFREDOL NET			275,093		271,459
CYFANSWM ASEDION LLAI (RHWYMEDIGAETHAU)CYFREDOL			322,095		326,180
Darpariaeth am ymrwymiadau	8		(2,817)		(3,493)
Cynllun Pensiwn			-		(147,000)
ASEDION NET			£ 319,278		£ 175,687
CYFALAF AC ARIAN WRTH GEFN					
Cronfeydd – heb gyfyngiadau	9		135,471		6,852
Cronfeydd – penodol	10		33,177		33,177
Cronfeydd – a chyfyngiadau	11		150,630		135,658
CYFANSWM CRONFEYDD			£ 319,278		£ 175,687

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw roedd gan y cwmni'r hawl i gael ei eithrio o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud a chwmnïau bach. Nid yw unrhyw aelodau wedi mynnu i'r cwmni gael archwiliad ariannol o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio a gofynion y Ddeddf mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg ac am baratoi cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 30 gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

…… YMDDIRIEDOLWR
Mrs Kathryn Devonald-Davies

…… DYDDIAD

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig yn elusen gofrestredig ac yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 11-15 Coalbrook Road, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling (£).

2. POLISÏAU CYFRIFO

Sail y Cyfrif

Mae'r cwmni'n paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail cyfrifo cost hanesyddol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau o Adran 1A "Cwmnïau Bychain" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006.

Paratoi cyfrifon ar sail hyfywedd

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen, ar sail yma, yn fusnes gweithredol a hyfyw.

Costau Pensiwn

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Ar ôl mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2015, dangosir y diffyg hwn yn llawn ar y Fantolen.

Trosiant

Mae'r trosiant yn cynrychioli gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Asedion Sefydlog A Dibrisiant

Nodir gwerth asedion sefydlog ar y fantolen yn ôl eu cost lai dibrisiant. Diddymir cost asedion sefydlog fesul rhandaliad blynyddol cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig fel a ganlyn: -

Celfi ac Offer - 15%

Ystyrir asedion a brynir trwy gytundeb les fel asedion cyfalaf ac fe'u dibrisir yn ôl y cyfraddau uchod.

Grantiau

Mae grantiau yn cael eu credydu i incwm yn unol â'r cyfnodau y maent yn perthyn iddynt.

Asesiad Risg

Mae'r cwmni wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r cwmni elusennol yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Offerynnau Ariannol

Mae'r offerynnau ariannol nad ydynt ynghlwm wrth symudiadau'r farchnad yn cynnwys dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.

Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae gwerthoedd asedion ac ymrwymiadau ariannol y cwmni yn amcangyfrifon teg.

Defnyddio Elw

Defnyddir elw'r cwmni i greu cronfa gyffredinol wrth gefn er sicrhau parhad a datblygiad y cwmni ar sail y cyfrannau ac yn ôl y dulliau a argymhellir gan y Pwyllgor Rheoli a'u cymeradwyo gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gwarant

Mae atebolrwydd pob aelod yn gyfyngedig i uchafswm o £1. Diddymir yr atebolrwydd hwn flwyddyn ar ôl i'r aelodaeth ddarfod.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y polisi arian wrth gefn i sicrhau bod gan y cwmni elusennol gyllid digonol i ddelio a'r elfen o risg sydd ynghlwm a rhedeg cwmni sydd yn ddibynnol ar dderbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. (Gweler nodyn 11)

3. CYFARWYDDWYR A STAFF

Ar gyfartaledd rhif y staff yn fisol yn ystod y flwyddyn oedd: 25 (2023 – 25).

Roedd costau cronnus cyflogau'r personau hyn fel a ganlyn:-

	2024	**2023**
	£	**£**
Cyflogau a chostau teithio	144,208	149,576
Costau Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau	44,065	44,053
	188,273	193,629

Ni dalwyd cyflog i unrhyw un o'r ymddiriedolwyr.

4. DADANSODDIAD O GOSTAU

		Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2024
		£	£	£	£	£
4a	COSTAU GWEITHGAREDDAU					
(i)	Eraill	16,143	-	-	16,143	14,424
(ii)	Costau uniongyrchol	18,527	-	-	18,527	29,966
		34,670	-	-	34,670	44,390
4b	COSTAU CYNNAL					
(ii)	Costau Swyddfa	13,639	-	-	13,639	12,777
(iii)	Costau Cyflogau a chostau teithio	124,014	-	64,259	188,273	193,629
(iv)	Prosiectau	56,269	-	50,254	106,523	110,525
		193,922	-	114,513	308,435	316,931

5. ASEDION SEFYDLOG SYLWEDDOL

	Cerbydau	Adeilad	Adeilad ar Les £	Celfi ac Offer £	Cyfanswm £
COST					
Ar 1.4.23	1,000	46,815	17,000	177,912	242,727
Ychwanegiadau	(1,000)	-	-	-	(1,000)
Ar 31.3.24	-	46,815	17,000	177,912	241,727
DIBRISIANT					
Ar 1.4.23	-	16,011	-	171,995	188,006
Tal am y cyfnod	-	3,080	1,700	1,939	6,719
Ar 31.3.24	-	19,091	1,700	173,934	194,725
GWERTH LLYFR NET					
Ar 31.3.24	-	£27,724	£15,300	£ 3,978	£47,002
Ar 31.3.23	£1,000	£30,804	£17,000	£ 5,917	£54,721

6. DYLEDWYR

	2024	2023
	£	£
Dyledwyr Masnachol	31,025	38,901
Menter Min Nos Cyf (6i)	158	158
Menter Plant Y Cwm Cyf (6i)	11,982	11,982
Caffi Cynnes Cyf (6i)	21,674	461
	£ 64,839	£ 51,502

Nodyn (i)
Ar 31 Mawrth 2024 roedd asedion y cwmnïoedd fel a ganlyn:-

	2024
	£
Cwtsh Glöyn Cyf	£ 1,152
Menter Plant y Cwm Cyf	£ 95,817
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£ 10,822
Menter Min Nos Cyf	£ 331
Caffi Cynnes Cyf	£ 3,429

Er nad yw'r rhain yn is-gwmnïau, fe'u sefydlwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf mwyn iddynt weinyddu gweithgareddau penodol. Maent i gyd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf sydd hefyd yn gwarantu eu holl ymrwymiadau ariannol.

7. CREDYDWYR

	2024	2023
	£	£
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn: -		
Credydwyr Masnachol	10,240	9,630
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf (6i)	10,832	10,832
WCVA	8,250	11,544
	£ 29,322	£ 32,006

8. DARPARIAETH AM YMRWYMIADAU

	2024 £	2023 £
a) LOTERI ABC, 124		
Balans ar 1 Ebrill 2024	-	306
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	-	(306)
Balans ar 31 Mawrth 2024	-	-
b) REDRESS		
Balans ar 1 Ebrill 2024	3,493	4,169
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	(676)	(676)
Balans ar 31 Mawrth 2024	2,817	3,493
CYFANSWM	£2,817	£ 3,493

9. CRONFEYDD - HEB GYFYNGIADAU

	2024	2023
	£	£
Balans a ddygwyd ymlaen	6,852	(1,310,244)
Gwarged am y cyfnod	128,619	1,317,096
	£ 135,471	£ 6,852

10. CRONFEYDD PENODOL

	Balans 1.4.23	Trosglwyddiadau i Gronfeydd Eraill	Trosglwyddiadau i mewn	Balans 31.3.24
	£	£	£	£
Costau Swyddfa (i)	33,177	-	-	33,177
	33,177	-	-	33,177

Yn dilyn asesiad o risg, mae'r Fenter wedi sefydlu cronfa benodol: -

i) Darpariaeth am gostau ychwanegol a fyddai'n deillio o adleoli swyddfeydd

	£
- Costau Cynnal y Swyddfa	23,177
- Costau Cyfreithiol	5,000
- Adleoli Swyddfeydd	5,000
	£33,177

11. CRONFEYDD - A CHYFYNGIADAU

		Symudiad mewn Cronfeydd		
	Balans 1.4.23	**Adnoddau i mewn**	**Gwariant**	**Balans 31.3.24**
	£	**£**	**£**	**£**
CAVS (i)	-	1,470	1,470	-
Prosiect Llwynhendy (ii)	135,658	69,428	62,164	142,922
Moondance (iii)	-	18,500	10,792	7,708
TFF (iv)	-	7,723	7,723	-
Loteri (v)	-	10,000	10,000	-
Cymdeithas peldroed (vi)	-	2,000	2,000	-
Community Matters (vii)	-	7,365	7,365	-
Grant Gwaith Ymchwil (viii)	-	3,000	3,000	-
Gwaith Ieuenctid (ix)	-	4,999	4,999	-
Pobl grant (x)	-	5,000	5,000	-
	135,658	129,485	114,513	150,630

Cronfeydd a Chyfyngiadau

(i) **CAVS-** cyfle i gynnal sesiynau i weithwyr di-dal. Sesiynau i unigolion ddod at eu gilydd i siarad, cael rhywbeth i fwyta a rannu profiadau.

(ii) **Prosiect Llwynhendy** -. Nod Cyllid Invest Local yw i ddarparu buddsoddiad ar gyfer y prosiect ac adnabyddwyd yng Nghynllun Gyrru Newid Llwynhendy, sy'n gyfredol ar yr adeg pan gyflwynir y cynnig cyllido.

Mae Menter yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn union yn unol â'r termau ac amodau ar nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r prosiect a gymeradwywyd gan Bwyllgor Llywio'r Llwynhendy Invest Local (y Pwyllgor Llywio) fel y crybwyllwyd yn y Llythyr Cynnig cyllid.

(iii) **Moondance –** prosiect yn cefnogi gweithgarwch yn ein hybiau cymunedol sef y Cwtsh a Pafiliwn Penygroes. Roedd hwn yn caniatau i ni gynnig sesiynau newydd a chynnal rheini sy'n boblogaidd.

(iv) **TFF -** prosiect oedd yn cefnogi costau swyddog tuag at ardal benodol, sef y Gwendraeth Isaf. Byddai'r swyddog yma yn gweithio ar amryw o brosiectau o Bontyberem i Borth Tywyn.

(v) **Loteri –** prosiect i gefnogi Theatr Ieuenctid Cwm Gwendraeth gyda chostau cynyrchu sioe gerdd teithiol, Anni

(vi) **Cymdeithas Peldroed –** rhodd i gefnogi ymgyrch y Fenter i adfer Ty Trefor ac Eileen Beasley

(vii) **Community Matters –** prosiect i greu hwb twym ym Mhafiliwn Penygroes. Roedd hwn yn agor drysau i bobl gael rhywbeth twym i yfed, a defnyddio trydan fel bod angen a chael cyngor ar sut i reoli ynni yn y cartref

(viii) **Grant Gwaith Ymchwil –** Grant gan y Cyngor Sir i wneud gwaith ymchwil yn sgil canlyniadau'r cyfrifiad

(ix) **Gwaith Ieuenctid –** mae'r Fenter yn derbyn grant gan y Cyngor Sir i ddatblygu prosiectau Cymraeg yn Ysgol y Strade ac Ysgol Maes y Gwendraeth.

(x) **Pobl grant –** prosiect i ehangu gweithgarwch i bobl dros 50 oed yng Ngwm Gwendraeth a Llanelli

12. DADANSODDIAD O ASEDION NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedion / Sylweddol	Asedion Net	Cyfanswm
	£	£	£
Grantiau	2,817	(2,817)	-
Cronfeydd Penodol	-	33,177	33,177
Cronfeydd heb gyfyngiadau	44,185	91,286	135,471
Cronfeydd a chyfyngiadau	-	150,630	150,630
	47,002	272,276	319,278

13. TRAFODION A CHWMNÏAU PERTHNASOL

Nid oes run o'r pum cwmni perthnasol wedi cyfrannu tuag at gostau Menter Cwm Gwendraeth Elli eleni,

Menter Min Nos Cyf	£0	(2023 - £0)
Cwtsh Glöyn Cyf	£0	(2023 - £11,000)
Caffi Cynnes Cyf	£0	(2023 - £0)
Menter Plant y Cwm Cyf	£0	(2023 - £0)
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£0	(2023 - £0)

14. CYNLLUN PENSIWN

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig
Dyddiad y Prisiad Actiwarïaid llawn ddiwethaf 31.03.2024

TYBIAETHAU ACTIWARÏAID

Tybiaethau Ariannol	**Dechrau'r Flwyddyn**	**Diwedd y Flwyddyn**
Graddfa chwyddiant	2.7%	2.6%
Graddfa cynnydd cyflogau	4.2%	4.1%
Graddfa cynnydd pensiynau	2.8%	2.7%
Cyfradd disgownt	4.8%	4.9%

Rhaniad yr asedau rhwng y categorïau buddsoddi

Soddgyfrannau	74.4%	72.8%
Bondiau'r Llywodraeth	0.5%	0.0%
Bondiau eraill	7.1%	9.4%
Eiddo	13.5%	12.3%
Arian parod	0.7%	0.5%
Arall	3.8%	5.0%

Mae'r ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a'r rhaniad asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer ddechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2024.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2024

	£,000
Gwerth yr Asedau ar y farchnad	2,516
Dyledion	(2,407)
Gwarged	109
Symudiadau'r Gweddill yn ystod 2024/24	
Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	(147)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(23)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	31
Cost y Gwasanaeth Gynt	-
Llog Net / Budd ar Asedau	(6)
Gwarged Actiwarïaid	254
Gwarged ar ddiwedd y flwyddyn	109

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Datgeliadau Ychwanegol

	Asedau ar 31.03.24		**Asedau ar 31.03.23**	
	£ 000	**%**	**£ 000**	**%**
Soddgyfrannau	1,831	72.8	1,691	74.4
Bondiau'r Llywodraeth	-	0.0	11	0.5
Bondiau eraill	237	9.4	161	7.1
Eiddo	309	12.3	307	13.5
Arian	13	0.5	16	0.7
Arall	126	5.0	86	3.8
Cyfanswm	2,516		2,272	
Dyledion ar 31.03.2024	2,407			

Caiff y Cynllun Pensiwn ei drin fel cynllun a'r cyfraniadau wedi'u diffinio gan fod cytundeb rhwng Menter Cwm Gwendraeth a'r Cynllun Pensiwn Aml-gyflogwr ynglŷn â'r modd yr ariennir unrhyw ddiffyg.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

England & Wales - Charity number 1021901

Accounts

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR A DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2023

RHIF Y CWMNI: 2815717

ELUSEN GOFRESTREDIG: RHIF 1021901

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2023

CYNNWYS **TUDALEN**

Rhestr o Wybodaeth	1
Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr	2
Adroddiad Arolygwr Annibynnol	16
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	17
Mantolen	18
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	19

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

RHESTR O WYBODAETH

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Swyddfa Menter Cwm Gwendraeth Elli
11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

BANCWYR

Banc HSBC ccc
4A Stryd Vaughan
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3TY

Banc Lloyds TSB ccc
Stryd Stepney

Sir Gaerfyrddin
SA15 3YD

CYFREITHWYR

Darwin Gray
9, Cathedral Rd
Pontcanna
Caerdydd
CF11 9HA

CYFRIFWYR AC AROLYGWR ANNIBYNNOL

Llŷr James Cyf
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

CYFARWYDDWYR Y CWMNI / WASANAETHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dr Ian Wyn Rees
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Mr Liam Morgan-Bowen -Ymddiswyddodd 24/11/2023
Miss Elen Davies
Ms Anwen Mair Evans
Mrs Alana Enoch
Mrs Medwen Hewitt
Mrs Helen Humphries – Apwyntiwyd 24/01/2023
Mr John Evan Jones-Ymddiswyddodd 10/05/2023
Mr Euros Lewis – Apwyntiwyd 24/01/2023
Mrs Jeni Olwen Price
Ms Catrin Mair Rees
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Hugh Richards
Mr Dyfrig Thomas- Ymddiswyddodd 4/01/2023
Mr Gethin Thomas
Miss Marged Lowri Walters Thomas
Mr Gareth Williams - Apwyntiwyd 27/04/2023
Mrs Joy Williams -Ymddiswyddodd 31/12/2022
Mrs Linda Williams

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni i bwrpas rheolau cyfreithiol cwmnïau) yn cyflwyno'r adroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

ENW SWYDDOGOL

Enw swyddogol yr elusen yw Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig.

CYFANSODDIAD

Mae'r elusen wedi ei sefydlu fel Cwmni Cyfyngedig, rhif 2815717, ac fel elusen gofrestredig, rhif 1021901. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol ag elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfrannau.

PRIF WEITHGARWCH

Disgrifir prif weithgarwch y cwmni dan restr o amcanion y Fenter.

AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI

1. Cefnogi unrhyw weithgaredd Cymunedol Cymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

2. Hyrwyddo prosiectau er lles adfywio cymunedol, lle mae bylchau'n bodoli.

3. Cydweithio â Mudiadau sydd eisoes yn weithgar yn gymunedol, er mwyn osgoi gwrthdaro, ac er mwyn dyblygu adnoddau.

4. Hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes a masnach drwy: -

    a) Greu cysylltiadau rhwng cymdeithasau gwirfoddol a'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn hybu gweithgareddau Cymraeg cymunedol.

    b) Hybu'r defnydd o'r iaith yng ngweinyddiaeth a chyhoeddusrwydd y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

5. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd neu gynadleddau cyhoeddus drwy ddefnyddio offer cyfieithu.

6. Sefydlu prosiectau ymchwil cymunedol fydd yn sbardun i drafodaethau ac yn sail i gynllunio cymunedol.

7. Ystyried anghenion trigolion yr ardal ac adeiladu pontydd er lles adfywio cymunedol.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

8. Sicrhau rhwydwaith o bwyllgorau lleol, a phaneli a gweithgorau fydd yn bwydo syniadau, yn creu bwrlwm ac yn llywio strategaeth.

9. Cyfrannu i'r wasg yn gyson ar bwyntiau yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol, gwaith y Fenter, a natur y cymunedau diwydiannol hyn sydd yn dibynnu ar waith a bywoliaeth er mwyn cadw'r Cymry ifanc yn agos at eu gwreiddiau.

10. Cadw'r weledigaeth yn glir bod rhaid creu delwedd newydd sbon i'r Gymraeg yn gymunedol a fydd yn adlewyrchu natur ein cymdeithas a thueddiadau byd eang yn y byd cyfoes - iaith ffasiynol, fodern a bywiog sy'n berthnasol i'n cyfnod ni heddiw.

FFYNONELLAU A DEFNYDD ARIAN

Mae'r Fenter yn cael ei chyllido yn bennaf, gan gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraeth Cymru, Energy Redress, Moondance, WCVA, Bwrdd Iechyd, er mwyn ariannu prosiectau penodol ym maes datblygu cymunedol.

Gweithredwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth a nifer o asiantaethau er mwyn datblygu partneriaethau.

Am y flwyddyn roedd gwarged o £117,102 cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

AROLWG O DDATBLYGIADAU A'R ARGOELION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r canlyniadau am y cyfnod yn dangos gostyngiad yn y cronfeydd cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

Bu 2022-2023 yn flwyddyn o brosiectau a gweithgarwch di-ri o safbwynt y Gymraeg ar draws ardal Cwm Gwendraeth, Llanelli a'r cyffiniau ac yn flwyddyn o wella a chryfhau gweithgareddau a pherthnasau yn dilyn y pandemig.

Mae'r ymddiriedolwyr yn deall pwysigrwydd llif arian i'r Fenter ar adeg pan mae'r disgwyliadau yn uchel ond mae'r adnoddau yn cael eu cwtogi.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried pwysigrwydd cyfraniad y cwmnïau llai i ddyfodol y Fenter ac wedi ystyried sefyllfa ariannol a rhagolygon incwm y cwmnïoedd yma hefyd.

Mae'r pwyllgor wedi asesu ymrwymiadau ariannol y Fenter am y flwyddyn nesaf ac yn obeithiol o dderbyn arian digonol i'w galluogi i barhau a'r gweithgareddau.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Yn dilyn cyfnod heriol, bu'r flwyddyn hon yn gyfle i ni ail ddechrau ar gynlluniau cymunedol a chynllunio'n strategol. Bu'n flwyddyn o ailstrwythuro, yn gosod teitlau swydd newydd i bob aelod staff, yn croesawu staff newydd â syniadau ffres, cyffrous, yn ogystal â chroesawu aelodau newydd i ymuno â'r Bwrdd Rheoli. Gan ystyried y ffactorau yma, bu'r flwyddyn yma'n gyfle i adeiladu ar gyfer y dyfodol a gosod sylfaen gadarn i'r Fenter a'r is-gwmnïau.

Yn y flwyddyn flaenorol, cafwyd sawl cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr yn trafod materion sensitif, ond wedi cyfnod anodd, mae'r llif ariannol wedi setlo, cynlluniau newydd ar y gweill a'r Fenter mewn sefyllfa iach.

Hyderaf y dengys yr adroddiad holl ystod eang a bwrlwm gweithgareddau'r Fenter yn ystod blwyddyn arall. Dengys hefyd y modd mae ein gweithgareddau yn cyfoethogi ac yn ychwanegu gwerth i waith eraill.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'm cyd aelodau ar Fwrdd y Fenter am eu cefnogaeth yn ystod cyfnod fy nghadeiryddiaeth a hefyd wrth gwrs i'n partneriaid gweithredol am eu cefnogaeth hwythau yn ogystal. Gobeithiwn yn fawr y medrwn barhau i gydweithio er mwyn sicrhau parhad a thwf y Gymraeg yn yr ardal.

Ond diolch yn bennaf i staff y Fenter am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd ar bob achlysur.

Dr I W Rees

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODAU AC AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI YW:

- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
- Adfer hyder a lles yr unigolyn a chymunedau Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.
- Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'n treftadaeth ddiwylliannol ymhlith trigolion Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG

Dyma gyfle i gyflwyno Adroddiad Menter Cwm Gwendraeth Elli ar gyfer 2022-23. Bu'n flwyddyn llawn gweithgareddau ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli yn cynnig ystod eang o weithgareddau addas at bob oed ac at bobl gyda gwahanol ddiddordebau. Bu eleni yn flwyddyn o gryfhau ar ôl arbrofi yn dilyn Covid-19. Dyma'r flwyddyn gyntaf heb unrhyw gyfyngiadau yn dilyn y pandemig.

Bu eleni yn flwyddyn o fentro a threialu, ar ôl sefydlogi gweithgareddau a chymunedau yn dilyn y cyfnodau clo. Bu'n gyfnod cyffrous i ni wrth wynebu proses ail-strwythuro a swyddogion yn gweithio mewn ardaloedd penodol. Croesawyd staff newydd sydd wedi setlo'n wych ac yn creu argraff yn eu cymunedau. Croesawyd aelodau newydd i'r Bwrdd Rheoli hefyd a diolch iddynt am eu cyfraniad.

Mae'r Fenter yn ffodus o gael cyfeillion a ffrindiau da ynghyd â chriw o wirfoddolwyr a phartneriaid gweithredol. Diolch i Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gar a Mentrau Iaith Cymru ac i'n amrywiol bartneriaid ar draws y Sir am bob cefnogaeth.

Rhaid diolch i'r Bwrdd Rheoli o dan arweiniad y swyddogion am bob cefnogaeth. Mae fy niolch yn mynd i'r tîm o staff brwdfrydig sydd yn gweithio'n ddiwyd bob amser er llwyddiant y Fenter. Mae cyfraniad bob un ohonynt yn werthfawr ac yn gyfraniad sylweddol at weld datblygu'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli.

Gobeithio bod yr Adroddiad yn rhoi blas i chi ar waith y Fenter, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n ein hwynebu o ddydd i ddydd.
Alaw Davies

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

EIN CENHADAETH NI YW:

'Bod yn Gwmni creadigol, blaengar ac ymatebol, sy'n benderfynol o ddarparu'r gwasanaeth gorau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ac yn gwella potensial yr unigolyn a'r gymuned gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael'

Menter Cwm Gwendraeth Elli, 11-17 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.
Rhif ffôn 01269 871600
Ffacs 01269 870599
E-bost: alaw@mcge.co.uk
Gwefan: www.mentercg.org

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant Cofrestredig yng Nghymru: 2815717 Elusen Gofrestredig: 1021901

STAFF CRAIDD YN YSTOD Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2023

Alaw Davies	Prif Swyddog
Derek Rees	Swyddog Datblygu Llanelli
Susan Roberts	Swyddog Datblygu Gwendraeth Uchaf
Julie Nicholas	Swyddog Cyllid
Paul Thomas	Swyddog Ynni / Swyddog Datblygu Gwendraeth Uchaf
Elen Davies	Swyddog Datblygu Gwendraeth Isaf

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

LLYWYDD
Nigel Owens MBE

IS -LLYWYDD
Deris Williams MBE

PWYLLGOR RHEOLI

Dr Ian Wyn Rees
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Mr Liam Morgan-Bowen
Miss Elen Davies
Ms Anwen Mair Evans
Mrs Alana Enoch
Mrs Medwen Hewitt
Mrs Helen Humphries
Mr John Evan Jones
Mr Euros Lewis
Mrs Jeni Olwen Price
Ms Catrin Mair Rees
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Hugh Richards
Mr Dyfrig Thomas
Mr Gethin Thomas
Miss Marged Lowri Walters Thomas
Mr Gareth Williams
Mrs Joy Williams
Mrs Linda Williams

Y CWTSH

Rhian Hudson
Louise Hardy
Wendy Snook
Annie Bullen
Ellie Jones
Val John
Caitlyn Ragola
Stephanie Johns
Gemma Walters
Gwennan Mainwaring

Clybiau ar ôl ysgol – 49 o staff

PAFILIWN PENYGROES

Leila Jones

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

PLANT A PHOBL IFANC

Clybiau Gofal

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydlynu a rheoli Clybiau Gofal cofrestredig sy'n cwrdd o 3:00 hyd 6:00 o'r gloch yr hwyr ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r clybiau yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac wedi derbyn adroddiadau anrhydeddus iawn.

Clybiau Joio a Hwyl

Mae cyfres o 10 o Glybiau Joio a Hwyl yn y Gymraeg yn cael eu darparu ar ôl ysgol ar draws ardaloedd Cwm Gwendraeth a Chylch Llanelli. Mae'r Clybiau hyn yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol ar ôl ysgol gan ehangu'r cyfloed i blant 4 - 11 oed gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl ysgol.

Theatr Iau ac Ieuenctid

Mae'r theatr yn cynnig gwasanaeth i blant 4-11 oed a 11-18 oed, gan gwrdd yn wythnosol ystod y tymor ysgol.
Mae'r tîm o gyfarwyddwyr profiadol yn cynnig profiadau niferus ym maes theatr a pherfformio. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflwyno ffrwyth llafur y gweithdai wythnosol mewn perfformiadau theatrig. Cafwyd perfformiadau hwyliog iawn a bu hyn yn gyfle pellach i godi proffil gwaith y cwmni a thalent y bobl ifanc.

Ymwybyddiaeth Iaith

Gan fod natur ein gwaith wedi gorfod newid dros y flwyddyn hon, mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith rithiol yn cael eu cynnig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cwm Gwendraeth a Llanelli, a hefyd i Gampws Y Graig Coleg Sir Gâr. Nod y sesiynau hyn yw i godi ymwybyddiaeth am hanes yr iaith, digwyddiadau pwysig sydd wedi effeithio ar y Gymraeg a sut mae'r iaith wedi ysbrydoli unigolion yn eu gyrfa e.e., Nigel Owens ac Alex Jones. Y neges holl bwysig yw bod angen i bobl ddefnyddio'r iaith, pa bynnag fath o Gymraeg maent yn ei siarad.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ownzone

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn rheoli cynllun Ownzone yn Ysgol Dyffryn Aman. Nod Ownzone yw cynnig cyfle i ddisgyblion dreulio amser tu allan i'r ysgol mewn man diogel, lle mae modd iddyn nhw gael cefnogaeth bersonol a nifer o weithgareddau cyffrous. Un o brif amcanion y prosiect yw codi hunan hyder y disgyblion a chynyddu eu cyfranogiad. Rôl bwysig sydd gan Ownzone yw creu partneriaethau effeithiol sydd yn medru helpu plant a phobl ifanc rhwng deg a phedair ar ddeg mlwydd oed. Ynghyd â chydweithio'n agos iawn gyda'r Ysgol, rydym wedi bod yn creu partneriaethau allanol i'r prosiect.

Mae Ownzone yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfrannu at gynllunio gweithgareddau, a'u trefnu, a chael perchnogaeth dros yr hyn sy'n digwydd. Bydd y bobl ifanc yn cael y canlynol:

- Man diogel i fynd iddo ar ôl ysgol, lle gallant gael hwyl
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a datblygu sgiliau newydd
- Ymfalchïo mewn amrywiaeth newydd o gyraeddiadau personol
- Cyfle i ddatblygu sgiliau allweddol a sgiliau meddwl trwy gael dweud eu dweud ar yr hyn sy'n digwydd
- Datblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch
- Teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol, a chael eu symbylu i ddysgu

Cwis Dim Clem

Mae Cwis Dim Clem yn brosiect i blant blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r cwis yn cynnwys sawl gwahanol rownd sy'n codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg. Mae sawl rownd wahanol sy'n arwain at rownd derfynol. Yn dilyn llwyddiant y Cwis, mae bellach yn brosiect rhanbarthol ac yna wedi tyfu i fod yn genedlaethol.

Prosiect Hanes

Mae'r prosiect yn gyfres o 7 stori am unigolion o Gwm Gwendraeth a Llanelli er mwyn dysgu hanes lleol yn ei gyd-destun cenedlaethol gan roi'r cyfle i'r disgyblion ymfalchïo yn eu cymunedau a darparu ymdeimlad o hunaniaeth.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

YR AMGYLCHEDD

Adfer Energy Redress

Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yng nghymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresogi cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawer gyda'r cynnydd mewn cost ynni presennol. Mae'r swyddog Adfer Energy Redress yn gweithio'n rhad ac am ddim gydag unigolion er mwyn arbed costau ynni yn y cartref a lleihau dyledion ynni. Bydd y swyddog yn ymgyrchu ar draws Sir Gar gyda sioeau penffordd a chymorthfeydd ynni un i un â ffocws penodol. Mae tlodi tanwydd ar ei uchaf mewn ardaloedd gwledig sydd heb fynediad i'r grid Nwy. Mae Adfer Energy Redress yn croesawu cyfle i gydweithio gyda sefydliadau tai a grwpiau cymorth leol, a hynny yn rhad ac am ddim.

ADDYSG GYDOL OES

Dysgwyr. Dysgu'r Gymraeg yn y Gymuned

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru "Miliwn o Siaradwyr" yn ddibynnol ar greu siaradwyr newydd a'u hannog i ddefnyddio'r iaith ar lawr gwlad er lles pawb. Mae gweithio gyda dysgwyr yn allweddol ar gyfer parhad yr iaith ac fel Menter Iaith, rydym wedi blaenoriaethu ymdrechion i helpu'r dysgwyr hyn i 'bontio', hynny yw i fynd o fod yn ddysgwyr pur i fod yn siaradwyr naturiol. I wneud hyn, rydym wedi sefydlu sesiynau amrywiol i gynorthwyo dysgwyr i ddeall ac i ddod i siarad Cymraeg sy'n debyg iawn i'r iaith a ddefnyddir gan bobl leol.

Rhedir sesiynau Paned a Sgwrs (Pontyberem a Cydweli), Clwb Clonc (Penygroes) a Cwrw a Chlonc (Llanelli) ar gyfer pobl sydd yn newydd i'r ardal ac i'r Gymraeg, ac sydd eisiau dysgu siarad rhywfaint o'r Gymraeg er mwyn deall fwy o'r hyn sydd yn mynd ymlaen o'u cwmpas.

Mae'r sesiynau hyn yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfle i gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg a ddefnyddir yn lleol. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae dysgwyr yn mynd ymlaen i fynychu nifer fawr o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol a rhedir gan y Fenter, ond hefyd gan grwpiau cymunedol eraill.

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydweithio'n agos gyda dysgwyr ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau trafod a chydweithio gyda'r dysgwyr.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Pryd ar Glud

Mae gwasanaeth Pryd ar Glud yn cael ei gynnig i drigolion Cwm Gwendraeth dwywaith yr wythnos. Mae'r trigolion hyn yn cael pryd twym, dau gwrs wedi ei ddarparu yn y cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn holl bwysig i'r bobl sydd yn gaeth i'w cartrefi. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth i ddosbarthu'r pecynnau bwyd. Hefyd, mae'r unigolion hyn yn gwerthfawrogi gweld gwyneb adnabyddus yn wythnosol.

Clwb Darllen

Crëwyd Clwb Darllen Covid i oedolion dros gyfnod clo, ac mae wedi bod yn brosiect llwyddiannus. Mae 10 unigolyn yn rhan o'r grŵp ac yn cael trafodaethau diddorol am lyfrau cyfredol. Mae'r unigolion yn cwrdd yn wythnosol yn darllen nofelau, straeon byrion, hunangofiant ac yn cael trafodaethau yn sgil y themâu sy'n codi. Mae hyn yn ffordd wych o gymdeithasu a chael tipyn o hwyl. Nod y grŵp yw cwrdd wyneb yn wyneb yn rheolaidd pan fydd canllawiau yn caniatáu.

MENTRAU CYMDEITHASOL

Plant y Cwm - Yn gwella bywyd plant Cymru
Mae Plant y Cwm yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel cwmni ymroddedig, sy'n hyrwyddo a chefnogi gofal a chymorth i deuluoedd, plant ac oedolion ifanc ar draws Sir Gaerfyrddin. Genir dyfeisgarwch mewn chwarae creadigol. Mae gan blant ffordd arbennig o ddod a llawenydd i bob dydd. Wrth edrych i mewn i'w llygaid gwelwn y gallant wneud beth bynnag maen nhw'n ei ddychmygu. Gallwn ninnau ond eu helpu i ddychmygu a'u hysbrydoli i wireddu.

Pwy ydym ni?
Rydym yn gwmni preifat sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion ifanc yng nghymunedau Cwm Gwendraeth, ardal Llanelli a thu hwnt.

Beth i ni'n gwneud?
Mae Plant y Cwm yn ddarparwr blaengar a dibynadwy sy'n cyflawni gofal a chefnogaeth i fywydau plant ac oedolion ifanc.

Dysgu'n ddi-dor
Mae plant yn dysgu mewn nifer fawr a ffyrdd boed ai'n ffurfiol neu beidio. Mae 'r clybiau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd mewn amgylchedd creadigol a diogel sy'n ychwanegu at ei haddysg trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Canolfan Cymunedol Y Cwtsh

Canolfan Adnoddau yw'r Cwtsh ar gyfer Cwm Gwendraeth ac mae'n cyfuno siop lyfrau a chaffi. Yn ogystal, mae'r Cwtsh yn ofod cymunedol gwerthfawr, sy'n cael ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, yn enwedig trigolion lleol sy'n defnyddio'r cyfleuster fel lle diogel a chroesawgar i gwrdd â ffrindiau a hefyd i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Cwtsh yn darparu prydau poeth, ac mae brecwast wedi eu coginio bob dydd ac yn awr mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos.

DATBLYGU CYMUNEDOL

Bywyd Cyflawn, Bywyd Hapus

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydnabod bod y perygl o unigedd ac ynysu cymdeithasol yn fwy o ofid nawr nag erioed. Mae pobl yn fwy symudol nawr nag erioed gyda nifer fawr o'n cymunedau wedi gweld dirywiad mewn cyfranogaeth ar lawr gwlad ac mae'r cyfleusterau, sydd ar gynnig yn lleihau diolch i doriadau ariannol a newidiadau mewn patrymau bywyd. Felly, mae'r Fenter yn trefnu calendr o weithgareddau rheolaidd a digwyddiadau achlysurol gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd, i wneud cysylltiadau, i ddysgu rhywbeth newydd ac i fwynhau. A hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys sesiynau gemau traddodiadol, gweithdai coginio, cwis a chiniawau, grŵp drama, ioga, a theithiau i weld rhai o'r mannau diddorol a braf sydd ar drothwy ein drysau.

Cryfhau Cymunedau

Ers cenhedlaeth bellach, bu Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu gydag unigolion a grwpiau cymunedol o bob math er mwyn deall sut y mae ein cymunedau yn esblygu, ac anghenion eu trigolion yn newid.

Nid yw pwyllgora at ddant pawb, ond yn sicr, mae yna nifer fawr o ffyrdd y gall pobl leol roi o'u hamser er mwyn gwneud gwahaniaeth go-iawn i fywydau pobl Cwm Gwendraeth a Llanelli a'r cylch. Yn ystod y flwyddyn, bum yn cynnal gweithgarwch ar lein yn unol â chanllawiau cofid. Bum yn cydlynu gweithgarwch yn nhafarn rhithiol, tafarn y clo ar facebook. Cynhaliwyd gig gomedi gan Noel James, Theatr Cymru i blant oed Cynradd, clybiau darllen, sesiynau iechyd a lles, creu cerddi dan arweiniad yr Egin a groto Siôn Corn, i gyd ar blatfformau digidol.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o bartneriaethau ac mae'n cydweithio gyda nifer o grwpiau, mudiadau a sefydliadau gan gynnwys:

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Mudiad Meithrin
Urdd
Papurau Bro
Ysgolion Cynradd
Prifysgol y Drindod Dewi Sant
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Cynghorau Tref a Chymuned
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Age Concern Cymru
CAVS
CgGC
Cymraeg i Blant
Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith Cymru
Busnesau Lleol
Ysgolion Uwchradd
Merched y Wawr
Y Loteri Genedlaethol
Clybiau Gwawr
Canolfan Cymraeg i Oedolion
Mentrau Iaith
Cyfoeth Naturiol Cymru
Redress
Adfywio Cymru

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion Deddf Cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl cyfraith cwmnïau mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen a gwarged neu ddiffyg yr elusen yn ystod y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol: -

1) Dewis polisïau cyfrif addas a'u gweithredu'n gyson;

2) Dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Cymeradwy: Cyfrifo a Chofnodi gan Elusennau;

3) Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifol a darbodus;

4) Datgan a ydy'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion cymeradwy wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw eithriadau sydd wedi eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;

5) Paratoi datganiadau ariannol ar sail y dybiaeth bod yr elusen yn hyfyw oni fernir mai priodol fyddai credu bod yr elusen ar fin dod i ben.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a Deddf Gwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

ASESIAD RISG

Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr Elusennau y dylai pob elusen baratoi asesiad risg fel mater o arfer da, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ac adolygu'r peryglon y gallai'r cwmni eu hwynebu. Roedd yr adolygiad nid yn unig yn cynnwys risgiau sydd yn gysylltiedig â hwyluso prosiectau neu faterion iechyd a diogelwch ond hefyd risgiau ariannol mewn perthynas â dirwyn y cwmni i ben, diswyddiadau, salwch hirdymor neu geisiadau am iawndal gan staff.

Cytunwyd i neilltuo arian o gyllideb gyfredol y cwmni er mwyn ymateb i achosion risg. Yn sgil hynny, mae cyfanswm o £33,177 wedi ei drosglwyddo i gronfeydd penodol.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Wrth baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr, manteisiwyd ar yr eithriadau arbennig yn unol â rhan 15 o Ddeddf Gwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychan.

TRWY ORCHYMYN Y BWRDD

11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

DocuSigned by:
435AD8A5C7BE424...

.....
Dr Ian Wyn Rees

YMDDIRIEDOLWR

12-12-2023
.....
DYDDIAD

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

ffôn/tel 01267 237754
ffacs/fax 01267 238418
ebost/email post@llyrjames.co.uk
gwefan/website www.llyrjames.co.uk
trydar/twitter @LlyrJamesCyf

25 Bridge Street
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3JS

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)

ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR AROLYGWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR

Dyma adroddiad yr arolygwr annibynnol i'r aelodau ar gyfrifon anarchwiliedig Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf.

Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy arolwg annibynnol o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr arolwg annibynnol trwy fod yn aelod cymwysedig o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r arolwg annibynnol y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

DocuSigned by:
Bethan Vaughan
8A7F03B26B1E49F...

BETHAN VAUGHAN
CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG

14-12-2023
DYDDIEDIG.....

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

	Cronfeydd heb gyfyngiadau £	Cronfeydd Penodol £	Cronfeydd a chyfyngiadau £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
INCWM A GWARIANT ADNODDAU I MEWN					
Rheoli Prosiectau	11,000	-	277,113	288,113	159,598
Cymhorthdal - Eraill	139,927	-	-	139,927	134,217
Gweithgareddau	65,704	-	-	65,704	19,476
Grantiau Covid	-	-	-	-	49,190
Adnoddau i mewn - cyfanswm	216,631	-	277,113	493,744	362,481
ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD					
Dibrisiant	1,564	-	-	1,564	2,115
	1,564	-	-	1,564	2,115
Costau Eraill					
Costau Proffesiynol	13,757	-	-	13,757	12,339
Costau Gweithgareddau (4a)	44,390	-	-	44,390	11,297
Costau Cynnal (4b)	132,824	-	184,107	316,931	333,601
	190,971	-	184,107	375,078	357,237
Adnoddau a ddefnyddiwyd – cyfanswm	192,535	-	184,107	376,642	359,352
Adnoddau net a ddefnyddiwyd	24,096	-	93,006	117,102	3,129
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-	-
Elw gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	1,293,000	-	-	1,293,000	142,000
Symudiad net mewn cronfeydd	1,317,096	-	93,006	1,410,102	145,129
CRONFEYDD - DYGWYD YMLAEN	(1,310,244)	33,177	42,652	(1,234,415)	(1,379,544)
CRONFEYDD - CARIWYD YMLAEN	6,852	33,177	135,658	175,687	(1,234,415)

Dangosir y symudiadau ar yr arian wrth gefn yn nodiadau 9, 10 ac 11 i'r datganiadau ariannol.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG (RHIF Y CWMNI: 2815717)
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

	NODYN	2023		2022	
		£	£	£	£
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Sylweddol	2 a 5		54,721		54,838
ASEDION CYFREDOL					
Dyledwyr	6	51,502		57,039	
Arian yn y banc ac mewn llaw		251,963		122,041	
		303,465		179,080	
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	32,006		23,858	
ASEDION CYFREDOL NET			271,459		155,222
CYFANSWM ASEDION LLAI (RHWYMEDIGAETHAU)CYFREDOL			326,180		210,060
Darpariaeth am ymrwymiadau	8		(3,493)		(4,475)
Cynllun Pensiwn			(147,000)		(1,440,000)
ASEDION NET			£ 175,687		£(1,234,415)
CYFALAF AC ARIAN WRTH GEFN					
Cronfeydd – heb gyfyngiadau	9		6,852		(1,310,244)
Cronfeydd – penodol	10		33,177		33,177
Cronfeydd – a chyfyngiadau	11		135,658		42,652
CYFANSWM CRONFEYDD			£ 175,687		£ (1,234,415)

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw roedd gan y cwmni'r hawl i gael ei eithrio o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud a chwmnïau bach. Nid yw unrhyw aelodau wedi mynnu i'r cwmni gael archwiliad ariannol o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio a gofynion y Ddeddf mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg ac am baratoi cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 30 gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

Signed by:
Kathryn Devonald-Davies
EB87E675132649A...

..... YMDDIRIEDOLWR

Mrs Kathryn Devonald-Davies

14-12-2023
..... DYDDIAD

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig yn elusen gofrestredig ac yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 11-15 Coalbrook Road, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling (£).

2. POLISÏAU CYFRIFO

Sail y Cyfrif

Mae'r cwmni'n paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail cyfrifo cost hanesyddol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau o Adran 1A "Cwmnïau Bychain" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006.

Paratoi cyfrifon ar sail hyfywedd

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen, ar sail yma, yn fusnes gweithredol a hyfyw.

Costau Pensiwn

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Ar ôl mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2015, dangosir y diffyg hwn yn llawn ar y Fantolen.

Trosiant

Mae'r trosiant yn cynrychioli gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Asedion Sefydlog A Dibrisiant

Nodir gwerth asedion sefydlog ar y fantolen yn ôl eu cost lai dibrisiant. Diddymir cost asedion sefydlog fesul rhandaliad blynyddol cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig fel a ganlyn: -

Celfi ac Offer - 15%

Ystyrir asedion a brynir trwy gytundeb les fel asedion cyfalaf ac fe'u dibrisir yn ôl y cyfraddau uchod.

Grantiau

Mae grantiau yn cael eu credydu i incwm yn unol â'r cyfnodau y maent yn perthyn iddynt.

Asesiad Risg

Mae'r cwmni wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r cwmni elusennol yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Offerynnau Ariannol

Mae'r offerynnau ariannol nad ydynt ynghlwm wrth symudiadau'r farchnad yn cynnwys dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.

Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae gwerthoedd asedion ac ymrwymiadau ariannol y cwmni yn amcangyfrifon teg.

Defnyddio Elw

Defnyddir elw'r cwmni i greu cronfa gyffredinol wrth gefn er sicrhau parhad a datblygiad y cwmni ar sail y cyfrannau ac yn ôl y dulliau a argymhellir gan y Pwyllgor Rheoli a'u cymeradwyo gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gwarant

Mae atebolrwydd pob aelod yn gyfyngedig i uchafswm o £1. Diddymir yr atebolrwydd hwn flwyddyn ar ôl i'r aelodaeth ddarfod.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y polisi arian wrth gefn i sicrhau bod gan y cwmni elusennol gyllid digonol i ddelio a'r elfen o risg sydd ynghlwm a rhedeg cwmni sydd yn ddibynnol ar dderbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. (Gweler nodyn 11)

3. CYFARWYDDWYR A STAFF

Ar gyfartaledd rhif y staff yn fisol yn ystod y flwyddyn oedd: 25 (2022 – 25).

Roedd costau cronnus cyflogau'r personau hyn fel a ganlyn:-

	2023 £	2022 £
Cyflogau a chostau teithio	149,576	200,223
Costau Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau	44,053	62,581
	193,629	262,804

Ni dalwyd cyflog i unrhyw un o'r ymddiriedolwyr.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

4. DADANSODDIAD O GOSTAU

		Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
		£	£	£	£	£
4a	COSTAU GWEITHGAREDDAU					
(i)	Eraill	14,424	-	-	14,424	11,297
(ii)	Costau uniongyrchol	29,966	-	-	29,966	-
		44,390	-	-	44,390	11,297
4b	COSTAU CYNNAL					
(ii)	Costau Swyddfa	12,777	-	-	12,777	16,702
(iii)	Costau Cyflogau a chostau teithio	60,558	-	133,071	193,629	262,804
(iv)	Prosiectau	59,489	-	51,036	110,525	54,095
(v)	Rhoddion	-	-	-	-	-
		132,824	-	184,107	316,931	333,601

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

5. ASEDION SEFYDLOG SYLWEDDOL

	Cerbydau	Adeilad	Adeilad ar Les £	Celfi ac Offer £	Cyfanswm £
COST					
Ar 1.4.22	-	46,815	17,000	176,483	240,298
Ychwanegiadau	1,000	-	-	1,429	2,429
Ar 31.3.23	1,000	46,815	17,000	177,912	242,727
DIBRISIANT					
Ar 1.4.22	-	16,011	-	169,449	185,460
Tal am y cyfnod	-	-	-	2,546	2,546
Ar 31.3.23	-	16,011	-	171,995	188,006
GWERTH LLYFR NET					
Ar 31.3.23	£1,000	£30,804	£17,000	£5,917	£54,721
Ar 31.3.22	-	£30,804	£17,000	£ 7,034	£54,838

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

6. DYLEDWYR

	2023 £	2022 £
Dyledwyr Masnachol	38,901	41,230
Menter Min Nos Cyf (6i)	158	219
Menter Plant Y Cwm Cyf (6i)	11,982	12,397
Caffi Cynnes Cyf (6i)	461	-
Blaendaliadau	-	924
Dyledwyr eraill	-	2,269
	£ 51,502	£ 57,039

Nodyn (i)
Ar 31 Mawrth 2023 roedd asedion y cwmnïoedd fel a ganlyn:-

	2023 £
Cwtsh Glöyn Cyf	£ 1,588
Menter Plant y Cwm Cyf	£ 63,686
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£ 10,822
Menter Min Nos Cyf	£ 331
Caffi Cynnes Cyf	£ 13,228

Er nad yw'r rhain yn is-gwmnïau, fe'u sefydlwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf mwyn iddynt weinyddu gweithgareddau penodol. Maent i gyd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf sydd hefyd yn gwarantu eu holl ymrwymiadau ariannol.

7. CREDYDWYR

	2023 £	2022 £
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn: -		
Credydwyr Masnachol	9,630	2,309
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf (6i)	10,832	2,770
WCVA	11,544	14,839
Caffi Cynnes Cyf (6i)	-	3,940
	£ 32,006	£ 23,858

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

8. DARPARIAETH AM YMRWYMIADAU

	2023 £	2022 £
a) YSTAFELL GYFRIFIADURON / Y CWTSH		
Balans ar 1 Ebrill 2022	-	667
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	-	(667)
Balans ar 31 Mawrth 2023	-	-
b) LOTERI ABC, 123		
Balans ar 1 Ebrill 2022	306	755
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	(306)	(449)
Balans ar 31 Mawrth 2023	-	306
c) REDRESS		
Balans ar 1 Ebrill 2022	4,169	4,190
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	(676)	(21)
Balans ar 31 Mawrth 2023	3,493	4,169
CYFANSWM	£3,493	£ 4,475

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

9. CRONFEYDD - HEB GYFYNGIADAU

	2023 £	2022 £
Balans a ddygwyd ymlaen	(1,310,244)	(1,475,729)
Gwarged am y cyfnod	1,317,096	165,485
	£ 6,852	£(1,310,244)

10. CRONFEYDD PENODOL

	Balans 1.4.22	Trosglwyddiadau i Gronfeydd Eraill	Trosglwyddiadau i mewn	Balans 31.3.23
	£	£	£	£
Costau Swyddfa (i)	33,177	-	-	33,177
	33,177	-	-	33,177

Yn dilyn asesiad o risg, mae'r Fenter wedi sefydlu cronfa benodol: -

i) Darpariaeth am gostau ychwanegol a fyddai'n deillio o adleoli swyddfeydd

	£
- Costau Cynnal y Swyddfa	23,177
- Costau Cyfreithiol	5,000
- Adleoli Swyddfeydd	5,000
	£33,177

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

11. CRONFEYDD - A CHYFYNGIADAU

	Balans 1.4.22	Symudiad mewn Cronfeydd: Adnoddau i mewn	Gwariant	Balans 31.3.23
	£	£	£	£
CAVS (i)	-	2,000	2,000	-
Iechyd a Lles (ii)	-	15,196	15,196	-
Prosiect Llwynhendy (iii)	42,652	139,537	46,531	135,658
Redress (iv)	-	20,732	20,732	-
LHB (v)	-	15,000	15,000	-
WCVA (vi)	-	7,000	7,000	-
Cyngor Sir(vii)	-	12,500	12,500	-
Enfys (viii)	-	4,198	4,198	-
Moondance (ix)	-	28,500	28,500	-
Mynydd y Betws (x)	-	6,032	6,032	-
TFF (xi)	-	12,277	12,277	-
Grant Llywodraeth (xii)	-	4,516	4,516	-
Flying start (xiii)	-	9,625	9,625	-
	42,652	277,113	184,107	135,658

Cronfeydd a Chyfyngiadau

(i) **CAVS** – Roedd **Cronfa Cefnogi Covid-19** Sir Gaerfyrddin yn cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin i wneud y canlynol :-

- cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai agored i niwed yn ystod argyfwng Coronafeirws (COVID-19)
- sicrhau bod gan sefydliadau/grwpiau cymunedol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau
- annog protocolau iechyd a diogelwch cadarn yn ystod pob gweithgaredd sy'n diogelu staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr a buddiolwyr y sector gwirfoddol

Bu'r Fenter yn ffodus i dderbyn £1,000 i brynu stoc o PPE er mwyn diogelu staff

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

(ii) **Iechyd a Lles** - Cytundeb Lefel Gwasanaeth i ddatblygu prosiectau iechyd a lles i bobl 50+ o fewn dalgylch Cwm Gwendraeth.

(iii) **Prosiect Llwynhendy** -. Nod Cyllid Invest Local yw i ddarparu buddsoddiad ar gyfer y prosiect ac adnabyddwyd yng Nghynllun Gyrru Newid Llwynhendy, sy'n gyfredol ar yr adeg pan gyflwynir y cynnig cyllido.

Mae Menter yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn union yn unol â'r termau ac amodau ar nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r prosiect a gymeradwywyd gan Bwyllgor Llywio'r Llwynhendy Invest Local (y Pwyllgor Llywio) fel y crybwyllwyd yn y Llythyr Cynnig cyllid.

(iv) **Redress** - Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yng nghymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresog cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawr gyda'r cynnydd cost ynni presennol.

(v) **LHB** – Prosiect Ysgolion - Darparu gwasanaeth cyn ysgol ar gyfer sefydliadau ar draws Sir Caerfyrddin.

(vi) **WCVA**- Cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai sydd yn agored i niwed yn ystod pandemig Coronafeirws (Covid-19).

- Sicrhau bod gan fudiadau gwirfoddol/y trydydd sector yr adnoddau angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau.
- Annog protocolau iechyd a diogelwch llym yn ystod pob gweithgaredd sy'n amddiffyn staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr y trydydd sector/y sector wirfoddol.

(vii) **Cyngor Sir Gaerfyrddin** -.Grant i gefnogi mannau twym ac i gefnogi unigolion bregus mewn cyfnod anodd o grisis costau byw

(viii) **Enfys** - Bwriad y prosiect oedd creu system ymyrraeth gymunedol unigryw yn seiliedig ar y rhyngrwyd, wedi'i ddylunio'n benodol i helpu mentora a datblygu sgiliau. Mae'r cynllun wedi ei gynllunio ar gyfer pobl ifanc 14 – 34 mlwydd oed ac ar gael i'w ddefnyddio er mwyn cynghori, cefnogi ac annog defnyddwyr i ragweld dyfodol mwy addawol.
Y bwriad cychwynnol oedd creu storfa ar gyfer cofnodi profiad amlgyfrwng sy'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i ganiatáu mynediad i ystod o systemau rhwydweithiol a'u rheoli'n effeithiol. Bydd y system yn hwyluso'r broses o gadw cofnod a rheoli adnoddau, a bu hyn yn berthnasol i waith gwirfoddol hefyd. Yn ogystal, bydd modd nodi sgiliau sydd eu hangen i gefnogi unigolion a grwpiau. Bydd yn darparu dull unigryw o 'siapio' adnoddau Menter Cwm Gwendraeth Elli ar gyfer y gynulleidfa darged.

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

(ix) **Moondance** (18,500) - Cyllid oedd yn barhad o brosiect Adfer, Emergy Redress. Roedd y prosiect yn ffocysu ar fwy o alwadau mewn tai unigolion yn canolbwyntio ar reoli a monitro defnydd ynni a sicrhau bod unigolion yn rhoi darlleniadau cywir. Cynhaliwyd teithiau, stondinau ac ymgyrchoedd. Cefnogwyd banciau bwyd a chynhaliwyd cefnogaeth ddwyieithog i gleientiaid dros y ffôn (£10,000) – Cyllid yn benodol i gefnogi'r hybiau cymunedol ac i ehangu ar weithgarwch i bobl dros 50.

(x) **Mynydd y Betws** - Cyllid i gefnogi swyddog yn gweithredu yn ardal Gwendraeth Uchaf. Bu'n ddyletswydd ar yr unigolyn i ddatblygu amserlen gweithgareddau ym Mhafiliwn Penygroes.

(xi) **TFF** - prosiect oedd yn cefnogi costau swyddog tuag at ardal benodol, sef y Gwendraeth Isaf. Byddai'r swyddog yma yn gweithio ar amryw o brosiectau o Bontyberem i Borth Tywyn.

(xii) **Grant Llywodraeth** - Grant Hybu a Hyrwyddo Defnydd y Gymraeg. Diben y cyllid hwn oed ychwanegu at ein grant 22/23 a chyfrannu at gostau staffio.

(xiii) **Flying start** - nillwyd tendr i neud arolwg mewn 28 o leoliadau Dechrau'n Deg yn Sir Gar. Cynhaliwyd y gwaith yn ystod Chwefror a Mawrth a lansiwyd yr adroddiad diwedd y flwyddyn. Gosodwyd cynllun gweithredu i bob lleoliadau, ac awgrymiadau Sirol i fudiad Dechrau'n Deg,

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

12. DADANSODDIAD O ASEDION NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedion / Sylweddol	Asedion Net	Cyfanswm
	£	£	£
Grantiau	3,493	(3,493)	-
Cronfeydd Penodol	-	33,177	33,177
Cronfeydd heb gyfyngiadau	51,228	(44,376)	6,852
Cronfeydd a chyfyngiadau	-	135,658	135,658
	54,721	120,966	175,687

13. TRAFODION A CHWMNÏAU PERTHNASOL

Nid oes run o'r pum cwmni perthnasol wedi cyfrannu tuag at gostau Menter Cwm Gwendraeth Elli eleni,

Menter Min Nos Cyf	£0	(2022 - £0)
Cwtsh Glöyn Cyf	£11,000	(2022 - £2,000)
Caffi Cynnes Cyf	£0	(2022 - £0)
Menter Plant y Cwm Cyf	£0	(2022 - £20,000)
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£0	(2022 - £0)

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

14. CYNLLUN PENSIWN

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig
Dyddiad y Prisiad Actiwarïaid llawn ddiwethaf 31.03.2022

TYBIAETHAU ACTIWARÏAID

Tybiaethau Ariannol	**Dechrau'r Flwyddyn**	**Diwedd y Flwyddyn**
Graddfa chwyddiant	3.2%	2.7%
Graddfa cynnydd cyflogau	4.7%	4.2%
Graddfa cynnydd pensiynau	3.3%	2.8%
Cyfradd disgownt	2.8%	4.8%

Rhaniad yr asedau rhwng y categorïau buddsoddi

Soddgyfrannau	72.3%	74.4%
Bondiau'r Llywodraeth	1.3%	0.5%
Bondiau eraill	7.9%	7.1%
Eiddo	13.1%	13.5%
Arian parod	1.7%	0.7%
Arall	3.7%	3.8%

Mae'r ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a'r rhaniad asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer ddechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2022.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2023

	£,000
Gwerth yr Asedau ar y farchnad	2,272
Dyledion	(2,419)
(Diffyg)	(147)
Symudiadau'r Gweddill yn ystod 2022/23	
Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	(1,440)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(41)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	31
Cost y Gwasanaeth Gynt	-
Llog Net / Budd ar Asedau	(40)
Gwarged Actiwarïaid	1,343
(Diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn	(147)

DocuSign Envelope ID: 28E2702C-2F77-49AE-8B6A-B2CD6996C10E

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Datgeliadau Ychwanegol

	Asedau ar 31.03.23		Asedau ar 31.03.22	
	£ 000	%	£ 000	%
Soddgyfrannau	1,691	74.4	1,678	72.3
Bondiau'r Llywodraeth	11	0.5	30	1.3
Bondiau eraill	161	7.1	183	7.9
Eiddo	307	13.5	304	13.1
Arian	16	0.7	39	1.7
Arall	86	3.8	86	3.7
Cyfanswm	2,272		2,320	
Dyledion ar 31.03.2023	2,419			

Caiff y Cynllun Pensiwn ei drin fel cynllun a'r cyfraniadau wedi'u diffinio gan fod cytundeb rhwng Menter Cwm Gwendraeth a'r Cynllun Pensiwn Aml-gyflogwr ynglŷn â'r modd yr ariennir unrhyw ddiffyg.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

England & Wales - Charity number 1021901

Accounts

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR A DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022

RHIF Y CWMNI: 2815717

ELUSEN GOFRESTREDIG: RHIF 1021901

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022

CYNNWYS **TUDALEN**

Rhestr o Wybodaeth	1
Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr	2
Adroddiad Arolygwr Annibynnol	16
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	17
Mantolen	18
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	19

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

RHESTR O WYBODAETH

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Swyddfa Menter Cwm Gwendraeth Elli
11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

BANCWYR

Banc HSBC ccc
4A Stryd Vaughan
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3TY

Banc Lloyds TSB ccc
Stryd Stepney
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3YD

CYFREITHWYR

Darwin Gray
9, Cathedral Rd
Pontcanna
Caerdydd
CF11 9HA

CYFRIFWYR AC AROLYGWR ANNIBYNNOL

Llŷr James Cyf
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

CYFARWYDDWYR Y CWMNI / WASANAETHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Mr Gwyn Elfyn Jones – (ymddiswyddodd 21.04.21)
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Mrs Jeni Olwen Price
Dr Ian Wyn Rees
Ms Anwen Mair Evans – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mrs Alana Enoch – (apwyntiwyd 21.04.21)
Catrin Mair Rees – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mr Liam Morgan-Bowen
Mr Hugh Richards
Miss Elen Davies
Mrs Medwen Hewitt
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Gethin Thomas
Mr Dyfrig Thomas
Mrs Joy Williams
Mrs Linda Williams
Mr John Evan Jones
Miss Marged Lowri Walters Thomas

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni i bwrpas rheolau cyfreithiol cwmnïau) yn cyflwyno'r adroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

ENW SWYDDOGOL

Enw swyddogol yr elusen yw Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig.

CYFANSODDIAD

Mae'r elusen wedi ei sefydlu fel Cwmni Cyfyngedig, rhif 2815717, ac fel elusen gofrestredig, rhif 1021901. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol ag elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfrannau.

PRIF WEITHGARWCH

Disgrifir prif weithgarwch y cwmni dan restr o amcanion y Fenter.

AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI

1. Cefnogi unrhyw weithgaredd Cymunedol Cymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

2. Hyrwyddo prosiectau er lles adfywio cymunedol, lle mae bylchau'n bodoli.

3. Cydweithio â Mudiadau sydd eisoes yn weithgar yn gymunedol, er mwyn osgoi gwrthdaro, ac er mwyn dyblygu adnoddau.

4. Hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes a masnach drwy: -

    a) Greu cysylltiadau rhwng cymdeithasau gwirfoddol a'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn hybu gweithgareddau Cymraeg cymunedol.

    b) Hybu'r defnydd o'r iaith yng ngweinyddiaeth a chyhoeddusrwydd y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

5. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd neu gynadleddau cyhoeddus drwy ddefnyddio offer cyfieithu.

6. Sefydlu prosiectau ymchwil cymunedol fydd yn sbardun i drafodaethau ac yn sail i gynllunio cymunedol.

7. Ystyried anghenion trigolion yr ardal ac adeiladu pontydd er lles adfywio cymunedol.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

8. Sicrhau rhwydwaith o bwyllgorau lleol, a phaneli a gweithgorau fydd yn bwydo syniadau, yn creu bwrlwm ac yn llywio strategaeth.

9. Cyfrannu i'r wasg yn gyson ar bwyntiau yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol, gwaith y Fenter, a natur y cymunedau diwydiannol hyn sydd yn dibynnu ar waith a bywoliaeth er mwyn cadw'r Cymry ifanc yn agos at eu gwreiddiau.

10. Cadw'r weledigaeth yn glir bod rhaid creu delwedd newydd sbon i'r Gymraeg yn gymunedol a fydd yn adlewyrchu natur ein cymdeithas a thueddiadau byd eang yn y byd cyfoes - iaith ffasiynol, fodern a bywiog sy'n berthnasol i'n cyfnod ni heddiw.

FFYNONELLAU A DEFNYDD ARIAN

Mae'r Fenter yn cael ei chyllido yn bennaf, gan gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraeth Cymru, Energy Redress, RDP, Bwrdd Iechyd, er mwyn ariannu prosiectau penodol ym maes datblygu cymunedol.

Gweithredwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth a nifer o asiantaethau er mwyn datblygu partneriaethau.

Am y flwyddyn roedd gwarged o £3,129 cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

AROLWG O DDATBLYGIADAU A'R ARGOELION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r canlyniadau am y cyfnod yn dangos gostyngiad yn y cronfeydd cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

Bu 2021-2022 yn flwyddyn o brosiectau a gweithgarwch di-ri o safbwynt y Gymraeg ar draws ardal Cwm Gwendraeth, Llanelli a'r cyffiniau ac yn flwyddyn o ail sefydlu gweithgareddau a pherthnasau yn dilyn Covid-19.

Mae'r ymddiriedolwyr yn deall pwysigrwydd llif arian i'r Fenter ar adeg pan mae'r disgwyliadau yn uchel ond mae'r adnoddau yn cael eu cwtogi.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried pwysigrwydd cyfraniad y cwmnïau llai i ddyfodol y Fenter ac wedi ystyried sefyllfa ariannol a rhagolygon incwm y cwmnïoedd yma hefyd.

Mae'r pwyllgor wedi asesu ymrwymiadau ariannol y Fenter am y Flwyddyn nesaf ac yn obeithiol o dderbyn arian digonol i'w galluogi i barhau a'r gweithgareddau

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Bu'r flwyddyn 21-22 yn gyfnod heriol, ond bu rhaid mynd i'r afael â'r problemau oedd yn ein hwynebu e.e. staffio, cyllid, effeithiau Covid ayyb.

Gwelwyd colled sawl aelod o staff oherwydd afiechydon, ac yn anffodus bu rhaid i ni fel cwmni wynebu proses diswyddo gwirfoddol. Yn amlwg, bu hwn yn gyfnod diflas i'r Fenter ac i'r Bwrdd Rheoli.

Cafwyd sawl cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol a diolch am eu cefnogaeth wrth ein harwain i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Yn dilyn y cyfnod anodd hwn, roedd yn bosib dechrau proses o ail-strwythuro ac adeiladu am y dyfodol oedd yn rhoi'r fenter ar sylfaen gadarn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
Dwi am wneud yn glir bod y cyfnod wedi bod yn anodd dros ben i aelodau'r Bwrdd Rheoli, i'r swyddogion ac i'r staff ac mae'n hanfodol bod y swyddogion yn gwneud eu gwaith yn drylwyr i graffu ar waith y Fenter ac i herio ble mae angen.

Dr I W Rees

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODAU AC AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI YW:

- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
- Adfer hyder a lles yr unigolyn a chymunedau Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.
- Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'n treftadaeth ddiwylliannol ymhlith trigolion Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG DROS DRO

Dyma gyfle i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Menter Cwm Gwendraeth Elli ar gyfer 2021-22. Bu'n flwyddyn llawn gweithgareddau ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli yn cynnig ystod eang o weithgareddau addas at bob oed ac at bobl gyda gwahanol ddiddordebau. Bu eleni yn wahanol i'r arfer gan fod Covid-19 wedi gorfodi i ni newid agweddau o'n gwaith a hefyd wedi newid gofynion sefydliadau a chymunedau. Bu eleni yn flwyddyn o fentro a treialu, er mwyn sefydlogi gweithgareddu a chymunedau yn dilyn y cyfnodau clo. Hefyd, bu'n flwyddyn o ail-gydio mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb ar ôl addasu ein ffordd o weithredu oherwydd y pandemig.
Mae'r Fenter yn ffodus o gael cyfeillion a ffrindiau da ynghyd â chriw o wirfoddolwyr a phartneriaid gweithredol. Diolch i Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gar a Mentrau Iaith Cymru ac i'n amrywiol bartneriaid ar draws y Sir am bob cefnogaeth.
Rhaid diolch i'r Bwrdd Rheoli o dan arweiniad y swyddogion am bob cefnogaeth. Mae fy niolch yn mynd i'r tîm o staff brwdfrydig sydd yn gweithio'n ddiwyd bob amser er llwyddiant y Fenter. Mae cyfraniad bob un ohonynt yn werthfawr ac yn gyfraniad sylweddol at weld datblygu'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli.
Gobeithio bod yr Adroddiad yn rhoi blas i chi ar waith y Fenter, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n ein hwynebu o ddydd i ddydd.

Alaw Davies

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

EIN CENHADAETH NI YW:

'Bod yn Gwmni creadigol, blaengar ac ymatebol, sy'n benderfynol o ddarparu'r gwasanaeth gorau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ac yn gwella potensial yr unigolyn a'r gymuned gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael'

Menter Cwm Gwendraeth Elli, 11-17 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.
Rhif ffôn 01269 871600
Ffacs 01269 870599
E-bost: alaw@mcge.co.uk
Gwefan: www.mcge.co.uk

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant Cofrestredig yng Nghymru: 2815717 Elusen Gofrestredig: 1021901

STAFF CRAIDD YN YSTOD Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022

Nerys Burton	Prif Weithredwr
Huw Evans	Rheolwr Iaith a Chymuned
Alan Lewis	Swyddog Datblygu Cymunedol
Julie Nicholas	Swyddog Cyllid
Ann Rees	Gweinyddydd
Paul Thomas	Swyddog Ynni
Alaw Davies	Is-reolwr / Prif Swyddog Dros Dro
Aled Evans	Swyddog Plant a Ieuenctid
Elen Davies	Swyddog Datblygu

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

LLYWYDD
Nigel Owens MBE

IS -LLYWYDD
Deris Williams MBE

PWYLLGOR RHEOLI

Mr Gwyn Elfyn Jones – (ymddiswyddodd 21.04.21)
Mrs Kathryn Devonald-Davies
Mrs Jeni Olwen Price
Dr Ian Wyn Rees
Ms Anwen Mair Evans – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mrs Alana Enoch – (apwyntiwyd 21.04.21)
Catrin Mair Rees – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mr Liam Morgan-Bowen
Mr Hugh Richards
Miss Elen Davies
Mrs Medwen Hewitt
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Gethin Thomas
Mr Dyfrig Thomas
Mrs Joy Williams
Mrs Linda Williams
Mr John Evan Jones
Miss Marged Lowri Walters Thomas

Y CWTSH

Elin Davies
Rhian Hudson
Louise Hardy
Anne Hinkin
Gemma Walters
Wendy Snook
Stephanie Johns
Louise John
Llinos Daniels

Clybiau ar ôl ysgol – 45 o staff

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

PLANT A PHOBL IFANC

Llesol

Yn wreiddiol, lluniwyd rhaglen Sgiliau Byw fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Sir Gar. Mae'r prosiect wedi ei addasu a'I ddiweddaru yn ystod y flwyddyn ac enwyd y prosiect yn Llesol. Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth i rieni a gwarchodwyr babanod a phlant gan ganolbwyntio ar gyfathrebu, iaith, llythrennedd a chwarae trwy fwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r prosiect yn ddilyniant naturiol i Iaith a Chwarae a Rhifedd a Chwarae gan ganolbwyntio ar y nodweddion craidd canlynol; -

- Bwyta'n iach a chadw'n heini
- Y Plât bwyd - 5 y dydd
- Coginio Iachus yn y cartref a thu allan i'r cartref
- Dyddiadur Bwyd a Labeli Bwyd
- Prydau Bwyd, Byrbrydau a Blasu Bwyd
- Gofalu am ein corff

Nod y rhaglen: -

- Gwella datblygiad iaith 0-3 oed
- Annog rhyngweithiad rhwng rhieni a phlant ifanc
- Annog rhieni i rannu llyfrau a storiâu gyda babanod a phlant ifanc
- Datblygu dealltwriaeth a hyder rheini
- Gosod sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes

Clybiau Gofal

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydlynu a rheoli Clybiau Gofal cofrestredig sy'n cwrdd o 3:00 hyd 6:00 o'r gloch yr hwyr ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r clybiau yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac wedi derbyn adroddiadau anrhydeddus iawn.

Clybiau Joio a Hwyl

Mae cyfres o 10 o Glybiau Joio a Hwyl yn y Gymraeg yn cael eu darparu ar ôl ysgol ar draws ardaloedd Cwm Gwendraeth a Chylch Llanelli. Mae'r Clybiau hyn yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol ar ôl ysgol gan ehangu'r cyfloed i blant 4 - 11 oed gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl ysgol.

Theatr Iau ac Ieuenctid

Mae'r theatr yn cynnig gwasanaeth i blant 4 - 11 oed a 11 - 18 oed, gan gwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ysgol. Mae'r tîm o gyfarwyddwyr profiadol yn cynnig profiadau niferus ym maes theatr a pherfformio. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflwyno ffrwyth llafur y gweithdai wythnosol mewn perfformiadau theatrig. Cafwyd perfformiadau hwyliog iawn a bu hyn yn gyfle pellach i godi proffil gwaith y cwmni a thalent y bobl ifanc.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ymwybyddiaeth Iaith

Gan fod natur ein gwaith wedi gorfod newid dros y flwyddyn hon, mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith rhithiol yn cael eu cynnig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cwm Gwendraeth a Llanelli, a hefyd i Gampws Y Graig Coleg Sir Gâr. Nod y sesiynau hyn yw i godi ymwybyddiaeth am hanes yr iaith, digwyddiadau pwysig sydd wedi effeithio ar y Gymraeg a sut mae'r iaith wedi ysbrydoli unigolion yn eu gyrfa e.e., Nigel Owens ac Alex Jones. Y neges holl bwysig yw bod angen i bobl ddefnyddio'r iaith, pa bynnag fath o Gymraeg maent yn ei siarad.

Capsiwl Cofid

Mae'r Capsiwl Covid wedi bod yn un o uchafbwyntiau MCGE yn ystod y cyfnod. Crëwyd Capsiwl Covid i blant oed cynradd yn gyntaf, gyda'r teledu ar radio yn dangos diddordeb yn y pecyn. Cyrhaeddodd y pecyn dros 40,000 o bobl ar gyfryngau cymdeithasol y Fenter. Roedd y pecyn yn benodol i rhoi cyfle i unigolion edrych yn ôl ar y cyfnod rhyfedd hwn. Yn dilyn llwyddiant y capsiwl, crëwyd un addas ar gyfer plant oed cyn-ysgol a'i rhieni ac i bobl ifanc / oedolion.

Digidol

Gan bod pawb wedi gorfod addasu ffordd o weithio oherwydd y sefyllfa bresennol, mae amserlen wythnosol yn cael ei chreu yn targedu pobl o bob oedran a phob gallu ieithyddol, plant a phobl ifanc, dysgwyr, mam a babi, ysgolion, dim ond i rhestri rhai. Rydym wedi achub mantais ar y cyfle i ddatblygu gwefan ar gyfer y Cwtsh gan ein bod wedi gorfod cau am gyfnod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r wefan yn parhau i ddatblygu. Mae Plant y Cwm hefyd wedi datblygu system bwcio ar-lein ar gyfer clybiau ar ôl ysgol y Fenter. Mae'n system ddiogel, sy'n caniatáu ni i fonitro ffigyrau yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

Clwb Darllen

Crëwyd Clwb Darllen Covid i oedolion dros cyfnod clo, ac mae wedi bod yn brosiect llwyddiannus. Mae 10 unigolyn yn rhan o'r grŵp ac yn cael trafodaethau diddorol am lyfrau cyfredol. Mae'r unigolion yn cwrdd yn wythnosol yn darllen nofelau, straeon byrion, hunangofiant ac yn cael trafodaethau yn sgil y themâu sy'n codi. Mae hyn yn ffordd wych o gymdeithasu a chael tipyn o hwyl. Nod y grŵp yw cwrdd wyneb yn wyneb yn rheolaidd pan fydd canllawiau yn caniatáu.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ownzone

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn rheoli cynllun Ownzone yn Ysgol Dyffryn Aman. Nod Ownzone yw cynnig cyfle i ddisgyblion dreulio amser tu allan i'r ysgol mewn man diogel, lle mae modd iddyn nhw gael cefnogaeth bersonol a nifer o weithgareddau cyffrous. Un o brif amcanion y prosiect yw codi hunan hyder y disgyblion a chynyddu eu cyfranogiad. Rôl bwysig sydd gan Ownzone yw creu partneriaethau effeithiol sydd yn medru helpu plant a phobl ifanc rhwng deg a phedair ar ddeg mlwydd oed. Ynghyd â chydweithio'n agos iawn gyda'r Ysgol, rydym wedi bod yn creu partneriaethau allanol i'r prosiect.

Mae Ownzone yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfrannu at gynllunio gweithgareddau, a'u trefnu, a chael perchnogaeth dros yr hyn sy'n digwydd. Bydd y bobl ifanc yn cael y canlynol:

- Man diogel i fynd iddo ar ôl ysgol, lle gallant gael hwyl
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a datblygu sgiliau newydd
- Ymfalchïo mewn amrywiaeth newydd o gyraeddiadau personol
- Cyfle i ddatblygu sgiliau allweddol a sgiliau meddwl trwy gael dweud eu dweud ar yr hyn sy'n digwydd
- Datblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch
- Teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol, a chael eu symbylu i ddysgu
- Ehangu gorwelion

YR AMGYLCHEDD

Adfer Energy Redress

Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yn cymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresogi cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawer gyda'r cynnydd mewn cost ynni presennol. Mae'r swyddog Adfer Energy Redress yn gweithio'n rhad ac am ddim gyda unigolion er mwyn arbed costau ynni yn y cartref a lleihau dyledion ynni. Bydd y swyddog yn ymgyrchu ar draws Sir Gar gyda sioeau penffordd a chymorthfeydd ynni un i un â ffocws penodol. Mae tlodi tanwydd ar ei uchaf mewn ardaloedd gwledig sydd heb fynediad i'r grid Nwy. Mae Adfer Energy Redress yn croesawu cyfle i gydweithio gyda sefydliadau tai a grwpiau cymorth leol, a hynny yn rhad ac am ddim.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

ADDYSG GYDOL OES

Dysgwyr. Dysgu'r Gymraeg yn y Gymuned

Dros y blynyddoedd mae nifer fawr o bobl wedi mentro i ddosbarthiadau Addysg Gymraeg i Oedolion ar hyd a lled Llanelli a Chwm Gwendraeth ac mae'r gymuned Gymraeg yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad.

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru "Miliwn o Siaradwyr" yn ddibynnol ar greu siaradwyr newydd a'u hannog i ddefnyddio'r iaith ar lawr gwlad er lles pawb. Mae gweithio gyda dysgwyr yn allweddol ar gyfer parhad yr iaith ac fel Menter Iaith, rydym wedi blaenoriaethu ymdrechion i helpu y dysgwyr hyn i 'bontio', hynny yw i fynd o fod yn ddysgwyr pur i fod yn siaradwyr naturiol. I wneud hyn, rydym wedi sefydlu sesiynau amrywiol i gynorthwyo dysgwyr i ddeall ac i ddod i siarad Cymraeg sy'n debyg iawn i'r iaith a ddefnyddir gan bobl leol.

Rhedir sesiynau Clwb Croeso ar gyfer pobl sydd yn newydd i'r ardal ac i'r Gymraeg, ac sydd eisiau dysgu siarad rhywfaint o'r Gymraeg er mwyn deall fwy o'r hyn sydd yn mynd ymlaen o'u cwmpas. Darperir y Clybiau Croeso yn Llandyfaelog, Cross Hands, Llanelli, Pontyberem, Pum Heol, Ffwrnes a Thrimsaran. Hefyd rydym yn darparu sesiynau ar gyfer dysgwyr, neu bobl leol sydd â rhywfaint o afael ar y Gymraeg ond yn ofnus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r dosbarth.

Mae'r Clybiau Clonc hyn yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfle i gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg a ddefnyddir yn lleol. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae dysgwyr yn mynd ymlaen i fynychu nifer fawr o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol a rhedir gan y Fenter, ond hefyd gan grwpiau cymunedol eraill.

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydweithio'n agos gyda dysgwyr ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau trafod a chydweithio gyda'r dysgwyr.

Cwis Dim Clem

Mae Cwis Dim Clem yn brosiect i blant blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r cwis yn cynnwys sawl gwahanol rownd sy'n codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg. Mae sawl rownd gwahanol sy'n arwain at rownd derfynol. Yn dilyn llwyddiant y Cwis, mae bellach yn brosiect rhanbarthol ac yna wedi tyfu i fod yn genedlaethol.

Pryd ar Glud

Mae gwasanaeth Pryd ar Glud yn cael ei gynnig i drigolion Cwm Gwendraeth ddwy waith yr wythnos. Mae'r trigolion hyn yn cael pryd twym, dau gwrs wedi ei ddarparu yn y cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn holl bwysig i'r bobl sydd yn gaeth i'w cartrefi. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth i ddosbarthu'r pecynnau bwyd. Hefyd, mae'r unigolion hyn yn gwerthfawrogi gweld gwyneb adnabyddus yn wythnosol.

Prosiect Cristnogol

Sefydlwyd prosiect Cristnogol yng Nghwm Gwendraeth er mwyn hyrwyddo mynediad a dealltwriaeth pobl ifanc i agweddau Cristnogol. Ein bwriad yw creu rhwydwaith o weithgareddau mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid gan greu awyrgylch Gristnogol.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

MENTRAU CYMDEITHASOL

Plant y Cwm-Yn gwella bywyd plant Cymru

Mae Plant y Cwm yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel cwmni ymroddedig, sy'n hyrwyddo a chefnogi gofal a chymorth i deuluoedd, plant ac oedolion ifanc ar draws Sir Gaerfyrddin. Genir dyfeisgarwch mewn chwarae creadigol. Mae gan blant ffordd arbennig o ddod a llawenydd i bob dydd. Wrth edrych i mewn i'w llygaid gwelwn y gallant wneud beth bynnag mae nhw'n ei ddychmygu. Gallwn ninnau ond eu helpu i ddychmygu au hysbrydoli i wireddu.

Pwy ydym ni?
Rydym yn gwmni preifat sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion ifanc yng nghymunedau Cwm Gwendraeth, ardal Llanelli a thu hwnt.

Beth i ni'n gwneud?
Mae Plant y Cwm yn ddarparwr blaengar a dibynadwy sy'n cyflawni gofal a chefnogaeth i fywydau plant ac oedolion ifanc.

Dysgu'n ddi-dor
Mae plant yn dysgu mewn nifer fawr a ffyrdd boed ai'n ffurfiol neu beidio. Mae 'r clybiau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd mewn amgylchedd creadigol a diogel sy'n ychwanegu at ei haddysg trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau.

Canolfan Cymunedol Y Cwtsh

Canolfan Adnoddau yw'r Cwtsh ar gyfer Cwm Gwendraeth ac mae'n cyfuno siop lyfrau a chaffi. Yn ogystal, mae'r Cwtsh yn ofod cymunedol gwerthfawr, sy'n cael ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, yn enwedig trigolion lleol sy'n defnyddio'r cyfleuster fel lle diogel a chroesawgar i gwrdd â ffrindiau a hefyd i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Cwtsh yn darparu prydau poeth, ac mae brecwast wedi eu coginio bob dydd ac yn awr mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

DATBLYGU CYMUNEDOL

Bywyd Cyflawn, Bywyd Hapus

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydnabod bod y perygl o unigedd ac ynysu cymdeithasol yn fwy o ofid nawr nag erioed. Mae pobl yn fwy symudol nawr nag erioed gyda nifer fawr o'n cymunedau wedi gweld dirywiad mewn cyfranogaeth ar lawr gwlad ac mae'r cyfleusterau, sydd ar gynnig yn lleihau diolch i doriadau ariannol a newidiadau mewn patrymau bywyd. Felly, mae'r Fenter yn trefnu calendr o weithgareddau rheolaidd a digwyddiadau achlysurol gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd, i wneud cysylltiadau, i ddysgu rhywbeth newydd ac i fwynhau. A hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys sesiynau gemau traddodiadol, gweithdai coginio, cwisus a ciniawau, grŵp drama, ioga, a theithiau i weld rhai o'r mannau diddorol a braf sydd ar drothwy ein drysau.

Cryfhau Cymunedau

Ers cenhedlaeth bellach, bu Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu gydag unigolion a grwpiau cymunedol o bob math er mwyn deall sut y mae ein cymunedau yn esblygu, ac anghenion eu trigolion yn newid.
Nid yw pwyllgora at ddant pawb, ond yn sicr, mae yna nifer fawr o ffyrdd y gall pobl leol roi o'u hamser er mwyn gwneud gwahaniaeth go-iawn i fywydau pobl Cwm Gwendraeth a Llanelli a'r cylch. Yn ystod y flwyddyn, bum yn cynnal gweithgarwch ar lein yn unol â chanllawiau cofid. Bum yn cydlynu gweithgarwch yn nhafarn rhithiol, tafarn y clo ar facebook. Cynhaliwyd gig gomedi gan Noel James, Theatr Cymru i blant oed Cynradd, clybiau darllen, sesiynau iechyd a lles, creu cerddi dan arweiniad yr Egin a groto Siôn Corn, i gyd ar blatfformau digidol.

Papur y Cwm

Mae canolfan Menter Cwm Gwendraeth Elli ym Mhontyberem yn gartref i Papur y Cwm gyda thîm o wirfoddolwyr yn cwrdd yn fisol i olygu'r newyddion sydd wedi dod i law. Mae Menter Cwm Gwendraeth yn gosod y papur cyn ei drosglwyddo i Wasg Dinefwr i'w argraffu.

Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o bartneriaethau ac mae'n cydweithio gyda nifer o grwpiau, mudiadau a sefydliadau gan gynnwys:

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Mudiad Meithrin
Urdd
Papurau Bro
Ysgolion Cynradd
Prifysgol Abertawe
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Cynghorau Tref a Chymuned
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Age Concern Cymru
CAVS
CgGC
Cymraeg i Blant
Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith Cymru
Busnesau Lleol
Ysgolion Uwchradd
Merched y Wawr
Prifysgol y Drindod Dewi Sant
Clybiau Gwawr
Canolfan Cymraeg i Oedolion
Mentrau Iaith
Cyfoeth Naturiol Cymru
Redress
Adfywio Cymru
Y Loteri Genedlaethol

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion Deddf Cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl cyfraith cwmnïau mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen a gwarged neu ddiffyg yr elusen yn ystod y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol: -

1) Dewis polisïau cyfrif addas a'u gweithredu'n gyson;

2) Dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Cymeradwy: Cyfrifo a Chofnodi gan Elusennau;

3) Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifol a darbodus;

4) Datgan a ydy'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion cymeradwy wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw eithriadau sydd wedi eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;

5) Paratoi datganiadau ariannol ar sail y dybiaeth bod yr elusen yn hyfyw oni fernir mai priodol fyddai credu bod yr elusen ar fin dod i ben.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a Deddf Gwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

ASESIAD RISG

Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr Elusennau y dylai pob elusen baratoi asesiad risg fel mater o arfer da, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ac adolygu'r peryglon y gallai'r cwmni eu hwynebu. Roedd yr adolygiad nid yn unig yn cynnwys risgiau sydd yn gysylltiedig â hwyluso prosiectau neu faterion iechyd a diogelwch ond hefyd risgiau ariannol mewn perthynas â dirwyn y cwmni i ben, diswyddiadau, salwch hirdymor neu geisiadau am iawndal gan staff.

Cytunwyd i neilltuo arian o gyllideb gyfredol y cwmni er mwyn ymateb i achosion risg. Yn sgil hynny, mae cyfanswm o £33,177 wedi ei drosglwyddo i gronfeydd penodol.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Wrth baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr, manteisiwyd ar yr eithriadau arbennig yn unol â rhan 15 o Ddeddf Gwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychan.

TRWY ORCHYMYN Y BWRDD

11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

DocuSigned by:
435AD8A5C7BE424...

.....
Dr Ian Wyn Rees

YMDDIRIEDOLWR

23-12-2022

.....
DYDDIAD

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig *Chartered Certified Accountants*
Archwilwyr Cofrestredig *Registered Auditors*

25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

ffôn/tel 01267 237754
ffacs/fax 01267 238418
ebost/email post@llyrjames.co.uk
gwefan/website www.llyrjames.co.uk
trydar/twitter @LlyrJamesCyf

25 Bridge Street
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3JS

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)

ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR AROLYGWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR

Dyma adroddiad yr arolygwr annibynnol i'r aelodau ar gyfrifon anarchwiliedig Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf.

Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy arolwg annibynnol o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr arolwg annibynnol trwy fod yn aelod cymwysedig o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r arolwg annibynnol y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

DocuSigned by:
Bethan Vaughan
8A7F03B26B1E49E...

BETHAN VAUGHAN
CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG

29-12-2022
DYDDIEDIG.....

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

	Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd Penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£	£
INCWM A GWARIANT					
ADNODDAU I MEWN					
Rheoli Prosiectau	22,000	-	137,598	159,598	209,119
Cymhorthdal - Eraill	140,338	-	-	140,338	134,219
Gweithgareddau	13,355	-	-	13,355	16,618
Grantiau Covid	49,190	-	-	49,190	225,956
Adnoddau i mewn - cyfanswm	224,883	-	137,598	362,481	585,912
ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD					
Dibrisiant	2,115	-	-	2,115	2,179
	2,115	-	-	2,115	2,179
Costau Eraill					
Costau Proffesiynol	12,339	-		12,339	15,358
Costau Gweithgareddau (4a)	11,297	-	-	11,297	10,641
Costau Cynnal (4b)	175,647	-	157,954	333,601	390,740
	199,283	-	157,954	357,237	416,739
Adnoddau a ddefnyddiwyd – cyfanswm	201,398	-	157,954	359,352	418,918
Adnoddau net a ddefnyddiwyd	23,485	-	(20,356)	3,129	166,994
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-	-
Elw/(Colled) gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	142,000	-	-	142,000	(131,000)
Symudiad net mewn cronfeydd	165,485	-	(20,356)	145,129	35,994
CRONFEYDD - DYGWYD YMLAEN	(1,475,729)	33,177	63,008	(1,379,544)	(1,415,538)
CRONFEYDD - CARIWYD YMLAEN	(1,310,244)	33,177	42,652	(1,234,415)	(1,379,544)

Dangosir y symudiadau ar yr arian wrth gefn yn nodiadau 9, 10 ac 11 i'r datganiadau ariannol.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG (RHIF Y CWMNI: 2815717)
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2022

	NODYN	2022		2021	
		£	£	£	£
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Sylweddol	2 a 5		54,838		58,090
ASEDION CYFREDOL					
Dyledwyr	6	57,039		43,259	
Arian yn y banc ac mewn llaw		122,041		153,982	
		179,080		197,241	
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	23,858		47,263	
ASEDION CYFREDOL NET			155,222		149,978
CYFANSWM ASEDION LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			210,060		208,068
Darpariaeth am ymrwymiadau	8		(4,475)		(5,612)
Cynllun Pensiwn			(1,440,000)		(1,582,000)
ASEDION NET			£(1,234,415)		£(1,379,544)
CYFALAF AC ARIAN WRTH GEFN					
Cronfeydd – heb gyfyngiadau	9		(1,310,244)		(1,475,729)
Cronfeydd – penodol	10		33,177		33,177
Cronfeydd – a chyfyngiadau	11		42,652		63,008
CYFANSWM CRONFEYDD			£(1,234,415)		£(1,379,544)

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw roedd gan y cwmni'r hawl i gael ei eithrio o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud a chwmnïau bach. Nid yw unrhyw aelodau wedi mynnu i'r cwmni gael archwiliad ariannol o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio a gofynion y Ddeddf mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg ac am baratoi cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 16 i 30 gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

DocuSigned by:
Kathryn Devonald-Davies
EB87E675132549A...

..... YMDDIRIEDOLWR

Fns Kathryn Devonald-Davies

DYDDIAD 29-12-2022 .....

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig yn elusen gofrestredig ac yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 11-15 Coalbrook Road, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling (£).

2. POLISÏAU CYFRIFO

Sail y Cyfrif

Mae'r cwmni'n paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail cyfrifo cost hanesyddol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau o Adran 1A "Cwmnïau Bychain" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006.

Paratoi cyfrifon ar sail hyfywedd

Ar y fantolen, mae gan Menter Cwm Gwendraeth Elli ddiffyg ariannol o £1,234,415 (2021: £1,379,544). Mae hyn o ganlyniad i gyflwyno, ar 1 Ebrill 2015, y rhwymedigaeth a gysylltir â'r Cynllun Pensiwn â Buddion Wedi'u Diffinio. Mae'r Diffyg Pensiwn yn rhwymedigaeth tymor-hir, ac mae'r elusen mewn sefyllfa i gwrdd â'i holl rwymedigaethau cyfredol. Caiff rhwymedigaeth tymor-byr y diffyg pensiwn ei gydnabod gan yr Ymddiriedolwyr, ac maent mewn sefyllfa i gwrdd â'r holl oblygiadau hyn. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen, ar sail yma, yn fusnes gweithredol a hyfyw.

Costau Pensiwn

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Ar ôl mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2015, dangosir y diffyg hwn yn llawn ar y Fantolen.

Trosiant

Mae'r trosiant yn cynrychioli gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Asedion Sefydlog A Dibrisiant

Nodir gwerth asedion sefydlog ar y fantolen yn ôl eu cost llai dibrisiant. Diddymir cost asedion sefydlog fesul rhandaliad blynyddol cyfartal dros eu hoes defnyddiol tybiedig fel a ganlyn:-

Celfi ac Offer - 15% Moduron - 25%

Ystyrir asedion a brynir trwy gytundeb les fel asedion cyfalaf ac fe'u dibrisir yn ôl y cyfraddau uchod.

Grantiau

Mae grantiau yn cael eu credydu i incwm yn unol â'r cyfnodau y maent yn perthyn iddynt.

Asesiad Risg

Mae'r cwmni wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r cwmni elusennol yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Offerynnau Ariannol

Mae'r offerynnau ariannol nad ydynt ynghlwm wrth symudiadau'r farchnad yn cynnwys dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.

Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae gwerthoedd asedion ac ymrwymiadau ariannol y cwmni yn amcangyfrifon teg.

Defnyddio Elw

Defnyddir elw'r cwmni i greu cronfa gyffredinol wrth gefn er sicrhau parhad a datblygiad y cwmni ar sail y cyfrannau ac yn ôl y dulliau a argymhellir gan y Pwyllgor Rheoli a'u cymeradwyo gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gwarant

Mae atebolrwydd pob aelod yn gyfyngedig i uchafswm o £1. Diddymir yr atebolrwydd hwn flwyddyn ar ôl i'r aelodaeth ddarfod.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y polisi arian wrth gefn i sicrhau bod gan y cwmni elusennol gyllid digonol i ddelio a'r elfen o risg sydd ynghlwm a rhedeg cwmni sydd yn ddibynnol ar dderbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. (Gweler nodyn 11)

3. CYFARWYDDWYR A STAFF

Ar gyfartaledd rhif y staff yn fisol yn ystod y flwyddyn oedd: 25 (2021 – 25).

Roedd costau cronnus cyflogau'r personau hyn fel a ganlyn:-

	2022 £	2021 £
Cyflogau a chostau teithio	200,223	169,797
Costau Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau	62,581	31,085
	262,804	200,882

Ni dalwyd cyflog i unrhyw un o'r ymddiriedolwyr.

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

4. DADANSODDIAD O GOSTAU

		Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
		£	£	£	£	£
4a	COSTAU GWEITHGAREDDAU					
(i)	Eraill	11,297	-	-	11,297	10,641
		11,297	-	-	11,297	10,641
4b	COSTAU CYNNAL					
(ii)	Costau Swyddfa	16,702	-	-	16,702	14,789
(iii)	Costau Cyflogau a chostau teithio	125,206	-	137,598	262,804	200,882
(iv)	Prosiectau	33,739	-	20,356	54,095	92,213
(v)	Hyfforddiant	-	-	-	-	82,856
		175,647	-	157,954	333,601	390,740

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

5. ASEDION SEFYDLOG SYLWEDDOL

	Adeilad	Adeilad ar Les £	Celfi ac Offer £	Cyfanswm £
COST				
Ar 1.4.21	46,815	17,000	176,483	240,298
Ychwanegiadau	-	-	-	-
Ar 31.3.22	46,815	17,000	176,483	240,298
DIBRISIANT				
Ar 1.4.21	16,011	-	166,197	182,208
Tal am y cyfnod	-	-	3,252	3,252
Ar 31.3.22	16,011	-	169,449	185,460
GWERTH LLYFR NET				
Ar 31.3.22	£30,804	£17,000	£ 7,034	£54,838
Ar 31.3.21	£30,804	£17,000	£ 10,286	£58,090

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

6. DYLEDWYR

	2022 £	2021 £
Dyledwyr Masnachol	41,230	34,029
Menter Min Nos Cyf (6i)	219	219
Menter Plant Y Cwm Cyf (6i)	12,397	5,818
Blaendaliadau	924	924
Dyledwyr eraill	2,269	2,269
	£57,039	£43,259

Nodyn (i)
Ar 31 Mawrth 2022 roedd asedion y cwmnïoedd fel a ganlyn:-

	2022 £
Cwtsh Glöyn Cyf	£ 16,998
Menter Plant y Cwm Cyf	£ 28,805
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£ 10,822
Menter Min Nos Cyf	£ 331
Caffi Cynnes Cyf	£ 11,157

Er nad yw'r rhain yn is-gwmnïau, fe'u sefydlwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf er mwyn iddynt weinyddu gweithgareddau penodol. Maent i gyd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf sydd hefyd yn gwarantu eu holl ymrwymiadau ariannol.

7. CREDYDWYR

	2022 £	2021 £
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn: -		
Credydwyr Masnachol	2,309	1,363
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf (6i)	2,770	2,770
WCVA	14,839	15,663
Incwm Gohiriedig	-	27,467
Caffi Cynnes Cyf (6i)	3,940	-
	£ 23,858	£47,263

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

8. DARPARIAETH AM YMRWYMIADAU

		2022 £	2021 £
a)	**YSTAFELL GYFRIFIADURON / Y CWTSH**		
	Balans ar 1 Ebrill 2021	667	1,700
	Arian a dderbyniwyd	-	-
	Grant a hawliwyd	(667)	(1,033)
	Balans ar 31 Mawrth 2022	-	667
b)	**LOTERI ABC, 123**		
	Balans ar 1 Ebrill 2021	755	1,204
	Arian a dderbyniwyd	-	-
	Grant a hawliwyd	(449)	(449)
	Balans ar 31 Mawrth 2022	306	755
c)	**REDRESS**		
	Balans ar 1 Ebrill 2021	4,190	-
	Arian a dderbyniwyd	-	4,505
	Grant a hawliwyd	(21)	(315)
	Balans ar 31 Mawrth 2022	4,169	4,190
	CYFANSWM	£4,475	£ 5,612

9. CRONFEYDD - HEB GYFYNGIADAU

	2022 £	2021 £
Balans a ddygwyd ymlaen	(1,475,729)	(1,448,715)
Gwarged/Diffyg) am y cyfnod	165,485	(27,014)
	£(1,310,244)	£(1,475,729)

10. CRONFEYDD PENODOL

	Balans 1.4.21	Trosglwyddiadau i Gronfeydd Eraill	Trosglwyddiadau i mewn	Balans 31.3.22
	£	£	£	£
Costau Swyddfa (ii)	33,177	-	-	33,177
	33,177	-	-	33,177

Yn dilyn asesiad o risg, mae'r Fenter wedi sefydlu dwy gronfa benodol: -

i) Darpariaeth am gostau craidd i alluogi'r Fenter i gwrdd â chostau gweinyddu am gyfnod o 9 i 12 mis pe bai lleihad yn y gweithgareddau. Cytunwyd y bod modd gostwng y ddarpariaeth ar sail fod costau craidd y Fenter wedi gostwng i gymharu â'r blynyddoedd cynt.

ii) Darpariaeth am gostau ychwanegol a fyddai'n deillio o adleoli swyddfeydd dan yr un amgylchiadau a chronfa (i)

	£
- Costau Cynnal y Swyddfa	23,177
- Costau Cyfreithiol	5,000
- Adleoli Swyddfeydd	5,000
	£33,177

11. CRONFEYDD - A CHYFYNGIADAU

		Symudiad mewn Cronfeydd		
	Balans 1.4.21	**Adnoddau i mewn / Tros Glwyddiadau**	**Gwariant/ Trosglwyddo-iadau**	**Balans 31.3.22**
	£	£	£	£
CAVS (i)	-	5,000	5,000	-
Iechyd a Lles (ii)	-	14,472	14,472	-
Prosiect Llwynhendy (iii)	63,008	-	20,356	42,652
Redress (iv)	-	63,157	63,157	-
LHB (v)	-	15,000	15,000	-
WCVA - CGTS3 (vi)	-	21,000	21,000	-
Ardaloedd Blaenoriaethau (ix)	-	18,969	18,969	-
	63,008	137,598	157,954	42,652

Cronfeydd a Chyfyngiadau

(i) **CAVS** – Roedd **Cronfa Cefnogi Covid-19** Sir Gaerfyrddin yn cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin i wneud y canlynol :-

- cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai agored i niwed yn ystod argyfwng Coronafeirws (COVID-19)

- sicrhau bod gan sefydliadau/grwpiau cymunedol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau

- annog protocolau iechyd a diogelwch cadarn yn ystod pob gweithgaredd sy'n diogelu staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr a buddiolwyr y sector gwirfoddol

Bu'r Fenter yn ffodus i dderbyn £1,000 i brynu stoc o PPE er mwyn diogelu staff

(ii) **Iechyd a Lles** - Cytundeb Lefel Gwasanaeth i ddatblygu prosiectau iechyd a lles i bobl 50+ o fewn dalgylch Cwm Gwendraeth.

(iii) **Prosiect Llwynhendy** -. Nod Cyllid Invest Local yw i ddarparu buddsoddiad ar gyfer y prosiect ac adnabyddwyd yng Nghynllun Gyrru Newid Llwynhendy, sy'n gyfredol ar yr adeg pan gyflwynir y cynnig cyllido.

Mae Menter yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn union yn unol â'r termau ac amodau ar nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r prosiect a gymeradwywyd gan Bwyllgor Llywio'r Llwynhendy Invest Local (y Pwyllgor Llywio) fel y crybwyllwyd yn y Llythyr Cynnig cyllid.

(iv) **Redress** - Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yng nghymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresog cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawr gyda'r cynnydd cost ynni presennol.

(v) **LHB** – Prosiect Ysgolion - Darparu gwasanaeth cyn ysgol ar gyfer sefydliadau ar draws Sir Caerfyrddin.

(vi) **WCVA CGTS3** - Cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai sydd yn agored i niwed yn ystod pandemig Coronafeirws (Covid-19).

- Sicrhau bod gan fudiadau gwirfoddol/y trydydd sector yr adnoddau angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau.
- Annog protocolau iechyd a diogelwch llym yn ystod pob gweithgaredd sy'n amddiffyn staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr y trydydd sector/y sector wirfoddol.

(vii) **Ardaloedd blaenoriaethau** – Prosiect sy'n canolbwyntio ar ddwy ardal benodol, sef Cydweli a Thrimsaran, er mwyn Cymreigio a normaleiddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

12. DADANSODDIAD O ASEDION NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedion / Sylweddol	Rhwymedigaeth Net	Cyfanswm
	£	£	£
Grantiau	4,475	(4,475)	-
Cronfeydd Penodol	-	33,177	33,177
Cronfeydd heb gyfyngiadau	50,363	(1,360,607)	(1,310,244)
Cronfeydd a chyfyngiadau	-	42,652	42,652
	54,838	(1,289,253)	(1,234,415)

13. TRAFODION A CHWMNÏAU PERTHNASOL

Mae dau o'r pum cwmni perthnasol wedi cyfrannu tuag at gostau Menter Cwm Gwendraeth Elli sef,

Menter Min Nos Cyf	£0	(2021 - £0)
Cwtsh Glöyn Cyf	£2,000	(2021 - £0)
Caffi Cynnes Cyf	£0	(2021 - £0)
Menter Plant y Cwm Cyf	£20,000	(2021 - £0)
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£0	(2021 - £0)

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

14. CYNLLUN PENSIWN

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig
Dyddiad y Prisiad Actiwariaid llawn ddiwethaf 31.03.2019

TYBIAETHAU ACTIWARÏAID

Tybiaethau Ariannol

	Dechrau'r Flwyddyn	**Diwedd y Flwyddyn**
Graddfa chwyddiant	2.7%	3.2%
Graddfa cynnydd cyflogau	4.2%	4.7%
Graddfa cynnydd pensiynau	2.8%	3.3%
Cyfradd disgownt	2.2%	2.8%

Rhaniad yr asedau rhwng y categorïau buddsoddi

Soddgyfrannau	74.0%	72.3%
Bondiau'r Llywodraeth	0.0%	1.3%
Bondiau eraill	11.6%	7.9%
Eiddo	11.1%	13.1%
Arian parod	1.2%	1.7%
Arall	2.1%	3.7%

Mae'r ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a'r rhaniad asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer ddechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2021.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2022

	£,000
Gwerth yr Asedau ar y farchnad	2,320
Dyledion	(3,760)
(Diffyg)	(1,440)
Symudiadau'r Gweddill yn ystod 2021/22	
Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	(1,582)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(84)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	48
Cost y Gwasanaeth Gynt	-
Llog Net / Budd ar Asedau	(34)
Gwarged Actiwariaid	212
(Diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn	(1,440)

DocuSign Envelope ID: 3735D96C-E509-4BB0-B9A2-B168E77484EA

Datgeliadau Ychwanegol

	Asedau ar 31.03.22		Asedau ar 31.03.21	
	£ 000	%	£ 000	%
Soddgyfrannau	1,678	72.3	1,597	74.0
Bondiau'r Llywodraeth	30	1.3	-	0.0
Bondiau eraill	183	7.9	250	11.6
Eiddo	304	13.1	240	11.1
Arian	39	1.7	26	1.2
Arall	86	3.7	45	2.1
Cyfanswm	2,320		2,158	
Dyledion ar 31.03.2022	3,760			

Caiff y Cynllun Pensiwn ei drin fel cynllun a'r cyfraniadau wedi'u diffinio gan fod cytundeb rhwng Menter Cwm Gwendraeth a'r Cynllun Pensiwn Aml-gyflogwr ynglŷn â'r modd yr ariennir unrhyw ddiffyg.

15. DIGWYDDIADAU ERS DYDDIAD Y FANTOLEN: COVID-19

Ers diwedd y flwyddyn ariannol mae'r Fenter dal i fod yn dioddef o effaith Covid 19 gan fod cyfyngiadau wedi parhau mewn i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Fenter yn parhau i gynnig amryw o wasanaethau i'r gymuned ac yn dal i fod yn chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion am Gwm Gwendraeth a Llanelli.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

England & Wales - Charity number 1021901

Accounts

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN
YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2021

RHIF Y CWMNI: 2815717

ELUSEN GOFRESTREDIG: RHIF 1021901

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2021

CYNNWYS **TUDALEN**

Rhestr o Wybodaeth	1
Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr	2
Adroddiad Arolygwr Annibynnol	16
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	17
Mantolen	18
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	19

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

RHESTR O WYBODAETH

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Swyddfa Menter Cwm Gwendraeth Elli
11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

BANCWYR

Banc HSBC ccc
4A Stryd Vaughan
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3TY

Banc Lloyds TSB ccc
Stryd Stepney
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3YD

CYFREITHWYR

DPA Law
10-12 Queen Victoria Road,
Llanelli
SA15 2TN

CYFRIFWYR AC AROLYGWR ANNIBYNNOL

Llŷr James Cyf
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

CYFARWYDDWYR Y CWMNI / WASANAETHWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Mr Gwyn Elfyn Jones – (ymddiswyddodd 21.04.21)
Mr Phil Williams – (ymddiswyddodd 14.09.20)
Dr Wayne Griffiths – (ymddiswyddodd 14.09.20)
Mr Alban Rees – (ymddiswyddodd 14.02.21)
Mrs Kathryn Devonald-Davies – (apwyntiwyd 10.07.20)
Mrs Jeni Olwen Price – (apwyntiwyd 08.07.20)
Dr Ian Wyn Rees – (apwyntiwyd 10.07.20)
Ms Anwen Mair Evans – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mrs Alana Enoch – (apwyntiwyd 21.04.21)
Catrin Mair Rees – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mr Liam Morgan-Bowen
Mr Hugh Richards
Miss Elen Davies
Mrs Medwen Hewitt
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Gethin Thomas
Mr Dyfrig Thomas
Mrs Joy Williams
Mrs Linda Williams
Mr John Evan Jones
Miss Marged Lowri Walters Thomas

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni i bwrpas rheolau cyfreithiol cwmnïau) yn cyflwyno'r adroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021.

ENW SWYDDOGOL

Enw swyddogol yr elusen yw Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig.

CYFANSODDIAD

Mae'r elusen wedi ei sefydlu fel Cwmni Cyfyngedig, rhif 2815717, ac fel elusen gofrestredig, rhif 1021901. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol ag elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfrannau.

PRIF WEITHGARWCH

Disgrifir prif weithgarwch y cwmni dan restr o amcanion y Fenter.

AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI

1. Cefnogi unrhyw weithgaredd Cymunedol Cymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

2. Hyrwyddo prosiectau er lles adfywio cymunedol, lle mae bylchau'n bodoli.

3. Cydweithio â Mudiadau sydd eisoes yn weithgar yn gymunedol, er mwyn osgoi gwrthdaro, ac er mwyn dyblygu adnoddau.

4. Hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes a masnach drwy: -

    a) Greu cysylltiadau rhwng cymdeithasau gwirfoddol a'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn hybu gweithgareddau Cymraeg cymunedol.

    b) Hybu'r defnydd o'r iaith yng ngweinyddiaeth a chyhoeddusrwydd y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

5. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd neu gynadleddau cyhoeddus drwy ddefnyddio offer cyfieithu.

6. Sefydlu prosiectau ymchwil cymunedol fydd yn sbardun i drafodaethau ac yn sail i gynllunio cymunedol.

7. Ystyried anghenion trigolion yr ardal ac adeiladu pontydd er lles adfywio cymunedol.

8. Sicrhau rhwydwaith o bwyllgorau lleol, a phaneli a gweithgorau fydd yn bwydo syniadau, yn creu bwrlwm ac yn llywio strategaeth.

9. Cyfrannu i'r wasg yn gyson ar bwyntiau yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol, gwaith y Fenter, a natur y cymunedau diwydiannol hyn sydd yn dibynnu ar waith a bywoliaeth er mwyn cadw'r Cymry ifanc yn agos at eu gwreiddiau.

10. Cadw'r weledigaeth yn glir bod rhaid creu delwedd newydd sbon i'r Gymraeg yn gymunedol a fydd yn adlewyrchu natur ein cymdeithas a thueddiadau byd eang yn y byd cyfoes - iaith ffasiynol, fodern a bywiog sy'n berthnasol i'n cyfnod ni heddiw.

FFYNONELLAU A DEFNYDD ARIAN

Mae'r Fenter yn cael ei chyllido yn bennaf, gan gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraeth Cymru, RDP, Bwrdd Iechyd, er mwyn ariannu prosiectau penodol ym maes datblygu cymunedol.

Gweithredwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth a nifer o asiantaethau er mwyn datblygu partneriaethau.

Am y flwyddyn roedd gwarged o £166,994 cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

AROLWG O DDATBLYGIADAU A'R ARGOELION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r canlyniadau am y cyfnod yn dangos gostyngiad yn y cronfeydd cyn symudiad yn y gronfa pensiwn.

Bu 2020-2021 yn flwyddyn o brosiectau a gweithgarwch di-ri o safbwynt y Gymraeg ar draws ardal Cwm Gwendraeth, Llanelli a'r cyffiniau.

Mae'r ymddiriedolwyr yn deall pwysigrwydd llif arian i'r Fenter ar adeg pan mae'r disgwyliadau yn uchel ond mae'r adnoddau yn cael eu cwtogi.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried pwysigrwydd cyfraniad y cwmnïau llai i ddyfodol y Fenter ac wedi ystyried sefyllfa ariannol a rhagolygon incwm y cwmnïoedd yma hefyd.

Mae'r pwyllgor wedi asesu ymrwymiadau ariannol y Fenter am y Flwyddyn nesaf ac yn obeithiol o dderbyn arian digonol i'w galluogi i barhau a'r gweithgareddau

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Mae'n rhoi boddhad mawr i mi, fel cadeirydd Menter Cwm Gwendraeth Elli, gyflwyno Adolygiad Blynyddol y Fenter am y flwyddyn 2020 - 21. Mae eleni wedi bod yn gyfnod anodd yn ariannol gyda'r holl broblemau achoswyd gan y Covid-19 a'r newidiadau yn sgil y cloeon a chadw pellter ac yn y blaen.

Does dim newid ym mlaenoriaethau'r Fenter serch hynny, anghenion yr ardal a'r trigolion sydd wedi bod ar flaen yr agenda ond y tro yma roedd gofalu am ddiogelwch staff, partneriaid a chwsmeriaid y Fenter yn holl bwysig yn ogystal.

Rhaid i mi ddiolch i'r staff, sydd wedi cadw pethau i fynd mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen. Diolch i Nerys am ei harweiniad trwy gydol y cyfnod ac i Alaw am ei chefnogaeth iddi hi a'r staff. Rhaid diolch yn arbennig a llongyfarch y staff ar sicrhau nawdd i'n cynnal yn ystod y cyfnod rhyfedd yma lle'r oedd ein gweithgareddau wedi cael eu heffeithio yn fawr.

Eleni eto rwy'n hynod ddiolchgar i aelodau'r Bwrdd rheoli am eu cefnogaeth gyson i mi fel cadeirydd ac i'r Fenter yn gyffredinol. Ga i ychwanegu yma fy niolch i Gethin fel is-gadeirydd ac i Liam sydd wedi ymuno gyda ni ar CAB, y pwyllgor cyllid a busnes.

Mae Dr. Wayne Griffiths wedi ymddeol o'r Bwrdd wedi 30 mlynedd o wasanaeth diflino ac fe fyddwn mewn dyled iddo am byth am ei gyfraniad anferth i'r Fenter. Diolch am bob peth Wayne. Bu newidiadau cyffrous yn y Cwtsh ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gael y cyfan yn agored yn llawn i'r cyhoedd. Diolch i'n cyfarwyddwr newydd, Kathryn a'i chwmni DPA am gwblhau'r gwaith ar ddiweddaru a moderneiddio'r Cwtsh yn arbennig.

Erbyn i chi ddarllen hwn mi fydda i wedi gorffen fel cadeirydd a chyfarwyddwr ar Fwrdd y Fenter ers misoedd lawer. Ga i gymryd y cyfle i ddiolch am y fraint o gydweithio gyda chymaint o Gymry da, yn staff a chyfarwyddwyr dros y 30 mlynedd diwethaf.

Diolch arbennig i Nerys sydd wedi bod yn Brif Weithredwr yn ystod fy nghyfnod fel cadeirydd ac i Alaw sydd wedi arwain pan oedd Nerys ar famolaeth. Mae wedi bod yn bleser cydweithio.
Pob dymuniad da i'r Fenter, y staff a'r cyfarwyddwyr dan arweiniad Ian Rees fel cadeirydd. Cofiwch mai'r iaith Gymraeg yw eich blaenoriaeth o hyd ac os nad ydy hynny'n wir
rydych yn y man anghywir!

"Cenedl heb iaith, cenedl heb galon."

Yn ddiffuant
Gwyn E L Jones

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODAU AC AMCANION MENTER CWM GWENDRAETH ELLI YW:

- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

- Adfer hyder a lles yr unigolyn a chymunedau Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

- Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'n treftadaeth ddiwylliannol ymhlith trigolion Cwm Gwendraeth Elli ac ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn i drigolion gyrraedd eu potensial llawn.

CYFLWYNIAD YR IS-REOLWRAIG

Dyma gyfle i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Menter Cwm Gwendraeth Elli ar gyfer 2020-21. Bu'n flwyddyn llawn gweithgareddau ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli yn cynnig ystod eang o weithgareddau addas at bob oed ac at bobl gyda gwahanol ddiddordebau. Bu eleni yn wahanol i'r arfer gan fod Covid-19 wedi gorfodi i ni newid agweddau o'n gwaith a hefyd wedi newid gofynion sefydliadau a chymunedau.
Mae'r Fenter yn ffodus o gael cyfeillion a ffrindiau da ynghyd â chriw o wirfoddolwyr a phartneriaid gweithredol. Diolch i Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gar a Mentrau Iaith Cymru ac i'n amrywiol bartneriaid ar draws y Sir am bob cefnogaeth.
Rhaid diolch i'r Bwrdd Rheoli o dan arweiniad y swyddogion am bob cefnogaeth. Mae fy niolch yn mynd i'r tîm o staff brwdfrydig sydd yn gweithio'n ddiwyd bob amser er llwyddiant y Fenter. Mae cyfraniad bob un ohonynt yn werthfawr ac yn gyfraniad sylweddol at weld datblygu'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a Llanelli.
Gobeithio bod yr Adroddiad yn rhoi blas i chi ar waith y Fenter, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n ein hwynebu o ddydd i ddydd.

Alaw Davies

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

EIN CENHADAETH NI YW:

'Bod yn Gwmni creadigol, blaengar ac ymatebol, sy'n benderfynol o ddarparu'r gwasanaeth gorau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ac yn gwella potensial yr unigolyn a'r gymuned gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael'

Menter Cwm Gwendraeth Elli, 11-17 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.
Rhif ffôn 01269 871600
Ffacs 01269 870599
E-bost: post@mcge.co.uk
Gwefan: www.mcge.co.uk

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant Cofrestredig yng Nghymru: 2815717 Elusen Gofrestredig: 1021901

STAFF CRAIDD

Nerys Burton	Prif Weithredwr
Huw Evans	Rheolwr Iaith a Chymuned
Alan Lewis	Swyddog Datblygu Cymunedol
Julie Nicholas	Swyddog Cyllid
Ann Rees	Gweinyddydd
Paul Thomas	Swyddog Ynni
Alaw Davies	Is-reolwr
Aled Evans	Swyddog Plant a Ieuenctid
Elen Morgan	Swyddog Datblygu

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

LLYWYDD
Nigel Owens MBE

IS -LLYWYDD
Deris Williams MBE

PWYLLGOR RHEOLI

Mr Gwyn Elfyn Jones – (ymddiswyddodd 21.04.21)
Mr Phil Williams – (ymddiswyddodd 14.09.20)
Dr Wayne Griffiths – (ymddiswyddodd 14.09.20)
Mr Alban Rees – (ymddiswyddodd 14.02.21)
Mrs Kathryn Devonald-Davies – (apwyntiwyd 10.07.20)
Mrs Jeni Olwen Price – (apwyntiwyd 08.07.20)
Dr Ian Wyn Rees – (apwyntiwyd 10.07.20)
Ms Anwen Mair Evans – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mrs Alana Enoch – (apwyntiwyd 21.04.21)
Catrin Mair Rees – (apwyntiwyd 21.04.21)
Mr Liam Morgan-Bowen
Mr Hugh Richards
Miss Elen Davies
Mrs Medwen Hewitt
Mr Kenneth Denver Rees
Mr Gethin Thomas
Mr Dyfrig Thomas
Mrs Joy Williams
Mrs Linda Williams
Mr John Evan Jones
Miss Marged Lowri Walters Thomas

Y CWTSH

Elin Davies
Rhian Hudson
Louise Hardy
Llinos Daniels

Clybiau ar ôl ysgol – 67 o staff

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

PLANT A PHOBL IFANC

Sgiliau Byw

Yn wreiddiol, lluniwyd rhaglen Sgiliau Byw fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Sir Gar. Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth i rieni a gwarchodwyr babanod a phlant gan ganolbwyntio ar gyfathrebu, iaith, llythrennedd a chwarae trwy fwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r prosiect yn ddilyniant naturiol i Iaith a Chwarae a Rhifedd a Chwarae gan ganolbwyntio ar y nodweddion craidd canlynol; -

- Bwyta'n iach a chadw'n heini
- Y Plât bwyd - 5 y dydd
- Coginio Iachus yn y cartref a thu allan i'r cartref
- Dyddiadur Bwyd a Labeli Bwyd
- Prydau Bwyd, Byrbrydau a Blasu Bwyd
- Gofalu am ein corff

Nod y rhaglen: -

- Gwella datblygiad iaith 0-3 oed
- Annog rhyngweithiad rhwng rhieni a phlant ifanc
- Annog rhieni i rannu llyfrau a storiâu gyda babanod a phlant ifanc
- Datblygu dealltwriaeth a hyder rheini
- Gosod sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes

Clybiau Gofal

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydlynu a rheoli Clybiau Gofal cofrestredig sy'n cwrdd o 3:00 hyd 6:00 o'r gloch yr hwyr ar draws ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r clybiau yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac wedi derbyn adroddiadau anrhydeddus iawn.

Clybiau Joio a Hwyl

Mae cyfres o 10 o Glybiau Joio a Hwyl yn y Gymraeg yn cael eu darparu ar ôl ysgol ar draws ardaloedd Cwm Gwendraeth a Chylch Llanelli. Mae'r Clybiau hyn yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol ar ôl ysgol gan ehangu'r cyfloed i blant 4 - 11 oed gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl ysgol.

Theatr Iau ac Ieuenctid

Mae'r theatr yn cynnig gwasanaeth i blant 4 - 11 oed a 11 - 18 oed, gan gwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ysgol. Mae'r tîm o gyfarwyddwyr profiadol yn cynnig profiadau niferus ym maes theatr a pherfformio. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflwyno ffrwyth llafur y gweithdai wythnosol mewn perfformiadau theatrig. Cafwyd perfformiadau hwyliog iawn a bu hyn yn gyfle pellach i godi proffil gwaith y cwmni a thalent y bobl ifanc.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ymwybyddiaeth Iaith

Gan fod natur ein gwaith wedi gorfod newid dros y flwyddyn hon, mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith rhithiol yn cael eu cynnig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cwm Gwendraeth a Llanelli, a hefyd i Gampws Y Graig Coleg Sir Gâr. Nod y sesiynau hyn yw i godi ymwybyddiaeth am hanes yr iaith, digwyddiadau pwysig sydd wedi effeithio ar y Gymraeg a sut mae'r iaith wedi ysbrydoli unigolion yn eu gyrfa e.e., Nigel Owens ac Alex Jones. Y neges holl bwysig yw bod angen i bobl ddefnyddio'r iaith, pa bynnag fath o Gymraeg maent yn ei siarad.

Capsiwl Cofid

Mae'r Capsiwl Covid wedi bod yn un o uchafbwyntiau MCGE yn ystod y cyfnod. Crëwyd Capsiwl Covid i blant oed cynradd yn gyntaf, gyda'r teledu ar radio yn dangos diddordeb yn y pecyn. Cyrhaeddodd y pecyn dros 40,000 o bobl ar gyfryngau cymdeithasol y Fenter. Roedd y pecyn yn benodol i rhoi cyfle i unigolion edrych yn ôl ar y cyfnod rhyfedd hwn. Yn dilyn llwyddiant y capsiwl, crëwyd un addas ar gyfer plant oed cyn-ysgol a'i rhieni ac i bobl ifanc / oedolion.

Digidol

Gan bod pawb wedi gorfod addasu ffordd o weithio oherwydd y sefyllfa bresennol, mae amserlen wythnosol yn cael ei chreu yn targedu pobl o bob oedran a phob gallu ieithyddol, plant a phobl ifanc, dysgwyr, mam a babi, ysgolion, dim ond i rhestri rhai. Rydym wedi achub mantais ar y cyfle i ddatblygu gwefan ar gyfer y Cwtsh gan ein bod wedi gorfod cau am gyfnod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r wefan yn parhau i ddatblygu. Mae Plant y Cwm hefyd wedi datblygu system bwcio ar-lein ar gyfer clybiau ar ôl ysgol y Fenter. Mae'n system ddiogel, sy'n caniatáu ni i fonitro ffigyrau yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

Clwb Darllen

Crëwyd Clwb Darllen Covid i oedolion dros cyfnod clo, ac mae wedi bod yn brosiect llwyddiannus. Mae 10 unigolyn yn rhan o'r grŵp ac yn cael trafodaethau diddorol am lyfrau cyfredol. Mae'r unigolion yn cwrdd yn wythnosol yn darllen nofelau, straeon byrion, hunangofiant ac yn cael trafodaethau yn sgil y themâu sy'n codi. Mae hyn yn ffordd wych o gymdeithasu a chael tipyn o hwyl. Nod y grŵp yw cwrdd wyneb yn wyneb yn rheolaidd pan fydd canllawiau yn caniatáu.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ownzone

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn rheoli cynllun Ownzone yn Ysgol Dyffryn Aman. Nod Ownzone yw cynnig cyfle i ddisgyblion dreulio amser tu allan i'r ysgol mewn man diogel, lle mae modd iddyn nhw gael cefnogaeth bersonol a nifer o weithgareddau cyffrous. Un o brif amcanion y prosiect yw codi hunan hyder y disgyblion a chynyddu eu cyfranogiad. Rôl bwysig sydd gan Ownzone yw creu partneriaethau effeithiol sydd yn medru helpu plant a phobl ifanc rhwng deg a phedair ar ddeg mlwydd oed. Ynghyd â chydweithio'n agos iawn gyda'r Ysgol, rydym wedi bod yn creu partneriaethau allanol i'r prosiect.

Mae Ownzone yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfrannu at gynllunio gweithgareddau, a'u trefnu, a chael perchnogaeth dros yr hyn sy'n digwydd. Bydd y bobl ifanc yn cael y canlynol:

- Man diogel i fynd iddo ar ôl ysgol, lle gallant gael hwyl
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a datblygu sgiliau newydd
- Ymfalchïo mewn amrywiaeth newydd o gyraeddiadau personol
- Cyfle i ddatblygu sgiliau allweddol a sgiliau meddwl trwy gael dweud eu dweud ar yr hyn sy'n digwydd
- Datblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch
- Teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol, a chael eu symbylu i ddysgu
- Ehangu gorwelion

YR AMGYLCHEDD

Adfer Energy Redress

Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yn cymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresogi cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawer gyda'r cynnydd mewn cost ynni presennol. Mae'r swyddog Adfer Energy Redress yn gweithio'n rhad ac am ddim gyda unigolion er mwyn arbed costau ynni yn y cartref a lleihau dyledion ynni. Bydd y swyddog yn ymgyrchu ar draws Sir Gar gyda sioeau penffordd a chymorthfeydd ynni un i un â ffocws penodol. Mae tlodi tanwydd ar ei uchaf mewn ardaloedd gwledig sydd heb fynediad i'r grid Nwy. Mae Adfer Energy Redress yn croesawu cyfle i gydweithio gyda sefydliadau tai a grwpiau cymorth leol, a hynny yn rhad ac am ddim.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

ADDYSG GYDOL OES

Dysgwyr. Dysgu'r Gymraeg yn y Gymuned

Dros y blynyddoedd mae nifer fawr o bobl wedi mentro i ddosbarthiadau Addysg Gymraeg i Oedolion ar hyd a lled Llanelli a Chwm Gwendraeth ac mae'r gymuned Gymraeg yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad.

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru "Miliwn o Siaradwyr" yn ddibynnol ar greu siaradwyr newydd a'u hannog i ddefnyddio'r iaith ar lawr gwlad er lles pawb. Mae gweithio gyda dysgwyr yn allweddol ar gyfer parhad yr iaith ac fel Menter Iaith, rydym wedi blaenoriaethu ymdrechion i helpu y dysgwyr hyn i 'bontio', hynny yw i fynd o fod yn ddysgwyr pur i fod yn siaradwyr naturiol. I wneud hyn, rydym wedi sefydlu sesiynau amrywiol i gynorthwyo dysgwyr i ddeall ac i ddod i siarad Cymraeg sy'n debyg iawn i'r iaith a ddefnyddir gan bobl leol.

Rhedir sesiynau Clwb Croeso ar gyfer pobl sydd yn newydd i'r ardal ac i'r Gymraeg, ac sydd eisiau dysgu siarad rhywfaint o'r Gymraeg er mwyn deall fwy o'r hyn sydd yn mynd ymlaen o'u cwmpas. Darperir y Clybiau Croeso yn Llandyfaelog, Cross Hands, Llanelli, Pontyberem, Pum Heol, Ffwrnes a Thrimsaran. Hefyd rydym yn darparu sesiynau ar gyfer dysgwyr, neu bobl leol sydd â rhywfaint o afael ar y Gymraeg ond yn ofnus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r dosbarth.

Mae'r Clybiau Clonc hyn yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfle i gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg a ddefnyddir yn lleol. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae dysgwyr yn mynd ymlaen i fynychu nifer fawr o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol a rhedir gan y Fenter, ond hefyd gan grwpiau cymunedol eraill.

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydweithio'n agos gyda dysgwyr ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau trafod a chydweithio gyda'r dysgwyr.

Cwis Dim Clem

Mae Cwis Dim Clem yn brosiect i blant blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth a Llanelli. Mae'r cwis yn cynnwys sawl gwahanol rownd sy'n codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg. Mae sawl rownd gwahanol sy'n arwain at rownd derfynol. Yn dilyn llwyddiant y Cwis, mae bellach yn brosiect rhanbarthol ac yna wedi tyfu i fod yn genedlaethol.

Pryd ar Glud

Mae gwasanaeth Pryd ar Glud yn cael ei gynnig i drigolion Cwm Gwendraeth ddwy waith yr wythnos. Mae'r trigolion hyn yn cael pryd twym, dau gwrs wedi ei ddarparu yn y cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn holl bwysig i'r bobl sydd yn gaeth i'w cartrefi. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth i ddosbarthu'r pecynnau bwyd. Hefyd, mae'r unigolion hyn yn gwerthfawrogi gweld gwyneb adnabyddus yn wythnosol.

Prosiect Cristnogol

Sefydlwyd prosiect Cristnogol yng Nghwm Gwendraeth er mwyn hyrwyddo mynediad a dealltwriaeth pobl ifanc i agweddau Cristnogol. Ein bwriad yw creu rhwydwaith o weithgareddau mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid gan greu awyrgylch Gristnogol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

MENTRAU CYMDEITHASOL

Plant y Cwm-Yn gwella bywyd plant Cymru

Mae Plant y Cwm yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel cwmni ymroddedig, sy'n hyrwyddo a chefnogi gofal a chymorth i deuluoedd, plant ac oedolion ifanc ar draws Sir Gaerfyrddin. Genir dyfeisgarwch mewn chwarae creadigol. Mae gan blant ffordd arbennig o ddod a llawenydd i bob dydd. Wrth edrych i mewn i'w llygaid gwelwn y gallant wneud beth bynnag mae nhw'n ei ddychmygu. Gallwn ninnau ond eu helpu i ddychmygu au hysbrydoli i wireddu.

Pwy ydym ni?
Rydym yn gwmni preifat sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion ifanc yng nghymunedau Cwm Gwendraeth, ardal Llanelli a thu hwnt.

Beth i ni'n gwneud?
Mae Plant y Cwm yn ddarparwr blaengar a dibynadwy sy'n cyflawni gofal a chefnogaeth i fywydau plant ac oedolion ifanc.

Dysgu'n ddi-dor
Mae plant yn dysgu mewn nifer fawr a ffyrdd boed ai'n ffurfiol neu beidio. Mae 'r clybiau yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd mewn amgylchedd creadigol a diogel sy'n ychwanegu at ei haddysg trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau.

Canolfan Cymunedol Y Cwtsh

Canolfan Adnoddau yw'r Cwtsh ar gyfer Cwm Gwendraeth ac mae'n cyfuno siop lyfrau a chaffi. Yn ogystal, mae'r Cwtsh yn ofod cymunedol gwerthfawr, sy'n cael ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, yn enwedig trigolion lleol sy'n defnyddio'r cyfleuster fel lle diogel a chroesawgar i gwrdd â ffrindiau a hefyd i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Cwtsh yn darparu prydau poeth, ac mae brecwast wedi eu coginio bob dydd ac yn awr mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

DATBLYGU CYMUNEDOL

Bywyd Cyflawn, Bywyd Hapus

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn cydnabod bod y perygl o unigedd ac ynysu cymdeithasol yn fwy o ofid nawr nag erioed. Mae pobl yn fwy symudol nawr nag erioed gyda nifer fawr o'n cymunedau wedi gweld dirywiad mewn cyfranogaeth ar lawr gwlad ac mae'r cyfleusterau, sydd ar gynnig yn lleihau diolch i doriadau ariannol a newidiadau mewn patrymau bywyd. Felly, mae'r Fenter yn trefnu calendr o weithgareddau rheolaidd a digwyddiadau achlysurol gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd, i wneud cysylltiadau, i ddysgu rhywbeth newydd ac i fwynhau. A hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys sesiynau gemau traddodiadol, gweithdai coginio, cwisus a ciniawau, grŵp drama, ioga, a theithiau i weld rhai o'r mannau diddorol a braf sydd ar drothwy ein drysau.

Cryfhau Cymunedau

Ers cenhedlaeth bellach, bu Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu gydag unigolion a grwpiau cymunedol o bob math er mwyn deall sut y mae ein cymunedau yn esblygu, ac anghenion eu trigolion yn newid.
Nid yw pwyllgora at ddant pawb, ond yn sicr, mae yna nifer fawr o ffyrdd y gall pobl leol roi o'u hamser er mwyn gwneud gwahaniaeth go-iawn i fywydau pobl Cwm Gwendraeth a Llanelli a'r cylch. Yn ystod y flwyddyn, bum yn cynnal gweithgarwch ar lein yn unol â chanllawiau cofid. Bum yn cydlynu gweithgarwch yn nhafarn rhithiol, tafarn y clo ar facebook. Cynhaliwyd gig gomedi gan Noel James, Theatr Cymru i blant oed Cynradd, clybiau darllen, sesiynau iechyd a lles, creu cerddi dan arweiniad yr Egin a groto Siôn Corn, i gyd ar blatfformau digidol.

Papur y Cwm

Mae canolfan Menter Cwm Gwendraeth Elli ym Mhontyberem yn gartref i Papur y Cwm gyda thîm o wirfoddolwyr yn cwrdd yn fisol i olygu'r newyddion sydd wedi dod i law. Mae Menter Cwm Gwendraeth yn gosod y papur cyn ei drosglwyddo i Wasg Dinefwr i'w argraffu.

Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o bartneriaethau ac mae'n cydweithio gyda nifer o grwpiau, mudiadau a sefydliadau gan gynnwys:

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Mudiad Meithrin
Urdd
Papurau Bro
Ysgolion Cynradd
Prifysgol Abertawe
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Cynghorau Tref a Chymuned
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Age Concern Cymru
CAVS
CgGC
Cymraeg i Blant
Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith Cymru
Busnesau Lleol
Ysgolion Uwchradd
Merched y Wawr
Prifysgol y Drindod Dewi Sant
Clybiau Gwawr
Canolfan Cymraeg i Oedolion
Mentrau Iaith
Cyfoeth Naturiol Cymru
Redress
Adfywio Cymru
Y Loteri Genedlaethol

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion Deddf Cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl cyfraith cwmnïau mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen a gwarged neu ddiffyg yr elusen yn ystod y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol: -

1) Dewis polisïau cyfrif addas a'u gweithredu'n gyson;

2) Dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Cymeradwy: Cyfrifo a Chofnodi gan Elusennau;

3) Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifol a darbodus;

4) Datgan a ydy'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion cymeradwy wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw eithriadau sydd wedi eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;

5) Paratoi datganiadau ariannol ar sail y dybiaeth bod yr elusen yn hyfyw oni fernir mai priodol fyddai credu bod yr elusen ar fin dod i ben.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a Deddf Gwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

ASESIAD RISG

Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr Elusennau y dylai pob elusen baratoi asesiad risg fel mater o arfer da, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ac adolygu'r peryglon y gallai'r cwmni eu hwynebu. Roedd yr adolygiad nid yn unig yn cynnwys risgiau sydd yn gysylltiedig â hwyluso prosiectau neu faterion iechyd a diogelwch ond hefyd risgiau ariannol mewn perthynas â dirwyn y cwmni i ben, diswyddiadau, salwch hirdymor neu geisiadau am iawndal gan staff.

Cytunwyd i neilltuo arian o gyllideb gyfredol y cwmni er mwyn ymateb i achosion risg. Yn sgil hynny, mae cyfanswm o £33,177 wedi ei drosglwyddo i gronfeydd penodol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Wrth baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr, manteisiwyd ar yr eithriadau arbennig yn unol â rhan 15 o Ddeddf Gwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychan.

TRWY ORCHYMYN Y BWRDD

11-15 Heol Coalbrook
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU

……

YMDDIRIEDOLWR

…….
DYDDIAD

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)

ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR AROLYGWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR

Dyma adroddiad yr arolygwr annibynnol i'r aelodau ar gyfrifon anarchwiliedig Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf.

Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy arolwg annibynnol o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021.

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Roedd incwm gros y cwmni yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr arolwg annibynnol trwy fod yn aelod cymwysedig o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r arolwg annibynnol y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

…….
BETHAN VAUGHAN
CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG DYDDIEDIG……..

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

	Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd Penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£	£
INCWM A GWARIANT					
ADNODDAU I MEWN					
Rheoli Prosiectau	2,038	-	207,081	209,119	97,867
Cymhorthdal - Eraill	134,219	-	-	134,219	134,147
Gweithgareddau	16,618	-	-	16,618	27,864
Grantiau Covid	225,956	-	-	225,956	-
Adnoddau i mewn - cyfanswm	378,831	-	207,081	585,912	259,878
ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD					
Dibrisiant	2,179	-	-	2,179	2,235
	2,179	-	-	2,179	2,235
Costau Eraill					
Costau Proffesiynol	15,358	-	-	15,358	13,913
Costau Gweithgareddau (4a)	10,641	-	-	10,641	12,719
Costau Cynnal (4b)	246,667	-	144,073	390,740	305,332
	272,666	-	144,073	416,739	331,964
Adnoddau a ddefnyddiwyd – cyfanswm	274,845	-	144,073	418,918	334,199
Adnoddau net a ddefnyddiwyd	103,986	-	63,008	166,994	(74,321)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-	-
(Colled) gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	(131,000)	-	-	(131,000)	(299,000)
Symudiad net mewn cronfeydd	(27,014)	-	63,008	35,994	(373,321)
CRONFEYDD - DYGWYD YMLAEN	(1,448,715)	33,177	-	(1,415,538)	(1,042,217)
CRONFEYDD - CARIWYD YMLAEN	(1,475,729)	33,177	63,008	(1,379,544)	(1,415,538)

Dangosir y symudiadau ar yr arian wrth gefn yn nodiadau 9, 10 ac 11 i'r datganiadau ariannol.

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG (RHIF Y CWMNI: 2815717)
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2021

	NODYN	2021		2020	
		£	£	£	£
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Sylweddol	2 a 5		58,090		57,563
ASEDION CYFREDOL					
Dyledwyr	6	43,259		128,881	
Arian yn y banc ac mewn llaw		153,982		11,380	
		197,241		140,261	
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	47,263		159,458	
ASEDION / (RHWYMEDIGAETHAU) CYFREDOL NET			149,978		(19,197)
CYFANSWM ASEDION LLAI (RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			208,068		38,366
Darpariaeth am ymrwymiadau	8		(5,612)		(2,904)
Cynllun Pensiwn			(1,582,000)		(1,451,000)
ASEDION NET			£(1,379,544)		£(1,415,538)
CYFALAF AC ARIAN WRTH GEFN					
Cronfeydd – heb gyfyngiadau	9		(1,475,729)		(1,448,715)
Cronfeydd – penodol	10		33,177		33,177
Cronfeydd – a chyfyngiadau	11		63,008		-
CYFANSWM CRONFEYDD			£(1,379,544)		£(1,415,538)

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw roedd gan y cwmni'r hawl i gael ei eithrio o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud a chwmnïau bach. Nid yw unrhyw aelodau wedi mynnu i'r cwmni gael archwiliad ariannol o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio a gofynion y Ddeddf mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg ac am baratoi cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 30 gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

…… YMDDIRIEDOLWR

…… DYDDIAD ……

MENTER CWM GWENDRAETH ELLI CYFYNGEDIG

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig yn elusen gofrestredig ac yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 11-15 Coalbrook Road, Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5HU.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling (£).

2. POLISÏAU CYFRIFO

Sail y Cyfrif

Mae'r cwmni'n paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail cyfrifo cost hanesyddol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau o Adran 1A "Cwmnïau Bychain" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006.

Paratoi cyfrifon ar sail hyfywedd

Ar y fantolen, mae gan Menter Cwm Gwendraeth Elli ddiffyg ariannol o £1,379,544 (2020: £1,415,538). Mae hyn o ganlyniad i gyflwyno, ar 1 Ebrill 2015, y rhwymedigaeth a gysylltir â'r Cynllun Pensiwn â Buddion Wedi'u Diffinio. Mae'r Diffyg Pensiwn yn rhwymedigaeth tymor-hir, ac mae'r elusen mewn sefyllfa i gwrdd â'i holl rwymedigaethau cyfredol. Caiff rhwymedigaeth tymor-byr y diffyg pensiwn ei gydnabod gan yr Ymddiriedolwyr, ac maent mewn sefyllfa i gwrdd â'r holl oblygiadau hyn. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen, ar sail yma, yn fusnes gweithredol a hyfyw.

Costau Pensiwn

Mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Ar ôl mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2015, dangosir y diffyg hwn yn llawn ar y Fantolen.

Trosiant

Mae'r trosiant yn cynrychioli gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Asedion Sefydlog A Dibrisiant

Nodir gwerth asedion sefydlog ar y fantolen yn ôl eu cost lai dibrisiant. Diddymir cost asedion sefydlog fesul rhandaliad blynyddol cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig fel a ganlyn: -

Celfi ac Offer - 15%

Ystyrir asedion a brynir trwy gytundeb les fel asedion cyfalaf ac fe'u dibrisir yn ôl y cyfraddau uchod.

Grantiau

Mae grantiau yn cael eu credydu i incwm yn unol â'r cyfnodau y maent yn perthyn iddynt.

Asesiad Risg

Mae'r cwmni wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r cwmni elusennol yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Offerynnau Ariannol

Mae'r offerynnau ariannol nad ydynt ynghlwm wrth symudiadau'r farchnad yn cynnwys dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.

Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae gwerthoedd asedion ac ymrwymiadau ariannol y cwmni yn amcangyfrifon teg.

Defnyddio Elw

Defnyddir elw'r cwmni i greu cronfa gyffredinol wrth gefn er sicrhau parhad a datblygiad y cwmni ar sail y cyfrannau ac yn ôl y dulliau a argymhellir gan y Pwyllgor Rheoli a'u cymeradwyo gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gwarant

Mae atebolrwydd pob aelod yn gyfyngedig i uchafswm o £1. Diddymir yr atebolrwydd hwn flwyddyn ar ôl i'r aelodaeth ddarfod.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y polisi arian wrth gefn i sicrhau bod gan y cwmni elusennol gyllid digonol i ddelio a'r elfen o risg sydd ynghlwm a rhedeg cwmni sydd yn ddibynnol ar dderbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. (Gweler nodyn 11)

3. CYFARWYDDWYR A STAFF

Ar gyfartaledd rhif y staff yn fisol yn ystod y flwyddyn oedd: 25 (2020 – 24).

Roedd costau cronnus cyflogau'r personau hyn fel a ganlyn:-

	2021	**2020**
	£	**£**
Cyflogau a chostau teithio	169,797	195,708
Costau Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau	31,085	28,220
	200,882	223,928

Ni dalwyd cyflog i unrhyw un o'r ymddiriedolwyr.

4. DADANSODDIAD O GOSTAU

		Cronfeydd heb gyfyngiadau	Cronfeydd penodol	Cronfeydd a chyfyngiadau	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
		£	£	£	£	£
4a	COSTAU GWEITHGAREDDAU					
(i)	Eraill	10,641	-	-	10,641	12,719
		10,641	-	-	10,641	12,719
4b	COSTAU CYNNAL					
(ii)	Costau Swyddfa	14,789	-	-	14,789	17,892
(iii)	Costau Cyflogau a chostau teithio	97,568	-	103,314	200,882	223,928
(iv)	Prosiectau	51,454	-	40,759	92,213	63,512
(v)	Rhoddion	82,856	-	-	82,856	-
		246,667	-	144,073	390,740	305,332

5. ASEDION SEFYDLOG SYLWEDDOL

	Moduron	Adeilad	Adeilad ar Les £	Celfi ac Offer £	Cyfanswm £
COST					
Ar 1.4.20	42,768	46,815	17,000	171,977	278,560
Ychwanegiadau	-	-	-	4,506	4,506
Gwaredu	(42,768)	-	-	-	(42,768)
Ar 31.3.21	-	46,815	17,000	176,483	240,298
DIBRISIANT					
Ar 1.4.20	42,762	16,011	-	162,224	220,997
Tal am y cyfnod	-	-	-	3,973	3,973
Gwaredu	(42,762)	-	-	-	(42,762)
Ar 31.3.21	-	16,011	-	166,197	182,208
GWERTH LLYFR NET					
Ar 31.3.21	£ -	£30,804	£17,000	£10,286	£58,090
Ar 31.3.20	£ 6	£30,804	£17,000	£ 9,753	£57,563

6. DYLEDWYR

	2021 £	2020 £
Dyledwyr Masnachol	34,029	44,416
Menter Min Nos Cyf (6i)	219	205
Cwtsh Glöyn Cyf (6i)	-	35,669
Menter Plant Y Cwm Cyf (6i)	5,818	13,211
Caffi Cynnes Cyf (6i)	-	32,100
Blaendaliadau	924	924
Dyledwyr eraill	2,269	2,356
	£ 43,259	£128,881

Nodyn (i)
Ar 31 Mawrth 2021 roedd asedion / (ymrwymiadau) y cwmnïoedd fel a ganlyn:-

	2021 £
Cwtsh Glöyn Cyf	£ 15,680
Menter Plant y Cwm Cyf	£ 23,007
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£ 8,091
Menter Min Nos Cyf	£ 331
Caffi Cynnes Cyf	£ 10,122

Er nad yw'r rhain yn is-gwmnïau, fe'u sefydlwyd gan Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf mwyn iddynt weinyddu gweithgareddau penodol. Maent i gyd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf sydd hefyd yn gwarantu eu holl ymrwymiadau ariannol.

7. CREDYDWYR

	2021 £	2020 £
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn: -		
Credydwyr Masnachol	1,363	2,612
Cyfrifwyr	-	2,900
Cyflogau	-	151,176
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf (6i)	2,770	2,770
WCVA	15,663	-
Incwm gohiriedig	27,467	-
	£ 47,263	£159,458

8. DARPARIAETH AM YMRWYMIADAU

	2021 £	2020 £
a) CYFRIFIADUR A CHADAIR OLWYN - SWITCH		
Balans ar 1 Ebrill 2020	-	120
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	-	(120)
Balans ar 31 Mawrth 2021	-	-
b) YSTAFELL GYFRIFIADURON / Y CWTSH		
Balans ar 1 Ebrill 2020	1,700	2,733
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	(1,033)	(1,033)
Balans ar 31 Mawrth 2021	667	1,700
c) LOTERI ABC, 123		
Balans ar 1 Ebrill 2020	1,204	1,653
Arian a dderbyniwyd	-	-
Grant a hawliwyd	(449)	(449)
Balans ar 31 Mawrth 2021	755	1,204
d) REDRESS		
Balans ar 1 Ebrill 2020	-	-
Arian a dderbyniwyd	4,505	-
Grant a hawliwyd	(315)	-
Balans ar 31 Mawrth 2021	4,190	-
CYFANSWM	£5,612	£ 2,904

9. CRONFEYDD - HEB GYFYNGIADAU

	2021	2020
	£	£
Balans a ddygwyd ymlaen	(1,448,715)	(1,149,715)
(Diffyg) am y cyfnod	(27,014)	(299,000)
	£(1,475,729)	£(1,448,715)

10. CRONFEYDD PENODOL

	Balans 1.4.20	Trosglwyddiadau i Gronfeydd Eraill	Trosglwyddiadau i mewn	Balans 31.3.21
	£	£	£	£
Costau Swyddfa (i)	33,177	-	-	33,177
	33,177	-	-	33,177

Yn dilyn asesiad o risg, mae'r Fenter wedi sefydlu cronfa benodol: -

i) Darpariaeth am gostau ychwanegol a fyddai'n deillio o adleoli swyddfeydd

		£
-	Costau Cynnal y Swyddfa	23,177
-	Costau Cyfreithiol	5,000
-	Adleoli Swyddfeydd	5,000
		£33,177

11. CRONFEYDD - A CHYFYNGIADAU

	Balans 1.4.20	Symudiad mewn Cronfeydd: Adnoddau i mewn	Gwariant	Balans 31.3.21
	£	£	£	£
CAVS (i)	-	1,000	1,000	-
Iechyd a Lles (ii)	-	14,254	14,254	-
Prosiect Llwynhendy (iii)	-	103,767	40,759	63,008
Redress (iv)	-	36,969	36,969	-
LHB (v)	-	15,000	15,000	-
WCVA (vi)	-	29,066	29,066	-
Ardaloedd blaenoriaethau (vii)	-	7,025	7,025	-
	-	207,081	144,073	63,008

Cronfeydd a Chyfyngiadau

(i) CAVS – Roedd **Cronfa Cefnogi Covid-19** Sir Gaerfyrddin yn cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin i wneud y canlynol :-

- cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai agored i niwed yn ystod argyfwng Coronafeirws (COVID-19)
- sicrhau bod gan sefydliadau/grwpiau cymunedol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau
- annog protocolau iechyd a diogelwch cadarn yn ystod pob gweithgaredd sy'n diogelu staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr a buddiolwyr y sector gwirfoddol

Bu'r Fenter yn ffodus i dderbyn £1,000 i brynu stoc o PPE er mwyn diogelu staff

(ii) **Iechyd a Lles** - Cytundeb Lefel Gwasanaeth i ddatblygu prosiectau iechyd a lles i bobl 50+ o fewn dalgylch Cwm Gwendraeth.

(iii) **Prosiect Llwynhendy** -. Nod Cyllid Invest Local yw i ddarparu buddsoddiad ar gyfer y prosiect ac adnabyddwyd yng Nghynllun Gyrru Newid Llwynhendy, sy'n gyfredol ar yr adeg pan gyflwynir y cynnig cyllido.

Mae Menter yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn union yn unol â'r termau ac amodau ar nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r prosiect a gymeradwywyd gan Bwyllgor Llywio'r Llwynhendy Invest Local (y Pwyllgor Llywio) fel y crybwyllwyd yn y Llythyr Cynnig cyllid.

(iv) **Redress** - Mae Adfer Energy Redress yn cynnig cymorth i bobl Sir Gaerfyrddin i leihau costau gwresogi eu cartrefi a lleihau Tlodi Tanwydd. Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru ac yn cael effaith negyddol ar iechyd, gan gyfrannu ar afiechyd a marwolaethau dros y Gaeaf. Bydd Adfer Energy Redress yn helpu pobl sydd yn agored i niwed. Bydd hefyd yn grymuso pobl i gymryd camau cadarnhaol yng nghymunedau eu hunain, mewn ymateb i'r cynnydd yn y gost o wresog cartrefi- tuedd sy'n peri cryn bryder i lawr gyda'r cynnydd cost ynni presennol.

(v) **LHB –** Prosiect Ysgolion - Darparu gwasanaeth cyn ysgol ar gyfer sefydliadau ar draws Sir Caerfyrddin.

(vi) **WCVA-** Cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r rhai sydd yn agored i niwed yn ystod pandemig Coronafeirws (Covid-19).

- Sicrhau bod gan fudiadau gwirfoddol/y trydydd sector yr adnoddau angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau.
- Annog protocolau iechyd a diogelwch llym yn ystod pob gweithgaredd sy'n amddiffyn staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr y trydydd sector/y sector wirfoddol.

(vii) **Ardaloedd blaenoriaethau –** Prosiect sy'n canolbwyntio ar ddwy ardal benodol, sef Cydweli a Thrimsaran, er mwyn Cymreigio a normaleiddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

12. DADANSODDIAD O ASEDION NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedion / Sylweddol	Rhwymedigaeth Net	Cyfanswm
	£	£	£
Grantiau	5,612	(5,612)	-
Cronfeydd Penodol	-	33,177	33,177
Cronfeydd heb gyfyngiadau	52,478	(1,528,207)	(1,475,729)
Cronfeydd a chyfyngiadau	-	63,008	63,008
	58,090	(1,437,634)	(1,379,544)

13. TRAFODION A CHWMNÏAU PERTHNASOL

Nid oes run o'r pum cwmni perthnasol wedi cyfrannu tuag at gostau Menter Cwm Gwendraeth Elli eleni,

Menter Min Nos Cyf	£0	(2020 - £0)
Cwtsh Glöyn Cyf	£0	(2020 - £0)
Caffi Cynnes Cyf	£0	(2020 - £0)
Menter Plant y Cwm Cyf	£0	(2020 - £5,300)
Menter Gwasanaethau Iaith y Cwm Cyf	£0	(2020 - £1,700)

Cytunwyd bod arian oedd yn ddyledus wrth Caffi Cynnes Cyf (£42,989) a Cwtsh Gloyn Cyf (£39,867) yn cael ei drin fel rhoddion yn ystod y cyfnod. Cytunwyd bod hyn yn rhoi cyfle i'r ddau ail gwmni ail lansio ar ôl y cyfnod clo heb fod ag arian yn ddyledus i Menter Cwm Gwendraeth Elli.

14. CYNLLUN PENSIWN

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig
Dyddiad y Prisiad Actiwarïaid llawn ddiwethaf 31.03.2019

TYBIAETHAU ACTIWARÏAID

Tybiaethau Ariannol	**Dechrau'r Flwyddyn**	**Diwedd y Flwyddyn**
Graddfa chwyddiant	2.1%	2.7%
Graddfa cynnydd cyflogau	3.6%	4.2%
Graddfa cynnydd pensiynau	2.2%	2.8%
Cyfradd disgownt	2.3%	2.2%

Rhaniad yr asedau rhwng y categorïau buddsoddi

Soddgyfrannau	73.2%	74.0%
Bondiau'r Llywodraeth	3.9%	-%
Bondiau eraill	10.1%	11.6%
Eiddo	12.3%	11.1%
Arian parod	0.5%	1.2%
Arall	0.0%	2.1%

Mae'r ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a'r rhaniad asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2021.

Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer ddechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2020.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2021

	£,000
Gwerth yr Asedau ar y farchnad	2,158
Dyledion	(3,740)
(Diffyg)	(1,582)
Symudiadau'r Gweddill yn ystod 2017/18	
Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	(1,451)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(68)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	51
Cost y Gwasanaeth Gynt	-
Llog Net / Budd ar Asedau	(33)
Diffyg Actiwarïaid	(81)
(Diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn	(1,582)

Datgeliadau Ychwanegol

	Asedau ar 31.03.21		**Asedau ar 31.03.20**	
	£ 000	**%**	**£ 000**	**%**
Soddgyfrannau	1,597	74.0	1,229	73.2
Bondiau'r Llywodraeth	-	0.0	65	3.9
Bondiau eraill	250	11.6	169	10.1
Eiddo	240	11.1	206	12.3
Arian	26	1.2	8	0.5
Arall	45	2.1	0	0.0
Cyfanswm	2,158		1,677	
Dyledion ar 31.03.2019	3,740			

Caiff y Cynllun Pensiwn ei drin fel cynllun a'r cyfraniadau wedi'u diffinio gan fod cytundeb rhwng Menter Cwm Gwendraeth a'r Cynllun Pensiwn Aml-gyflogwr ynglŷn â'r modd yr ariennir unrhyw ddiffyg.

15. DIGWYDDIADAU ERS DYDDIAD Y FANTOLEN: COVID-19

Ers diwedd y flwyddyn ariannol mae'r Fenter dal i fod yn dioddef o effaith Covid 19 gan fod cyfyngiadau wedi parhau mewn i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Fenter yn parhau i gynnig amryw o wasanaethau i'r gymuned ac yn dal i fod yn chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion am Gwm Gwendraeth a Llanelli.

Mae'n anodd ar hyn o bryd asesu effeithiau Covid-19 ac felly mae Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyf wedi penderfynu na fydd y sefyllfa ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 yn cael ei haddasu i adlewyrchu eu heffaith.